Diweddariad am Berfformiad y Cynllun Corfforaethol: Mis Ionawr i fis Mawrth 2022

Mae’r ddogfen hon yn cyflwyno perfformiad y Cyngor yn erbyn ei flaenoriaethau a meysydd llywodraethu rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2022, yn cynnwys ein defnydd o egwyddor Datblygu Cynaliadwy, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg. This document is available in Welsh.

Cynnwys

Crynodeb o'r Sefyllfa 4

Tai: Mae pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy'n diwallu eu hanghenion 6

Llesiant a Chydraddoldeb 11

Clymu Cymunedau: Mae Cymunedau wedi eu cysylltu, ac mae ganddynt fynediad at nwyddau a gwasanaethau yn lleol, ar-lein a thrwy gysylltiadau cludiant da 15

Llesiant a Chydraddoldeb 20

Cymunedau Cryf: Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i gynyddu annibyniaeth a chadernid 24

Llesiant a Chydraddoldeb 30

Yr Amgylchedd: Deniadol ac wedi'i ddiogelu, gan gefnogi lles a ffyniant economaidd 37

Llesiant a Chydraddoldeb 45

Pobl Ifanc: Man lle bydd pobl iau am fyw a gweithio ynddo, a bod ganddynt y sgiliau i wneud hynny 51

Llesiant a Chydraddoldeb 57

Iechyd Corfforaethol: Mae'r Cyngor yn effeithlon, wedi'i reoli'n dda ac yn amgylcheddol gynaliadwy 61

Camau Gwella 94

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth 95

Manylion cyswllt a mwy o wybodaeth

Am mwy o wybodaeth, neu i roi gwybod i ni beth yw eich barn am unrhyw beth yn yr adroddiad hwn, cysylltwch â ni:

Drwy E-BOST: timcynlluniostrategol@sirddinbych.gov.uk

Dros y FFÔN: 01824 706291

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome telephone calls in Welsh.

Drwy'r POST:

Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad

Cyngor Sir Ddinbych

Blwch Post 62,

Rhuthun,

LL15 9AZ

Rydym yn croesawu gohebiaeth Gymraeg. Ni fydd unrhyw oedi wrth ymateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg.

I gael y wybodaeth ddiweddaraf:

Hoffwch ni ar Facebook

Dilynwch ni ar Twitter

Ewch i wefan y Cyngor i gael gwybodaeth am y Cynllun Corfforaethol

Ewch i Borth Llais y Sir a chofrestrwch ar gyfer *Y Panel!*

Tanysgrifiwch i Newyddlen Llais y Sir

Crynodeb o’r Sefyllfa

Arfarnwyd y llinyn mesur ar gyfer pob blaenoriaeth yn unol â’r fframwaith rheoli perfformiad yr ydym wedi’i sefydlu. Arfarnwyd y prosiectau ar sail eu statws.

Tai: Mae pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy’n diwallu eu hanghenion

Llinynnau mesur: Da
Prosiectau: Da

Clymu Cymunedau: Mae Cymunedau wedi eu cysylltu, ac mae ganddynt fynediad at nwyddau a gwasanaethau yn lleol, ar-lein a thrwy gysylltiadau cludiant da

Llinynnau mesur: Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Prosiectau: Da

Cymunedau Cryf: Mae’r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i gynyddu annibyniaeth a chadernid

Llinynnau mesur: Derbyniol
Prosiectau: Rhagorol

Yr Amgylchedd: Deniadol ac wedi’i ddiogelu, gan gefnogi lles a ffyniant economaidd

Llinynnau mesur: Da
Prosiectau: Rhagorol

Pobl Ifanc: Man lle bydd pobl iau am fyw a gweithio ynddo a chanddynt y sgiliau i wneud hynny.

Llinynnau mesur: Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Prosiectau: Da

Iechyd Corfforaethol: Mae’r Cyngor yn effeithlon, wedi’i reoli’n dda ac yn amgylcheddol gynaliadwy

Llinynnau mesur: Derbyniol
Prosiectau: Da

Nodyn ynglŷn â Mesur Perfformiad

Yn Sir Ddinbych, ein dull arferol o bennu trothwyon perfformiad yw cymryd y chwartel uchaf (y perfformwyr gorau) o'r wybodaeth gymharol yn genedlaethol a gosod hwnnw fel y trothwy lle caiff perfformiad ei ystyried yn 'Rhagorol'. Y canolrif yw'r trothwy 'Blaenoriaeth ar gyfer Gwella' fel arfer. Y man yn y canol rhwng y gwerthoedd hynny yw'r trothwy rhwng perfformiad 'Derbyniol' a 'Da'.

Os nad oes data ar gael i ni allu cymharu ein hunain ag eraill (naill ai'n genedlaethol neu â grwpiau cymharol) yna byddwn yn cymryd safbwynt lleol ar yr hyn yr ystyriwn sy'n berfformiad 'Ardderchog', ac yn 'Flaenoriaeth ar gyfer Gwella'. Dylai hyn adlewyrchu ein huchelgeisiau.

I gael gwybod mwy am sut rydym yn rheoli perfformiad, ewch i weld y Canllaw i Reoli Perfformiad ar ein gwefan.

Tai: Mae pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy'n diwallu eu hanghenion

Llinynnau mesur: Da

Prosiectau: Da

Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Yr Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â'r Llinynnau Mesur

Ar ddiwedd mis Mawrth 2022 roedd yna 2,050 o bobl ar restr aros Un Llwybr Mynediad at Dai (SARTH), sy'n ostyngiad o'r cyfnod diwethaf, Hydref - Rhagfyr (2,378). Mae ein hail linyn mesur SARTH yn ystyried nifer y bobl a gaiff eu cartrefu o'r gofrestr naill ai i stoc y Cyngor neu eiddo Landlord Cymdeithasol Cofrestredig Sir Ddinbych. Yn ystod 2021 - 2022, cartrefwyd 261 o bobl, sydd i lawr o 328 yn y flwyddyn flaenorol.

Rydym wedi darparu 422 o gartrefi ychwanegol yn ystod 2021 - 2022. Mae hyn i lawr o 435 yn y flwyddyn flaenorol. O ran y cyflenwad ychwanegol o dai cyngor a ddarparwyd, ychwanegwyd 13 uned at ein stoc dai ac roedd y rhain i gyd yn unedau 'adbrynu' ac ni adeiladwyd unrhyw unedau newydd yn y cyfnod hwn. Darparwyd 222 o dai fforddiadwy ychwanegol, gan gynnwys tai cymdeithasol, a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn. Mae hwn yn ganlyniad rhagorol a dyma'r ffigwr uchaf ers i ni ddechrau cofnodi ffigurau yn 2006, gan ddod â'n cyfanswm ers 2017 i 586. Y rheswm dros y cynnydd yw:

- Mae'r Cyngor wedi derbyn 43 o brydlesau digartrefedd eleni. Mae'r perfformiad fel arfer yn oddeutu 10 bob blwyddyn, ond darparwyd cyllid ychwanegol i brydlesau hirdymor gyda'r sector preifat.
- Cwblhaodd Grŵp Cynefin y cynllun Gofal Ychwanegol yn Ninbych, gan gyflwyno 74 o anheddau.
- Mae Adra wedi gwneud cynnydd sylweddol ar y datblygiad yng Ngallt Melyd, ac wedi cwblhau'r datblygiad yn Nhrefnant, sydd wedi ychwanegu 38 o anheddau hyd yma.

Maes llwyddiant arall o fewn y flaenoriaeth hon yw'r prosiect Cartrefi Gwag. Mae 196 o dai gwag wedi dod yn ôl i gael eu defnyddio yn ystod 2021 - 2022, gan ddod â'r cyfanswm i 695 ers 2017, a rhagori ar y targed o 500 o gartrefi.

Yn ôl y llinyn mesur ynghylch nifer y cartrefi sector preifat sydd wedi'u gwella mewn safon ac ansawdd, mae ein perfformiad wedi gostwng islaw'r safon arferol oherwydd effaith cyfyngiadau Covid-19 ar ein gwaith. Gwnaethpwyd gwelliannau i 325 o gartrefi yn ystod 2021 - 2022, sydd i lawr o 415 yn y flwyddyn flaenorol.

Mae canran yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref (dyletswydd Adran 66) wedi gostwng o 52% i 42% yn ystod 2021 - 2023. Mae hyn yn gyfystyr â 31 o ganlyniadau llwyddiannus allan o gyfanswm o 81. Mae canran yr aelwydydd y llwyddwyd i'w rhyddhau o ddigartrefedd (dyletswydd Adran 73) hefyd wedi gostwng ers yr un cyfnod y llynedd, o 31% i 22%, sy'n gyfystyr â 108 o ganlyniadau llwyddiannus allan o gyfanswm o 501.

Roedd ein hadroddiad blaenorol wedi hepgor dwy eitem newydd o'n Harolwg Budd-ddeiliaid 2021. Roedd dau linyn mesur bodlonrwydd yn berthnasol i'r canlyniad hwn, gan gynnwys:

- Y canran o drigolion sy'n dweud eu bod yn teimlo'n fodlon gydag argaeledd tai yn eu hardaloedd hwy (30%, i lawr o 42% yn 2018).
- Y canran o drigolion sy'n dweud eu bod yn teimlo'n fodlon gyda safon y tai yn eu hardaloedd hwy (40%, i lawr o 52% yn 2018).

Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y wybodaeth ddiweddaraf ar y Prosiect

Wedi Cau: Tai Gofal Ychwanegol Dinbych

Yn dilyn rhywfaint o oedi gyda'r dyddiad trosglwyddo ar ddechrau'r cyfnod hwn, mae'n bleser gennym roi gwybod bod y cynllun bellach ar agor yn llawn a bod y darparwr, Abacare, ar y safle.

Yn profi rhwystrau: Tai Gofal Ychwanegol Rhuthun

Rydym yn dal i aros i Grŵp Cynefin nodi dyddiad penodol i ddechrau'r gwaith ar y safle. Roedd disgwyl i waith paratoadol ddechrau yn ystod mis Ebrill 2022, ond roedd rhywfaint o oedi yn sgil ystlumod. Mae rhaglen adeiladu'n cael ei llunio ac mae rhaglen gyffredinol yn cael ei datblygu ar gyfer y cynllun. Mae Grŵp Cynefin yn disgwyl i'r gwaith dymchwel

ddechrau o gwmpas mis Mehefin, ac rydym ar hyn o bryd yn gobeithio cwblhau'r gwaith adeiladu ym mis Chwefror 2024.

Yn profi rhwystrau: Tai Cyngor Ychwanegol

Mae'r hyder i ddarparu datblygiadau tai cyngor ychwanegol wedi gwella gan fod cynnydd wedi'i wneud ar safleoedd amrywiol.

- Bydd hen Lyfrgell Prestatyn yn cael ei ddymchwel a bydd y safle'n cael ei ailddatblygu i greu ardal fasnachol newydd a rhandai rhent cymdeithasol, gan ddarparu 14 o randai i bobl hŷn. Bydd pympiau gwres o'r ddaear a phaneli solar ar y to'n cynhyrchu ynni yn y rhandai er mwyn sicrhau eu bod yn ynni effeithlon i breswylwyr y dyfodol.
- Yn eu cyfarfod ym mis Mawrth, cymeradwyodd y Cabinet dendrau ar gyfer ailwampio teras o wyth eiddo ar Aquarium Street yn y Rhyl. Cyhoeddwyd rhybudd contract gyda gwerth bras o £2 filiwn ar borth caffael GwerthwchiGymru ym mis Rhagfyr. Derbyniwyd pedwar cais am dendr, ac yn dilyn ymarfer gwerthuso, mae contractwr a ffefrir wedi'i nodi.
- Mae'r broses o brynu tri o hen dai cyngor yn y Rhyl wedi cael ei chwblhau.

Gwrthodwyd y cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad preswyl ar y tir gyferbyn ag Ysgol Pendref yn Ninbych, a fyddai wedi cynnwys 22 o unedau fforddiadwy rhent cymdeithasol i'r Cyngor. Er gwaethaf hyn a'r oedi i'r amserlen yn sgil y pandemig, mae hyder y bydd y rhaglen yn cael ei chyflawni'n llwyddiannus.

Wedi Cau: Tai Fforddiadwy

Fel y nodwyd uchod, rydym wedi rhagori ar darged y Cynllun Corfforaethol o 260 o dai fforddiadwy, gyda 222 wedi'u darparu yn ystod 2021-2022. Ers dechrau'r Cynllun Corfforaethol yn 2017, rydym wedi darparu cyfanswm o 586 o dai fforddiadwy. Mae'r cam darparu tai fforddiadwy bellach yn symud ymlaen o fewn y Cynllun Gwasanaeth ar gyfer Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad.

Wedi Cau: Rhoi Cartrefi Gwag at Ddefnydd o'r Newydd

Unwaith eto, mae'r prosiect Cartrefi Gwag wedi bodloni a rhagori ar darged y Flaenoriaeth Gorfforaethol o roi bywyd newydd i 500 o dai gwag, gan roi bywyd newydd i 695 o dai gwag ers 2017. Mae'r cam darparu Tai Gwag bellach yn symud ymlaen o fewn y Cynllun Gwasanaeth ar gyfer Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad.

Llinynnau Mesur Blynyddol neu Ddwyflynyddol

Data 2020 i 2022

Llinyn Mesur	**2020 - 2021**	**2021 - 2022**	**Statws**
Nifer y bobl oedd ar y Gofrestr Angen Tai Arbenigol Anableddau Cymhleth y sicrhawyd tai â chymorth ar eu cyfer - **wedi'i feincnodi'n lleol**	5	13	Rhagorol
Y cyflenwad ychwanegol o dai cyngor a ddarparwyd	14	13	Amherthnasol Cyfrif yn unig
Nifer y cartrefi ychwanegol a ddarparwyd yn Sir Ddinbych – **wedi'i feincnodi'n lleol**	435	422	Rhagorol
Nifer yr eiddo gwag sy'n cael eu defnyddio eto (hen ddiffiniad) - **wedi'i feincnodi'n lleol**	184	196	Rhagorol
Nifer y cartrefi sector preifat sydd wedi gwella o ran safon ac ansawdd o ganlyniad i ymyrraeth gan y Cyngor – **wedi'i feincnodi'n lleol**	415	325	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Y cyflenwad ychwanegol o dai fforddiadwy, gan gynnwys tai cymdeithasol, a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn – **wedi'i feincnodi'n lleol**	154	222	Rhagorol

Llinyn Mesur	2020 - 2021	2021 - 2022	Statws
Canran yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag mynd yn ddigartref (dyletswydd Adran 66) – **wedi'i feincnodi'n genedlaethol**	52	42	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Canran yr aelwydydd digartref y sicrhawyd cartrefi iddynt (dyletswydd Adran 73) – **wedi'i feincnodi'n lleol**	31	22	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Nifer y Cartrefi Gofal Ychwanegol a gaiff eu cefnogi gan y Cyngor	0	74	Amherthnasol Cyfrif yn unig

Arolwg Fudd-ddeiliaid 2018 i 2022

Llinyn Mesur	2018 i 2019	2021 i 2022	Statws
Y canran o drigolion sy'n dweud eu bod yn teimlo'n fodlon gydag argaeledd tai yn eu hardaloedd hwy – **wedi'i feincnodi'n lleol**	42	30	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Y canran o drigolion sy'n dweud eu bod yn teimlo'n fodlon â safon tai yn eu hardaloedd hwy – **wedi'i feincnodi'n lleol**	52	40	Blaenoriaeth ar gyfer gwella

Llinynnau Mesur Chwarterol neu Ddeuflynyddol

Llinyn Mesur	Chwarter 4 2020 - 2021	Chwarter 1 2021 - 2022	Chwarter 2 2021 - 2022	Chwarter 3 2021 - 2022	Chwarter 4 2021 - 2022	Statws
Nifer y bobl ar restr aros SARTH– **wedi'i feincnodi'n lleol**	2,139	2,297	2,283	2,378	2,050	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Nifer cronnus y bobl a gartrefwyd oddi ar gofrestr SARTH	328	67	153	209	261	Amherthnasol. Cyfrif yn unig

Llesiant a Chydraddoldeb

Mae a wnelo'r flaenoriaeth hon â'r pum ffordd o weithio ac mae'n ategu Nodau Llesiant Cymru'n uniongyrchol yng nghyswllt **ffyniant**, **cadernid amgylcheddol, iechyd, cydraddoldeb, cymunedau cydlynus,** a Chymru **sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** gyda **diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.** Isod ceir mwy o uchafbwyntiau o'r gwaith a gyflawnwyd yn y flwyddyn aeth heibio yng nghyswllt y Nodau Llesiant a'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy; bu'r rhain yn fuddiol hefyd i bobl â nodweddion a ddiogelir a phobl dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

Darpariaeth Llety i'r Digartref

Ym mis Tachwedd, cwblhaodd Archwilio Mewnol adolygiad dilynol o lety digartrefedd, a roddodd raddfa sicrwydd isel arall. Cyflwynwyd adroddiad er gwybodaeth i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn eu cyfarfod ym mis Mawrth. Nododd yr adolygiad bod y

Cyngor ar y cyfan yn defnyddio dull mwy strategol i ddigartrefedd, gan gynnwys nifer o wasanaethau allweddol yn y broses o wneud penderfyniadau. Mae llawer o waith ailstrwythuro gweithredol wedi cael ei gwblhau i helpu i fodloni'r galw a chydymffurfio â dull ailgartrefu cyflym Llywodraeth Cymru, ond mae nifer o swyddi gwag o fewn y tîm sy'n rhoi pwysau ar gapasiti. Nid oedd dyddiaduron yn cael eu diweddaru'n gyson, ac nid oedd cynlluniau tai ar waith bob amser. Ychydig iawn o ganllawiau oedd yn cael eu dogfennu, ac er bod rhai gwiriadau sicrwydd ansawdd wedi cael eu rhoi ar waith i ddechrau, daeth y rhain i ben pan adawodd y swyddog gweinyddol ei swydd. Fodd bynnag, mae swyddog llety wedi cael ei recriwtio'n ddiweddar a fydd yn gyfrifol am ymgymryd â gwiriadau dogfennau i'r dyfodol.

Rydym wedi canfod bod **cydweithio** ac **integreiddio** ar draws gwasanaethau i wneud penderfyniadau strategol ynghylch atal digartrefedd yn cael effaith gadarnhaol ar benderfyniadau effeithiol. Mae bellach yn bwysig bod y Cyngor yn mynd i'r afael ag unrhyw broblemau mewn perthynas â chapasiti i ddarparu gwasanaeth sy'n bodloni'r galw cynyddol, ac yn **cynnwys** unigolion mewn ffyrdd y gallwn fodloni eu hanghenion lles **hirdymor** ac **atal** digartrefedd. Bydd y rheiny dan anfantais economaidd-gymdeithasol yn elwa o hyn.

Strategaeth Dai a Digartrefedd Ddrafft

Mabwysiadwyd Strategaeth Dai a Digartrefedd Sir Ddinbych gan y Cyngor ym mis Rhagfyr 2020. Ers ei mabwysiadu, mae sawl maes cynnydd allweddol wedi bod o fewn y Cynllun Gweithredu, a gaiff eu monitro gan y Grŵp Tai a Digartrefedd Strategol. O'r 40 o gamau gweithredu a nodwyd, mae 9 wedi cael eu sefydlu yn y ddarpariaeth weithredol fel 'busnes arferol', ac mae 23 o gamau gweithredu ar y trywydd iawn i gael eu darparu o fewn y terfynau amser penodol. Mae rhywfaint o oedi ar 8 cam gweithredu yn unol â'r terfynau amser gwreiddiol a nodwyd yn sgil effaith Covid-19. Mae'r tair thema gyntaf yn y strategaeth wedi cael eu hadolygu. Bydd thema pedwar, sy'n ymwneud â digartrefedd yn Sir Ddinbych, yn cael ei hadolygu'n drylwyr yng nghyfarfod y grŵp ym mis Mawrth, fodd bynnag, mae rhai camau eisoes ar y trywydd iawn i gael eu cwblhau, gan gynnwys caffael adeilad i ddarparu llety digartrefedd dros dro i deuluoedd yn Sir Ddinbych; yr adolygiad o'r Grant Cymorth Tai i sicrhau bod gwahanol lefelau o gymorth ar gael ar gyfer amrywiaeth o anghenion; ac integreiddio'r rhaglen Tai yn Gyntaf i'r Llwybr Cefnogi Digartrefedd. Bydd

thema pump, ‘Tai a chymorth i bobl ddiamddiffyn’ a thema chwech, ‘hyrwyddo a chefnogi cymunedau’, yn cael eu hadolygu yn y cyfarfod ym mis Mehefin.

Mae’r Strategaeth yn cefnogi’r rheiny dan anfantais economaidd-gymdeithasol a’r rheiny â nodweddion a ddiogelir megis **Oedran, Anabledd, Crefydd a Chred,** a **Hil.** Mae’r Strategaeth a’r cynllun gweithredu’n defnyddio dull **hirdymor** er mwyn **atal** a dod â digartrefedd i ben o fewn Sir Ddinbych, gan hyrwyddo **cydweithrediad** ac **integreiddiad** gyda phartneriaid, a **chynnwys** cymunedau i fynd i’r afael â phroblemau ac annog cydlyniant cymunedol.

Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai

Yng nghyfarfod y Cabinet ym mis Chwefror, cymeradwywyd y weledigaeth a amlinellwyd o fewn Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai newydd. Mae Llywodraeth Cymru’n ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru sefydlu’r strategaeth hon i amlinellu eu cyfeiriad strategol ar gyfer cymorth tai ac atal digartrefedd. Mae wedi’i halinio â’r strategaeth bresennol mewn perthynas â Thai a Digartrefedd, a gaiff ei monitro gan y Grŵp Tai a Digartrefedd Strategol.

Mae’r gwaith yn **integreiddio** gydag uchelgais Llywodraeth Cymru o ran tai a digartrefedd. Cwblhawyd asesiad trylwyr o anghenion **mewn cydweithrediad** gydag ystod o fudd-ddeiliaid, gan **gynnwys** dinasyddion sydd wedi profi digartrefedd ac wedi cael mynediad at wasanaethau, a darparwyr sy’n cynnig gwasanaethau cymorth (gan gynnwys sefydliadau trydydd sector a phartneriaid statudol eraill megis BIPBC yr Heddlu a’r Gwasanaethau Prawf). Mae cynllun gweithredu drafft wedi cael ei gynhyrchu i gefnogi darpariaeth y Strategaeth, a fydd yn cael ei adolygu’n flynyddol. Y cam nesaf fydd ychwanegu camau gweithredu **hirdymor** gyda therfynau amser cytunedig cyn cyhoeddi’r Strategaeth, a fydd yn ceisio sicrhau buddion i’r rheiny **dan anfantais economaidd-gymdeithasol** ac **atal** digartrefedd.

Contract Cyflenwi Deunyddiau Cynnal a Chadw Tai

Rhoddwyd cymeradwyaeth gan y Cabinet yn ei gyfarfod ym mis Ionawr i ddyrannu contract cyflenwi deunyddiau nesaf y Cyngor i Travis Perkins drwy Fframwaith Deunyddiau Cymru Gyfan Adra. Yn ddiweddar, Jewson’s sydd wedi bod yn cyflenwi’r

deunyddiau adeiladu ar gyfer y tîm atgyweirio a chynnal a chadw tai cyngor, a dderbyniodd eu contract presennol yn 2017, a oedd i fod i ddod i ben yn fuan yn 2022.

Mantais fawr o'r Fframwaith Cymru Gyfan yw ymrwymiad a gallu Travis Perkins i gefnogi darparu technolegau adnewyddadwy yn **hirdymor**, yn ogystal â deunyddiau carbon isel i adeiladu anheddau, gan gynnwys rhai modiwlaidd a rhai ffrâm bren. Mae hefyd yn cynnig cyfleoedd ledled Cymru i **gydweithio** ag awdurdodau a darparwyr tai eraill, gan gynnig arbedion posib' ar ddeunyddiau trwy archebion mwy. Bydd swmpgludo a datrysiadau storio lleol hefyd yn **atal** ac yn lleihau allyriadau carbon drwy ein cadwyn gyflenwi.

Clymu Cymunedau: Mae Cymunedau wedi eu cysylltu, ac mae ganddynt fynediad at nwyddau a gwasanaethau yn lleol, ar-lein a thrwy gysylltiadau cludiant da

Llinynnau mesur: Blaenoriaeth ar gyfer gwella

Prosiectau: Da

Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Yr Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â'r Llinynnau Mesur

Mae data ar gyfer cyflwr ffyrdd A, B a C ar gyfer 2021 a 2022 bellach ar gael, ond nid oes gennym ddata cymharol cenedlaethol ar hyn o bryd. Mae gwelliant wedi bod ym mhob un o'r llinynnau mesur, gydag ond 2.6% o ffyrdd A mewn cyflwr gwael, sydd wedi gwella o 3.5%, 3.8% o ffyrdd B mewn cyflwr gwael, sydd wedi gwella o 5%, a 7.5% o ffyrdd C mewn cyflwr gwael, sydd wedi gwella rhywfaint o 7.6%. Y sgôr cyffredinol yw 5.7% ar gyfer ffyrdd A, B a C gyda'i gilydd, sydd wedi gwella am y drydedd flwyddyn yn olynol.

Ym mis Mawrth 2022, roedd cysylltiad band eang cyflym iawn yn Sir Ddinbych yn 93.9%; cynnydd bach iawn o 0.53% ers mis Ionawr. Roedd gan 3.95% o eiddo fand eang o 10mbps neu is. Mae hyn yn ostyngiad o 0.23% ers mis Ionawr 2022. Mae cysylltiad band eang cyflym iawn Sir Ddinbych yn parhau i fod yn wael iawn o'i gymharu â gweddill y DU.

Gwnaed 53% o drafodion cyhoeddus ar y we rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2022, o'i gymharu â chyfanswm nifer y trafodion a wnaed gan ddefnyddio pob sianel fynediad. Mae hyn yn gynnydd o 2% ar ffigwr Hydref - Rhagfyr.

Yn ystod Ionawr - Mawrth 2022, llwyddwyd i atgyweirio 43% o ffyrdd a phalmentydd a oedd wedi'u difrodi a'u gwneud yn ddiogel erbyn yr amser targed. Mae hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth ar gyfer gwelliant ac yn bryder i'r Cyngor. Mae problemau adrodd wedi'u nodi rhwng dwy system sy'n dangos bod perfformiad yn waeth nag ydyw mewn gwirionedd, ac mae problemau mewn perthynas â chapasiti ac absenoldeb staff wedi gwaethygu hynny. Mae'r gwasanaeth yn parhau i fynd i'r afael â'r problemau hyn a disgwylir y bydd gwelliant o'r chwarter cyntaf.

Bwrdd Rhaglen y Cynllun Corfforaethol: Y wybodaeth ddiweddaraf ar y Prosiect

Wedi Cau: Band Eang Cyflym Iawn a Rhwydweithiau Symudol

Er gwaethaf ymdrechion sylweddol gan y gymuned a'r Cyngor, nid ydym wedi derbyn dyfynbris gan Openreach ar gyfer prosiect Nantglyn (a'r pentrefi cyfagos). Mae hyn wedi cymryd llawer hirach na'r disgwyl, ac fel rhan o'r broses o gau'r prosiect, cytunwyd bod y cynllun peilot wedi cael ei gwblhau cyn belled ag y bo modd. Mae tudalen we wedi cael ei chreu ar wefan y cyngor i helpu cymunedau a busnesau lleol i ddysgu mwy am opsiynau o ran cysylltu â'r we; mae hyn yn cynnwys Band Eang ADSL, cyfnerthwyr wi-fi a band eang lloeren. Mae ymholiadau a chyfathrebu rhwng 'eiddo gwyn' a'r Cyngor wedi mynd drwy'r Swyddog Cymorth Digidol dros y ddwy flynedd ddiwethaf, a bydd y swydd honno'n parhau tan o leiaf mis Medi 2023.

Mae'r prosiect wedi mapio'r cysylltedd presennol mewn Tai Cymdeithasol (rhai sy'n eiddo i'r cyngor a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig), ac mae ein gwasanaeth cynllunio'n cynnwys cyngor am gysylltedd mewn canllawiau perthnasol a sylwadau i ymgeiswyr. Yn dilyn trafodaeth gyda darparwyr symudol, rydym wedi sefydlu contract er mwyn ymestyn y cysylltedd ar draws y sir. Penderfynwyd nad oedd angen protocol ysgrifenedig. Mae'r gwersi a ddysgwyd o'r prosiect wedi cael eu cofnodi ac mae adroddiad terfynu'n cael ei baratoi er mwyn cynnig argymhellion ar sut i ddyrannu'r gyllideb sy'n weddill.

Wedi Cau: Eithrio Digidol

Er bod y prosiect hwn wedi dod i ben, bydd Llyw-wyr Cymunedol a'r Tîm Ar Ffiniau Gofal yn parhau i gefnogi pobl i wella eu cynhwysiant digidol. Rydym yn cynllunio gweithgarwch rhyng-genedlaethol mewn cydweithrediad â Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych, Gwirfoddolwyr Gofal Cymdeithasol, Sir Ddinbych yn Gweithio, Book of You ac Age Connects gan gysylltu â chynlluniau i greu Cymunedau sy'n Gyfeillgar i Oed. Bydd digwyddiadau ar-lein rhwng Cysgod y Gaer a'r ysgol leol, ac arolygon digidol o denantiaid tai cyngor hefyd yn cael eu cynnal ar ôl cau'r prosiect. Rydym yn gweithio ar dudalennau we cynhwysiant digidol y cyngor fydd yn cynnwys cyngor ar sut i geisio cymorth; er enghraifft, gan gyfeillion digidol neu drwy'r gefnogaeth a'r adnoddau sydd ar gael mewn llyfrgelloedd, wedi'u sefydlu drwy'r prosiect. Bydd yr uchod a gwybodaeth ychwanegol a

chyfeiriadau at gefnogaeth ar gael ar dudalen Map Data Cymru, fel rhan o adolygiad Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol Cymru o gynhwysiant digidol.

Er bod oedi wedi bod o ran darparu offer TG ar gyfer y ffrwd waith Rhith-wirionedd, mae cynnydd bellach wedi'i wneud mewn perthynas â hyn a bydd arweinwyr y gwasanaeth yn bwrw ymlaen â hyn fel busnes arferol. Mae grŵp wedi cael ei sefydlu i werthuso'r buddion o gyflwyno technoleg rhith-wirionedd mewn cartrefi gofal a'r gymuned. Mae'r cyngor hefyd yn ail-ddechrau trafodaethau gyda Choleg Menai Llandrillo i archwilio sut y gellid integreiddio roboteg i raglen gradd Prifysgol Bangor. Rydym yn ystyried ffyrdd i ddatblygu'r gyfres dechnoleg gynorthwyol ar gampws Llandrillo-yn-Rhos yn unol â thechnolegau presennol ac i'r dyfodol.

Wedi Cau: Seilwaith ar gyfer Digwyddiadau

Rydym wedi prynu a darparu'r holl offer symudol ar gyfer ein rhestr eiddo. Mae'r telerau ac amodau, y broses a'r system archebu ar gyfer y cynllun llogi'n cael eu datblygu, ond mae oedi wedi bod yn sgil staffio a llifogydd ym Mhafiliwn y Rhyl. Disgwyliwn y bydd y systemau hyn ar waith erbyn diwedd mis Mai 2022. Rydym yn dal i aros am fan a threlar i gefnogi'r cynllun, ond gobeithiwn lansio'r gwasanaeth dros yr haf eleni. Yn y cyfamser, mae £121,249 wedi'i ddyrannu i grwpiau ar draws y sir (gan gynnwys cynghorau tref, neuaddau cymunedol a chanolfan gymunedol) i wella seilwaith digwyddiadau lleol. Mae enghreifftiau o welliannau'n cynnwys datblygiadau digidol yn Neuadd Tref Llangollen er mwyn galluogi ffrydio byw, lifft grisiau yn Neuadd Eleanor, Llanfair Dyffryn Clwyd; uwchraddio'r gegin yn Neuadd y Pentref, Carrog; a mannau trydanol allanol at ddibenion digwyddiadau ym maes parcio Stryd y Senedd, Rhuddlan. Disgwylir y bydd y ffrwd waith hon wedi'i chwblhau erbyn mis Tachwedd, 2023. Mae cyfweliadau gyda hyrwyddwyr bellach wedi cael eu cwblhau, ac mae'r adroddiad Ymchwil i'r Farchnad wedi cael ei gynhyrchu a'i rannu gyda'r Cyngor. Mae'n rhaid i raglen waith gael ei chynhyrchu'n seiliedig ar yr adroddiad, a thrafodwyd hyn yng nghyfarfod y Bwrdd Prosiect ym mis Mawrth i gytuno ar ffordd ymlaen. Bydd bob agwedd sy'n weddill o'r prosiect yn cael eu rheoli drwy fusnes gwasanaeth ar ôl cau'r prosiect.

Brîff Prosiect: Teithio i'r Gwaith, Addysg a Gwasanaethau

Fel y nodwyd eisoes, nid oes achos busnes ar gyfer Cynllun Cludiant Cynaliadwy ar gael ar hyn o bryd, ond cyflwynwyd adroddiad ar ddatblygiad Cynllun Cludiant Cynaliadwy i'r

Pwyllgor Craffu Perfformiad yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd. Yn ystod y cyfarfod, gwnaeth yr aelodau sylwadau mewn perthynas â seilwaith gwefru cerbydau trydan, yr angen i gynnwys barn ac anghenion pobl anabl; y pwysigrwydd o gysylltu gyda'r strategaeth cludiant rhanbarthol a chenedlaethol, a'r angen i gynnwys ac ymgysylltu â defnyddwyr a chymunedau.

Llinynnau Mesur Blynyddol neu Ddwyflynyddol

Data 2020 i 2022

Llinyn Mesur	**2020 - 2021**	**2021 - 2022**	**Statws**
Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael ar y cyfan - **wedi'i feincnodi'n lleol**	3.5	2.6	Rhagorol
Canran y ffyrdd nad ydynt yn briffyrdd/ ffyrdd dosbarthiadol B sydd mewn cyflwr gwael ar y cyfan - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol**	5	3.8	Rhagorol
Canran y ffyrdd nad ydynt yn briffyrdd/ ffyrdd dosbarthiadol C sydd mewn cyflwr gwael ar y cyfan - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol**	7.6	7.5	Rhagorol
Canran yr oedolion (16 neu'n hŷn) sydd wedi defnyddio'r rhyngrwyd yn y tri mis diwethaf (Conwy a Sir Ddinbych) - **wedi'i feincnodi'n lleol**	89.8	Aros am ddata	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Y ganran o signal symudol 4G ar ffordd (holl weithredwyr) - **wedi'i feincnodi'n lleol**	49.8	50.63	Blaenoriaeth ar gyfer gwella

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014 i 2019

Llinyn Mesur	2014	2019	Statws
Canran Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Sir Ddinbych ymysg y 10% o'r mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran Mynediad i Wasanaethau (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru).	14	14	Amherthnasol Cyfrif yn unig

Llinynnau Mesur Chwarterol neu Ddeuflynyddol

Llinyn Mesur	Chwarter 4 2020 - 2021	Chwarter 1 2021 - 2022	Chwarter 2 2021 - 2022	Chwarter 3 2021 - 2022	Chwarter 4 2021 - 2022	Statws
Canran o ardaloedd all dderbyn Cysylltiad Cyflym Iawn yn Sir Ddinbych (>30 Mbps) - **wedi'i feincnodi'n lleol**	92.23	92.63	92.75	93.37	93.92	Blaeno riaeth ar gyfer gwella
Canran o eiddo gyda Band Eang o 10 Mbps neu lai - **wedi'i feincnodi'n lleol**	4.45	4.34	4.33	4.18	3.95	Blaeno riaeth ar gyfer gwella
Canran y trafodion a wneir ar y we, o'i gymharu â nifer llawn y trafodion a wneir gan ddefnyddio pob	50	56	48	51	53	Da

Llinyn Mesur	Chwarter 4 2020 - 2021	Chwarter 1 2021 - 2022	Chwarter 2 2021 - 2022	Chwarter 3 2021 - 2022	Chwarter 4 2021 - 2022	Statws
sianel fynediad - **wedi'i feincnodi'n lleol**						
Canran y ffyrdd a phalmentydd a ddifrodwyd a wnaed yn ddiogel o fewn y cyfnod targed (CAT1 – Diffygion Categori 1 yr ymdriniwyd â nhw o fewn yr amserlen) - **wedi'i feincnodi'n lleol**	87	67	64	51	43	Blaenoriaeth ar gyfer gwella

Llesiant a Chydraddoldeb

Mae a wnelo'r flaenoriaeth hon â'r pum ffordd o weithio ac mae'n cefnogi Nodau Lles Cymru'n uniongyrchol yng nghyswllt **ffyniant, cadernid amgylcheddol, cydraddoldeb, cydlyniant, cyfrifoldeb byd-eang** a **diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu.** Isod ceir mwy o uchafbwyntiau o'r gwaith a gyflawnwyd yn y flwyddyn aeth heibio yng nghyswllt y Nodau Llesiant a'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy; bu'r rhain yn fuddiol hefyd i bobl â nodweddion a ddiogelir a phobl dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

Pont Llannerch

Yn dilyn ymrwymiad y Cabinet i gefnogi'r egwyddor o ddisodli Pont Llannerch, a wnaed ym mis Rhagfyr 2021, rydym yn ariannu costau cychwynnol arolygon tir a gwaith arbenigol arall a fydd yn llywio achos busnes a chais am gyllid allanol i lunio ac adeiladu pont newydd. Ym mis Ionawr, cyhoeddom ddatganiad i'r wasg yn rhoi gwybod i drigolion am arwyddion o weithgarwch ar safle Pont Llannerch wrth i'r gwaith mapio ac arolygu

arbenigol ddechrau. Bydd y Cyngor yn cyhoeddi newyddlenni chwarterol i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf â thrigolion ac, yn ddibynnol ar gyfyngiadau Covid-19, bydd cyfarfodydd cyhoeddus yn cael eu cynnal er mwyn rhoi cyfle i drigolion drafod unrhyw bryderon.

Bydd unrhyw brosiect i ddisodli'r bont yn defnyddio'r pum ffordd o weithio dan yr egwyddor datblygu cynaliadwy, gan edrych am ddatrysiad **hirdymor** sy'n **atal** niwed pellach, gan **integreiddio** a **chydweithio** â budd-ddeiliaid a phartneriaid i geisio datrysiad, a **chynnwys** trigolion lleol yn y broses o ddatblygu opsiwn ar gyfer unrhyw strwythur newydd. Byddai trigolion lleol dan **anfantais economaidd-gymdeithasol** yn elwa o brosiect o'r fath.

Diogelwch y cyhoedd a Gweledigaeth y Rhyl

Yn ystod y cyfnod hwn, cwblhawyd gwaith i sefydlogi a pharatoi ar gyfer dymchwel adeiladau 123-125 Stryd Fawr, y Rhyl, a ystyrir yn anniogel gan beirianwyr strwythurol. Roedd y gwaith yn hanfodol er diogelwch y cyhoedd, ac fe wnaeth y Cyngor gyfathrebu gyda busnesau cyfagos i gynnig cefnogaeth lle bynnag y bo modd drwy gydol y cyfnod lle bu'n rhaid cau'r ffordd. Er nad oes unrhyw gynlluniau ffurfiol wedi'u llunio na'u mabwysiadu ar gyfer y safle, byddwn yn gweithio gyda'r gymuned i gynnal ymgynghoriad llawn ar unrhyw gynlluniau wrth iddynt ddatblygu. Cwblhawyd y gwaith dymchwel ddechrau mis Ebrill, gan ailagor y stryd fawr isaf i draffig.

Mae'r gwaith hwn hefyd yn cefnogi gweledigaeth y Cyngor ar gyfer y Rhyl, sy'n canolbwyntio ar feysydd adfywio allweddol, gan gynnwys gwella edrychiad canol y dref a'i chysylltu gyda'r promenâd. Mae wedi derbyn cefnogaeth gan brosiect Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru, a bydd yn ategu at ddatblygiad Marchnad y Frenhines a'r datblygiadau hynny sydd eisoes wedi cael eu cwblhau ar y lan y môr.

Bydd y prosiect i ddiogelu, dymchwel ac adfywio'r safle'n defnyddio'r pum ffordd o weithio dan yr egwyddor datblygu cynaliadwy, gan chwilio am ddatrysiad **hirdymor** sy'n **atal** problemau ac amhariad pellach mewn perthynas â diogelwch i fusnesau a'r cyhoedd, gan **integreiddio** a **chydweithio** gyda budd-ddeiliaid a phartneriaid, yn ogystal â **chynnwys** trigolion lleol yn y cynlluniau i ddymchwel a phennu cynllun ar gyfer dyfodol y safle. Bydd y rheiny **dan anfantais economaidd-gymdeithasol** hefyd yn elwa o'n gweledigaeth ar gyfer y Rhyl.

Gwelliannau Heol y Castell Llangollen 2020

Mae prosiect Gwella Heol y Castell, Llangollen 2020 a ddechreuodd ym mis Hydref ac y gobeithir ei gwblhau ym mis Mai, yn cael ei gwblhau gan Gyngor Sir Ddinbych mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru. Bydd cam un yn cynnwys gosod wyneb newydd ar Heol y Castell rhwng ei chyffordd gyda'r A5 a'r gyffordd gyda Heol y Farchnad. Bydd cam dau, sy'n cynnwys gosod wyneb newydd ar Heol y Castell rhwng y gyffordd â Heol y Farchnad a'r cyffyrdd gyda Heol y Felin / Abbey Road, yn digwydd ddechrau mis Mai.

Mae'r prosiect **cydweithredol** hwn wedi ymgymryd â gwaith ymgysylltu helaeth i **gynnwys** ac **integreiddio** gyda phartneriaid, trigolion, busnesau a budd-ddeiliaid lleol, ac mae nifer o newidiadau wedi'u gwneud lle bynnag y bo modd er mwyn ategu at y cynllun cyffredinol. Mae'r gwelliannau hyn yn darparu buddion **hirdymor** i drigolion ac ymwelwyr, gan greu rhagor o le ar gyfer cerddwyr o amgylch canol y dref, cyfleusterau croesi gwell, ac arwyddion traffig gwell er mwyn gwella'r llif traffig. Bydd gwelliannau mynediad hefyd yn cefnogi'r ddwy nodwedd a ddiogelir, **Oedran** ac **Anabledd,** ac yn gwella diogelwch ac **atal** unrhyw niwed i unigolion a thagfeydd yn y dref.

Datgarboneiddio Teithio

Ers ei lansio ym mis Medi 2021, mae'r cynllun tacsi gwyrdd heb allyriadau, a gaiff ei ariannu gan Lywodraeth Cymru wedi (hyd at fis Ionawr 2022) gwneud 15,501 o filltiroedd heb allyriadau ar draws y sir, gan ddarparu cyfartaledd o 969 o filltiroedd heb allyriadau bob wythnos, yn bennaf ar siwrneiau o'r cartref i'r ysgol. Mae Sir Ddinbych yn cynnal yr unig beilot o'r cynllun tacsi gwyrdd heb allyriadau fel rhan o'r peilot cenedlaethol ehangach i gefnogi nod Llywodraeth Cymru i ddat-garboneiddio'r fflyd tacsi'n llwyr erbyn 2028. Mae wyth ar hugain o yrwyr tacsi wedi rhoi cynnig ar bedwar tacsi Nissan Dynamo E-NV200 sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn fel rhan o'r cynllun 'profi cyn prynu'. Mae'r tacsis wedi gweithredu ar draws Prestatyn, y Rhyl, Bodelwyddan, Llanelwy, Dinbych, Rhuthun a Chorwen. Mewn ymateb i'r adborth gan y gyrwyr, mae'r Cyngor yn archwilio'r posibilrwydd o ymestyn y cynllun gan gynnig cerbyd sy'n gallu darparu dros 300 milltir ar un gwefriad.

Yn ogystal â'r prosiect hwn, rydym wedi sicrhau cyfanswm o £57,400 o gyllid grant gan Swyddfa Llywodraeth y DU ar gyfer Cerbydau Di-allyriadau a gefnogir gan Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, i gefnogi cyflawni Cynllun Peilot Pwynt Gwefru Cerbydau

Trydan yn Gyhoeddus. Bydd y cynllun peilot hwn yn darparu pwyntiau gwefru cyflym i'r cyhoedd eu defnyddio mewn wyth maes parcio cyhoeddus yn Sir Ddinbych. Disgwylir i'r gwaith ar y peilot gael ei gwblhau erbyn dechrau'r haf. Bydd y mannau gwefru ar waith i gefnogi preswylwyr nad oedd ganddynt fynediad at gyfleuster gwefru yn flaenorol i newid i gerbydau trydan.

Yn olaf, mae'r Cyngor, ynghyd â Thrafnidiaeth Cymru, wedi lansio cynllun cludiant cyhoeddus arloesol sy'n ymateb i alw ym mis Mawrth ar gyfer preswylwyr yn ac o amgylch ardal Rhuthun, gan ymuno â'r cynlluniau peilot yn Ninbych a Phrestatyn. Bydd gwasanaeth Fflecsi Rhuthun ar gael o fewn y dref ei hun, gan alluogi trigolion i deithio o amgylch y mwyafrif o'r lonydd pengaead yn Rhuthun. Bydd hyn yn cyflwyno gwasanaeth bws i nifer o bobl yn Rhuthun am y tro cyntaf, diolch i'r gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru a Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru. Bydd Fflecsi hefyd yn gwasanaethu nifer o bentrefi a phentrefannau, gan gynnwys Bontuchel, Clawddnewydd, Clocaenog, Cyffylliog, Derwen, Graigfechan, Llanelidan, Pentrecelyn a Rhydymeudwy. Y bws Fflecsi yw'r bws mini 16 sedd cyntaf yng Nghymru i weithio'n llwyr ar fatri heb allyriadau. Gall teithwyr archebu eu cludiant awr ymlaen llaw naill ai drwy'r ap Fflecsi (sydd ar gael ar wefan Fflecsi Cymru), neu drwy ffonio'r ganolfan alwadau ar 0300 234 0300. Yn yr ardaloedd gwledig lle mae Fflecsi eisoes wedi cael ei gyflwyno, mae cynnydd wedi bod yng ngalw teithwyr o'i gymharu â'r gwasanaethau bws blaenorol oedd yn gweithredu drwy amserlenni.

Mae'r enghreifftiau hyn o deithio heb allyriadau a theithio sy'n ymateb i'r galw yn berthnasol i'r pum ffordd o weithio dan yr egwyddor datblygu cynaliadwy. Maent yn ceisio **integreiddio** amcanion ar lefel genedlaethol a lleol, **cydweithio** gyda phartneriaid, a **chynnwys** defnyddwyr mewn datrysiadau **hirdymor** sy'n **atal** niwed a difrod pellach i'r amgylchedd. Drwy wella mynediad yn ag o amgylch ein haneddiadau allweddol, bydd y rheiny y mae'r nodweddion a ddiogelir, **Anabledd** ac **Oedran** yn berthnasol iddynt, yn ogystal â'r rheiny **dan anfantais economaidd-gymdeithaso**l, yn elwa o'r gwasanaeth Fflecsi.

Cymunedau Cryf: Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i gynyddu annibyniaeth a chadernid

Llinynnau mesur: Derbyniol

Prosiectau: Rhagorol

Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Yr Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â'r Llinynnau Mesur

Roedd cynnydd o 23% yn nifer y dioddefwyr trais domestig dro ar ôl tro yn Sir Ddinbych yn ystod 2021 - 2022, fe wnaeth y ffigwr hwn gynyddu o 551 i 678 erbyn mis Mawrth 2022. Mae hyn ychydig yn uwch na ffigwr Gogledd Cymru ar gyfer y flwyddyn, sydd wedi gweld cynnydd o 17.7% yn nifer y dioddefwyr trais domestig dro ar ôl tro. Mae nifer y rhai sydd yn cyflawni camdriniaeth ddomestig fwy nag unwaith yn Sir Ddinbych wedi gostwng o 28% o 115 i 83. Mae'r darlun cyffredinol ar gyfer Gogledd Cymru'n dangos bod y rhai sy'n cyflawni camdriniaeth ddomestig fwy nag unwaith wedi gostwng o 27%.

Ar wefan genedlaethol Dewis Cymru, nifer yr adnoddau ar gyfer Sir Ddinbych oedd 533. Mae hyn yn gyson â'r ffigwr a welwyd ar gyfer Hydref - Rhagfyr, ond mae'n ostyngiad o 15% o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Mae 10,970 o adnoddau ar gyfer Cymru ar Dewis Cymru ar hyn o bryd, a 2,675 ar gyfer Gogledd Cymru.

Cynhaliwyd 390 o asesiadau gofalwyr rhwng mis Ionawr a mis Mawrth. Mae hyn yn ostyngiad o 56% o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd (878 oedd y ffigwr hwn y llynedd, felly mae gostyngiad o 488). Mae cefnogaeth i ofalwyr wedi parhau ac mae cymorth cymunedol wedi bod ar gael p'un a yw gofalwyr wedi derbyn asesiad neu beidio.

Mae'r data ar gyfer y cyfnod cyfartalog mae oedolion (65 oed a throsodd) yn cael eu cefnogi mewn cartrefi gofal preswyl wedi gostwng rywfaint o 1,044 (Hydref - Rhagfyr) i 1,028 ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ionawr a mis Mawrth.

Er mwyn alinio â'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol dros dro, mae llinyn mesur ychwanegol bellach wedi cael ei gynnwys yn ein fframwaith Cymunedau Cryf sy'n ymwneud â nifer y teuluoedd a ad-sefydlwyd o fewn Sir Ddinbych dan Brosiect Adsefydlu'r DU. Yn ystod 2021 - 2022, dim ond 6 teulu oedd wedi adsefydlu'n Sir Ddinbych, un yn fwy na'r flwyddyn gynt. Mae hyn yn rhoi cyfanswm o 28 o deuluoedd dan y cynllun (fodd bynnag, mae dau deulu wedi symud allan o'r sir yn dilyn hynny). Mae'r Cyngor wedi gwneud addewid i

gefnogi 10 teulu dan brosiect y Polisi Adleoli a Chynorthwyo Affganiaid, ac rydym ar y trywydd iawn i gyflawni hyn. Rydym bellach yn gweithio gyda'r Cynllun Cartrefi i Wcráin ac yn gweithio gyda gwesteiwyr.

Roedd ein hadroddiad blaenorol wedi hepgor dwy eitem newydd o'n Harolwg Budd-ddeiliaid 2021. Roedd dau linyn mesur bodlonrwydd yn berthnasol i'r canlyniad hwn, gan gynnwys:

- Y ganran o bobl sy'n cytuno "mae fy ardal leol yn le ble bydd pobl yn tynnu at ei gilydd er mwyn gwella'r ardal leol" (63%, i fyny o 59% yn 2018).
- Y ganran o bobl sy'n teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio eu hardal leol (20%, i lawr o 27% yn 2018).

Bwrdd Rhaglen y Cynllun Corfforaethol: Y wybodaeth ddiweddaraf ar y Prosiect

Yn profi rhwystrau: Cynnwys pobl wrth lunio a gwella gwasanaethau

Yn sgil yr etholiadau, penderfynwyd gohirio ein gwaith ymchwil blwyddyn 3 tan yr haf, gan y bydd yn rhaid i'r polisi ymgysylltu gael ei gytuno gan y Cyngor newydd. Mae'r ddogfen bolisi wedi cael ei drafftio, ond mae angen gwaith pellach i gymryd y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 newydd i ystyriaeth er mwyn cefnogi datblygiad Strategaeth Cyfranogiad (yn ogystal â'r polisi ymgysylltu drafft presennol, fframwaith ategol, templedi a phecynnau gwaith sydd eisoes wedi'u datblygu). Byddai hyn, fodd bynnag, yn mynd â'r gwaith y tu hwnt i gwmpas y prosiect i fod yn 'fusnes arferol', felly cynigir cau'r prosiect a chynnwys amcanion y prosiect yn ffrwd waith cyfathrebu ac ymgysylltu cyffredinol Cymunedau a Chwsmeriaid.

Wedi Cau: Cefnogi Gofalwyr

Er bod y prosiect hwn bellach wedi cau, cytunodd cynrychiolwyr yng nghyfarfod terfynol y tîm prosiect ym mis Chwefror eu bod yn dymuno parhau i weithio gyda'i gilydd i nodi a chefnogi gofalwyr o bob oedran yn Sir Ddinbych. Trafodwyd y cynlluniau gweithredu lleol a'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd ar gyfer Strategaeth Ranbarthol Gogledd Cymru, a phenderfynwyd y dylid cynnal cyfarfodydd y dyfodol yn chwarterol i gyd-fynd â rhaglen waith Grŵp Gweithredol Gofalwyr Rhanbarthol Gogledd Cymru. Awgrymwyd hefyd y dylid

gwahodd cynrychiolydd gofalwyr i ymuno â'r grŵp. Roedd y grŵp yn cydnabod bod mwy o angen nac erioed o'r blaen i sicrhau bod gofalwyr di-dâl yn cael eu nodi cyn gynted â phosibl, a bod gwybodaeth a chefnogaeth well ar gael i sicrhau eu bod yn gallu parhau â'u rôl gofalu. Y nod yw bod y dull ar y cyd, gan gynnwys gweithio'n agos gyda sefydliadau Trydydd Sector, yn cael ei gynnal, gan flaenoriaethu atal ac ymyrraeth gynnar a datblygu cymunedau cefnogol. Mae Gwasanaethau Cymorth Cymunedol hefyd wedi dechrau datblygu cynllun i fynd i'r afael â'r problemau a amlygwyd yn adroddiad yr arolwg Cyflwr Gofal yn 2021.

Wedi Cau: Lleihau Cam-drin Domestig

Mae'r prosiect hwn bellach wedi cau'n ffurfiol, cynhaliwyd cyfarfod olaf y bwrdd prosiect ym mis Chwefror. Bydd y ffrydiau gwaith sy'n weddill yn cael eu cynnwys ym musnes arferol gwasanaethau, gan gynnwys hyfforddiant Gofyn a Gweithredu, hyfforddiant ymwybyddiaeth Tadau sy'n Gofalu, a hyfforddiant Sbectrwm mewn ysgolion. Bydd gweithiwr cefnogi plant ychwanegol hefyd yn cael ei recriwtio o fewn yr Uned Gwasanaeth Cam-drin Domestig. Un darn o waith sydd eto i'w gwblhau yw ystyried polisi tenantiaeth tai cam-drin domestig, a fydd yn cael ei ddatblygu gan ein Tîm Tai Cymunedol.

Ar y trywydd iawn: Datblygu Cymunedol Ledled y Sir

Mae'r Tîm Datblygu Cymunedol wedi parhau i oruchwylio a monitro darpariaeth 14 o brosiectau Cronfa Adnewyddu Cymunedol y DU yn Sir Ddinbych ac yn gwneud cynnydd da. Mae cyfnod y prosiect bellach wedi cael ei ymestyn tan fis Rhagfyr 2022.

Aseswyd rownd diwethaf ceisiadau'r gronfa Symiau Gohiriedig Man Agored gan y tîm yn ddiweddar, gan ddyrannu cyfanswm o £204,929 i 13 prosiect. Dosbarthwyd £17,888 o Gyllid Llywodraeth Cymru hefyd i gefnogi 16 o fentrau bwyd ar draws y sir, gan gynnwys cynlluniau banciau bwyd a rhannu bwyd.

Mae'r tîm wedi cynnig cymorth i o leiaf 23 o wahanol fentrau cymunedol yn ystod y chwarter hwn, gan gynnwys cynnig cymorth i un grŵp a sicrhaodd £65,000 o gyllid grant ar gyfer eu prosiect. Mae'r Swyddog Digidol yn parhau i gefnogi nifer o gymunedau i archwilio opsiynau gwella cysylltedd band eang, gydag un gymuned yn dathlu cwblhau eu huwchraddiad band eang ffibr Openreach yn ddiweddar.

Ar y trywydd iawn: Technoleg Gynorthwyol

Nodwyd y prosiect hwn yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol dros dro, a dyma'r tro cyntaf i ni adrodd amdano yma. Mae'n anelu at helpu cleifion dementia a dinasyddion sy'n teimlo'n unig ac yn isel. Mae offer dementia arloesol ychwanegol wedi cael eu prynu a'u gosod o fewn cyfleusterau gofal y Cyngor, ac mae hyfforddiant wedi cael ei ddarparu. Er enghraifft, mae PARO, morloi'r delyn ifanc robot therapiwtig sy'n creu naws hamddenol, wedi cael eu cyflwyno yn Nolwen a Nant-y-Môr, ac wedi bod yn boblogaidd iawn ymysg trigolion a staff. Defnyddiwyd Gweithgareddau Therapi Hel Atgofion Rhyngweithiol (RITA) mewn cyfleusterau Gofal Ychwanegol yn ystod sesiynau grŵp wythnosol a sesiynau un i un. Mae'r cynnwys cyfrwng Cymraeg ar RITA hefyd wedi bod yn boblogaidd iawn. Rydym bellach yn aros i Bodiau Atgofion (RemPods) gael eu gosod, sef offer therapi unigryw sy'n creu naws hamddenol mewn unrhyw ardal i bobl sy'n byw â dementia. Rydym hefyd wedi ail-sefydlu cysylltiadau gyda Choleg Menai Llandrillo i ystyried sut y gellir atgyfodi prosiect roboteg gyda rhaglen radd Prifysgol Bangor. Mae trafodaethau hefyd wedi cael eu cynnal i ddatblygu'r gyfres dechnoleg gynorthwyol ar gampws Llandrillo-yn-Rhos yn unol â thechnolegau presennol ac i'r dyfodol.

Ar y trywydd iawn: Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth Digidol

Yn yr un modd â'r Dechnoleg Gynorthwyol uchod, nodwyd y cam gweithredu hwn yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol dros dro i helpu pobl i gael mynediad gwell at ein gwasanaethau. Mae'r Cyngor wedi lansio tudalennau we ar gyfer nam ar y synhwyrau, ac wedi diweddaru ein tudalennau we i ofalwyr i gynnwys dolenni i ffynonellau gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth mewnol ac allanol. Rydym hefyd wedi lansio tudalennau we i helpu i ddatblygu'r gweithlu, gan roi mynediad at gyfleoedd hyfforddiant perthnasol ar gyfer darparwyr allanol a gofalwyr di-dâl i'w cefnogi yn eu rolau; a thudalennau we i rannu gwybodaeth am awtistiaeth. Rydym yn gweithio ar symud ffurflenni asesu ariannol ar-lein. Mae gwybodaeth am ddementia a oedd wedi cael ei datblygu i staff ar ein mewnrwyd bellach yn cael ei haddasu ar gyfer y cyhoedd a'i symud i'n gwefan. Rydym yn anelu at gyhoeddi'r wybodaeth hon mewn pryd ar gyfer Wythnos Gweithredu Dementia, 16 - 22 Mai.

Llinynnau Mesur Blynyddol neu Ddwyflynyddol

Data 2018 i 2022

Llinyn Mesur	**2018 - 2019**	**2021 - 2022**	**Statws**
Canran y bobl sy'n dweud eu bod wedi cael y wybodaeth neu gyngor iawn pan oedd arnynt ei angen - **wedi'i feincnodi'n lleol**	88	Dim data Dim arolwg	Derbyniol
Canran y gofalwyr sy'n dweud eu bod yn cael cefnogaeth i barhau i ddal ati i ofalu - **wedi ei feincnodi'n lleol**	55	Dim data Dim arolwg	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn gwybod â phwy i gysylltu ynglŷn â'u gofal a chymorth - **wedi'i feincnodi'n lleol**	84	Dim data Dim arolwg	Derbyniol
Canran y bobl sy'n cytuno "mae fy ardal leol yn le ble bydd pobl yn tynnu at ei gilydd er mwyn gwella'r ardal leol" - **wedi'i feincnodi'n lleol**	59	63	Da
Canran y bobl sy'n teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio eu hardal leol - **wedi'i feincnodi'n lleol**	27	20	Blaenoriaeth ar gyfer gwella

Data 2020 i 2022

Llinyn Mesur	**2020 - 2021**	**2021 - 2022**	**Statws**
Nifer y teuluoedd sydd wedi cael eu hadsefydlu o fewn Sir Ddinbych dan Brosiect Adsefydlu'r DU - **wedi'i feincnodi'n lleol**	5	6	Amherthnasol

Llinynnau Mesur Chwarterol neu Ddeuflynyddol

Llinyn Mesur	Chwarter 4 2020 - 2021	Chwarter 1 2021 - 2022	Chwarter 2 2021 - 2022	Chwarter 3 2021 - 2022	Chwarter 4 2021 - 2022	Statws
Nifer cronnus (yn y flwyddyn hyd yma) y bobl sydd wedi dioddef cam-drin domestig dro ar ôl tro, gan gynnwys achosion nad oeddynt yn droseddau (3 neu fwy mewn 12 mis, wedi'i fesur yn y flwyddyn hyd yma)	555	148	332	509	678	Amherthnasol. Cyfrif yn unig
Nifer cronnus (yn y flwyddyn hyd yma) y bobl sy'n cyflawni camdriniaeth ddomestig dro ar ôl tro (3 neu fwy mewn 12 mis)	108	18	35	60	83	Amherthnasol. Cyfrif yn unig
Nifer yr adnoddau sy'n fyw ar wefan Dewis Cymru - **wedi'i feincnodi'n lleol**	623	565	620	532	533	Derbyniol

Llinyn Mesur	Chwarter 4 2020 - 2021	Chwarter 1 2021 - 2022	Chwarter 2 2021 - 2022	Chwarter 3 2021 - 2022	Chwarter 4 2021 - 2022	Statws
Nifer yr asesiadau o anghenion cymorth ar gyfer gofalwyr a wnaed yn ystod y flwyddyn	878	114	221	302	390	Amherthnasol. Cyfrif yn unig
Yr amser ar gyfartaledd y mae oedolion (65 mlwydd neu hŷn) yn cael eu cefnogi mewn cartrefi gofal preswyl - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol**	1,053	1,053	1,050	1,044	1,028	Blaenoriaeth ar gyfer gwella

Llesiant a Chydraddoldeb

Mae a wnelo'r flaenoriaeth hon â'r pum ffordd o weithio ac mae'n ategu Nodau Lles Cymru'n uniongyrchol yng **nghyswllt ffyniant, iechyd, cydlyniant, cyfrifoldeb byd-eang a diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu.** Isod ceir mwy o uchafbwyntiau o'r gwaith a gyflawnwyd rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr yn y flwyddyn aeth heibio yng nghyswllt y Nodau Llesiant a'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy; bu'r rhain yn fuddiol hefyd i bobl â nodweddion a ddiogelir a phobl dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

Ffrindiau a pherthnasau diamddiffyn

Mae'r Cyngor wedi parhau â'u hymdrechion i ddiogelu unigolion diamddiffyn rhag niwed, gan annog trigolion i gadw llygad ar eu cymdogion, ffrindiau a'u teulu yn ystod y pandemig, yn arbennig y rhai a allai fod yn teimlo'n unig gan fod eu hymwelwyr arferol yn hunanynysu. Wrth i'r achosion Covid-19 gynyddu yn sgil yr amrywiolyn Omicron, roedd y Cyngor yn atgoffa'r cyhoedd am yr angen i sicrhau hylendid dwylo da, systemau awyru,

cadw pellter cymdeithasol a gorchuddion wyneb. Anogwyd pobl hefyd i helpu i gefnogi'r ymdrech frechu ac archebu ar-lein neu fynychu clinigau galw heibio dynodedig i gael eu pigiadau 1af, 2il a'u pigiadau atgyfnerthu.

Gan **gydweithio** gyda'n partneriaid ac **integreiddio** ein dyhead cyffredin i gadw pawb yn ddiogel ac **atal** unrhyw niwed, mae'r Cyngor yn parhau i weithio i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf â thrigolion a helpu i ddiogelu'r rhai mwyaf diamddiffyn (rydym yn gwybod bod Covid-19 yn gallu cael effaith niweidiol iawn ar bobl ag **Anableddau** ac o gefndiroedd Du ac Asiaidd. Mae'r rheiny **dan anfantais economaidd-gymdeithasol** hefyd yn fwy tebygol o brofi'n bositif.).

Gwasanaeth Cymorth ac Asesu Cof Rhanbarthol

Mae Gogledd Cymru wedi sicrhau cyllid ychwanegol a pharhaus o £672,000 y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu dull rhanbarthol gwell i gefnogi unigolion â dementia neu broblemau / pryderon mewn perthynas â'r cof yn ystod y camau cyn-asesu ac ôl-ddiagnosis. Yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd, cytunodd y Cabinet y byddai'r Cyngor yn gweithredu fel prif gomisiynydd ar ran y Tîm Cydweithio Rhanbarthol. Yn ei gyfarfod ym mis Chwefror, dyrannodd y Cabinet dri chontract ar ôl cwblhau'r ymarfer tendro. Gyda gwerth cyfun posibl o hyd at £3.36 miliwn dros 5 mlynedd, bydd y contractau hyn yn cefnogi gweithrediad Strategaeth Ddementia Gogledd Cymru.

Gan **integreiddio** a **chydweithio** gyda phartneriaid, bydd y gwasanaeth yn cefnogi'r nodweddion a ddiogelir, **Oedran ac Anabledd** yn uniongyrchol; bydd yn annog **cyfranogiad** ac yn cynnig cefnogaeth newydd i wella iechyd y rheiny sy'n byw â dementia, **atal** niwed ac yn bodloni anghenion nas diwallwyd yn yr **hirdymor**.

Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor 2022 - 2023

Fe wnaeth y Cyngor gymeradwyo mabwysiadu Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor Cymru gyfan (a'r gofynion rhagnodedig) yn eu cyfarfod ym mis Ionawr. Roedd hyn yn mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2022 - 2023. Mae'r diwygiadau o fewn y rheoliadau'n cynnwys cynnydd yn unol â chostau byw ar gyfer lwfansau personol mewn perthynas â phremiymau oedran gweithio, gofalwyr ac anabledd. Mae cyfraddau pensiynwyr wedi'u halinio â'r Budd-dal Tai a'u huwchraddio drwy fecanweithiau gwahanol. Mae'r ffigurau ariannol ar gyfer y bandiau incwm a'r didyniadau a wnaed mewn perthynas

ag annibynyddion wedi'u huwchraddio. Mae diwygiadau ychwanegol hefyd wedi'u gwneud i gefnogi Cenedlaetholwyr a chenedlaetholwyr y DU o Afghanistan; i gefnogi'r rhai sydd wedi goroesi cam-driniaeth ddomestig; a chyfradd uwch o lwfans personol i bensiynwyr yng Nghymru. Cytunodd y Cyngor hefyd i dair elfen yn ôl disgresiwn mewn perthynas â gweinyddu'r cynllun, gan gynnwys diystyru 100% o'r bensiynau Anabledd Rhyfel a Phensiynau Rhyfel Gweddw wrth gyfrifo incwm.

Bydd y rhai dan **anfantais economaidd-gymdeithasol** yn elwa o integreiddio a chydweithio gyda Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol eraill ar y cynllun hwn a gobeithir y bydd yn atal caledi pellach. Bydd diwygiadau arbennig hefyd yn cefnogi'r nodweddion a ddiogelir, **Oedran** a **Hil**.

Safonau a Pherfformiad y Gwasanaeth Llyfrgell

Yn ei gyfarfod ym mis Ionawr, fe wnaeth y Pwyllgor Craffu Perfformiad adolygu perfformiad Gwasanaeth Llyfrgell Sir Ddinbych yn erbyn y 6ed Fframwaith o Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru, a'i gynnydd o ran datblygu llyfrgelloedd fel mannau lles a chadernid lles unigol a chymunedol. Roedd y data perfformiad ar gyfer 2020 - 2021 yn cynnwys deuddeg o hawliau craidd yr oedd Sir Ddinbych wedi parhau i'w bodloni, ynghyd â chwe dangosydd ansawdd, mae hunanasesiad wedi cael ei gwblhau ar gyfer y rhain ac wedi'i gynnwys yn yr adroddiad. Nodwyd, yn unol â lefelau cyffredinol ymwelwyr â chanol y dref, nid oedd ymweliadau â llyfrgelloedd wedi dychwelyd i lefelau cyn y pandemig, ac roedd y sefyllfa hon yn cael ei hadlewyrchu ar draws Cymru. Mae lefelau defnydd yn cynyddu'n araf, fodd bynnag, mae gwaith yn mynd rhagddo i ail-ymgysylltu ag ysgolion a chroesawu darpariaeth gwasanaethau partner a gweithgareddau grŵp mewn llyfrgelloedd i gynyddu presenoldeb. Mae llyfrgelloedd hefyd bellach yn cael eu defnyddio mewn gwahanol ffyrdd wrth gwrs, gyda rhagor o bobl yn defnyddio dulliau digidol i gael mynediad at y gwasanaeth, gan gynnwys Archebu a Chasglu. Cydnabuwyd yn y cyfarfod bod y bartneriaeth gyda Chyngor Tref Rhuddlan a Chyngor Dinas Llanelwy wedi gweithio'n dda i lyfrgelloedd yn yr ardaloedd lleol hynny; a hefyd bod toriadau mewn lefelau staffio mewn modd sy'n sicrhau cyn lleied â phosib o effaith ar ddefnyddwyr llyfrgell ac na chafwyd unrhyw adborth negyddol o ganlyniad.

Mae ein llyfrgelloedd yn ganolfannau hanfodol o fewn ein cymunedau, ac yn sicrhau buddion i'r rheiny **dan anfantais economaidd-gymdeithasol** gan gynnig datrysiadau

hirdymor sy'n **atal** unigedd, allgau a thlodi gwybodaeth drwy **integreiddio** a **chydweithio** gyda phartneriaid, gan **gynnwys** defnyddwyr.

Catalyddion Cymunedol

Mae'r Cyngor yn cyfeirio entrepreneuriaid at fenter newydd sydd bellach yn weithredol ar draws Sir Ddinbych, ac yn darparu cyngor proffesiynol i helpu unigolion i weithio iddyn nhw eu hunain i gynnig gofal a chymorth o ansawdd uchel. Mae llawer o bobl yn Sir Ddinbych angen cymorth ychwanegol i fyw yn y ffordd maent eisiau, efallai oherwydd eu bod yn hŷn, yn anabl, neu â chyflwr iechyd hirdymor. Caiff y prosiect, a gaiff ei ariannu gan y Cyngor, ei gynnal gan fenter cymdeithasol Community Catalysts.

Drwy **integreiddio** a **chydweithio,** bydd y fenter hon yn sicrhau buddion i'r rheiny â'r nodweddion a ddiogelir, **Oedran** ac **Anabledd.** Mae'n annog **cyfranogiad** a gobeithir y bydd yn helpu i datblygu ein cynnig gofal yn y sir, **atal** niwed, a bodloni anghenion unigol yn yr **hirdymor.**

Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf

Mae'r Cyngor yn gweinyddu Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf Llywodraeth Cymru sy'n rhoi cyfle i aelwydydd cymwys hawlio taliad o £200 tuag at dalu biliau tanwydd gaeaf, derbyniwyd 5,604 o geisiadau, a chafodd 4,608 ohonynt eu cymeradwyo. Roedd y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ym mis Chwefror. Roedd y cynllun ar agor i aelwydydd sydd ag un aelod yn derbyn Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith Seiliedig ar Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth Seiliedig ar Incwm, Credyd Cynhwysol a Chredyd Treth Gwaith.

Gan **integreiddio** ein huchelgais cyffredin i **atal** caledi, yn y tymor byr o leiaf, bydd y fenter **gydweithredol** hon rhwng Llywodraeth Cymru a'r Cyngor yn sicrhau buddion uniongyrchol i'r rheiny dan **anfantais economaidd-gymdeithasol.** Yn sgil natur cymhwysedd y cyllid, fe ddylai gefnogi'r rheiny â nodweddion â diogelir, megis **Oedran, Anabledd, Priodas** a **Phartneriaeth Sifil** (yn arbennig o ran cefnogi Gofalwyr di-dâl i ofalu am aelodau teulu).

Cefnogi Democratiaeth

Yn y cyfnod cyn etholiadau'r Cyngor Sir a'r Cyngor Cymuned ym mis Mai, atgoffodd y Cyngor y preswylwyr o bwysigrwydd cofrestru i bleidleisio. Mae pleidleisio'n sicrhau bod

trigolion yn cael dweud eu dweud ar faterion y dydd, a gall bod ar y gofrestr etholiadol helpu i gynnal sgôr credyd pobl. Mae pawb yn gyfrifol am gofrestru eu hunain, a gellir gwneud hynny ar unrhyw bryd ar-lein ar: https://www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio.

Ym mis Mawrth, cynhaliodd y Cyngor ddigwyddiad gwybodaeth ar gyfer trigolion y sir a oedd yn ystyried bod yn gynghorwyr sir. Roedd cynrychiolwyr o'r Cyngor yn bresennol i ddarparu gwybodaeth am rôl y cynghorydd sir, sut mae'r cyngor yn gweithio, y problemau y bydd cynghorwyr sir yn eu hwynebu yn dilyn yr etholiadau, y broses enwebu ac ethol, a'r gefnogaeth sydd ar gael i gynghorwyr unwaith y cânt eu hethol.

Mae'n bwysig bod ein democratiaeth yn hygyrch i bob preswylydd, a'u bod yn cael eu cefnogi i **gymryd rhan** ynddo. Ym mis Medi, ymrwymodd y Cyngor i fod yn gyngor amrywiol sy'n cynrychioli ei drigolion. Bydd cymunedau'n elwa o gynrychiolaeth gyfartal yn yr **hirdymor**, gan waredu unrhyw rwystrau sy'n **atal** y rheiny â nodweddion a ddiogelir rhag cael eu clywed, gan gynnwys **anfantais economaidd-gymdeithasol.**

Cefnogaeth y Lluoedd Arfog

Yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Chwefror , cyflwynodd Comodor y Llu Awyr, Adrian Williams OBE a Tony Fish, Cyfarwyddwr Ymgysylltu a Chyflogwyr Rhanbarthol (y Gogledd) Wobr Arian Cynllun Cydnabod Cyflogwyr i'r Cadeirydd. Mae'r Cyngor yn un o 24 sefydliad a chyflogwr sector preifat yng Nghymru i gael Gwobr Arian Cynllun Cydnabyddiaeth Cyflogwr (CCC) Amddiffyn yn 2021 gan y Weinyddiaeth Amddiffyn. Mae'r CCC yn annog cyflogwyr i gefnogi amddiffyn ac mae ar agor i sefydliadau cyflogwyr sy'n addo, dangos ac eirioli gefnogaeth i amddiffyn a chymuned y lluoedd arfog, ac alinio eu gwerthoedd gyda Chyfamod y Lluoedd Arfog. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi arwyddo Cyfamod y Lluoedd Arfog yn 2019.

Bydd y Cyfamod a'n gwaith yn Sir Ddinbych yn sicrhau buddion uniongyrchol i'r nodweddion a ddiogelir, **Oedran, Anabledd, Priodas a Phartneriaeth Sifil** a'r rheiny dan **anfantais economaidd-gymdeithasol**. Mae'r gwaith hwn yn dangos gwaith **cydweithredol,** meddwl **hirdymor** a syniadau wedi'u **hintegreiddio** i ddiogelu cyn-filwyr. Mae hefyd yn ceisio **cynnwys** budd-ddeiliaid â diddordeb ac **atal** unigrwydd.

Gwobrau Cenedlaethol

Mae'r Gwobrau Gofal Cymdeithasol yn cydnabod, dathlu ac yn rhannu gwaith nodedig grwpiau, timau a sefydliadau yn y maes gofal cymdeithasol a gofal plant, chwarae a'r blynyddoedd cynnar yng Nghymru, yn ogystal â gweithwyr gofal unigol ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yng Nghymru. Mae dau aelod o staff wedi'u cynnwys ar y rhestr fer yn y categori Gofalu drwy'r Gymraeg. Mae'r categori hwn yn anrhydeddu unigolion sy'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl drwy ddarparu gofal o ansawdd uchel drwy gyfrwng y Gymraeg. Enwebwyd Alaw Pierce, y Rheolwr Gwasanaeth ar ran tîm rheolaeth gweithredol Sir Ddinbych am ei gwaith yn hyrwyddo hawliau pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac am fod yn fodel rôl ar gyfer staff. Enwebwyd Catherine Roberts, Rheolwr Cynorthwyol yng Nghysgod y Gaer, yn yr un categori am fynd y tu hwnt i'r disgwyl yn ei rôl yn rheolaidd, am fod yn ofalwr llawn ymroddiad, ac am arwain y tîm gydag enghreifftiau rhagorol o arferion da. Mae Sheila Mullins, cymhorthydd gofal yn Nolwen, wedi cael ei chynnwys ar restr fer mewn categori arall i ddathlu gweithwyr gofal unigol yng Nghymru sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl. Mae Rhaglen Trawsnewid Anableddau Dysgu Gyda'n Gilydd Gogledd Cymru, partneriaeth sydd yn cynnwys adrannau gofal cymdeithasol y chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, hefyd wedi cael ei chynnwys ar y rhestr fer ar gyfer y categori hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Bydd enillwyr y gwobrau'n cael eu cyhoeddi mewn seremoni yng Nghaerdydd ym mis Ebrill.

Rydym yn falch o'r ymrwymiad a'r ymroddiad gan ein timau gofal cymdeithasol, sy'n **cydweithio** ac yn **integreiddio** ar draws sefydliadau i ddarparu gwasanaethau ansawdd uchel bob dydd gyda gofal, trugaredd ac empathi. Rydym yn **cynnwys** pobl yn y broses o benderfynu ar y datrysiadau gofal cywir ar gyfer eu sefyllfa yn yr **hirdymor,** gan **atal** niwed i'r rhai mwyaf diamddiffyn (yn enwedig y rheiny â'r nodweddion â ddiogelir, **Oedran ac Anabledd).**

Ffoaduriaid o Wcráin

Mae gan y Cyngor brosesau ar waith ac maent yn paratoi i ymestyn a datblygu'r cynnig i adsefydlu teuluoedd o Wcráin. Mae gan y Cyngor hanes hir o letya a chefnogi ffoaduriaid ac maent wedi gwneud addewid i groesawu teuluoedd bob blwyddyn. Yn yr un modd ag arfer, mae'r Cyngor wedi derbyn nifer o gynigion caredig gan drigolion Sir Ddinbych. Os

oes gan unrhyw un unrhyw ymholiadau, dylent anfon e-bost at ukresettlement@denbighshire.gov.uk.

Byddwn yn **cydweithio** ac yn **integreiddio** gyda llywodraethau cenedlaethol a gwirfoddolwyr i adsefydlu ffoaduriaid yn Sir Ddinbych, **gan gynnwys** y ffoaduriaid eu hunain yn y ffyrdd gorau i gefnogi integreiddio **hirdymor** ac **atal** caledi pellach. Bydd hyn yn sicrhau buddion i'r rheiny â'r nodweddion a ddiogelir, **Hil, Crefydd a Chredoau, Oedran, Beichiogrwydd a Mamolaeth,** yn ogystal â helpu'r rheiny sy'n debygol o fod dan **anfantais economaidd-gymdeithasol.**

Yr Amgylchedd: Deniadol ac wedi'i ddiogelu, gan gefnogi lles a ffyniant economaidd

Llinynnau mesur: Da

Prosiectau: Rhagorol

Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Yr Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â'r Llinynnau Mesur

Yn ystod 2021 - 2022, plannodd y Cyngor 3,500 o goed, gan gyflawni ein huchelgais o blannu 18,000 o goed dros gyfnod y Cynllun Corfforaethol.

Mae cwblhau ein prosiect Gwaith Amddiffyn Arfordir Dwyrain y Rhyl yn golygu ein bod bellach yn gallu nodi bod 1,650 o eiddo'n wynebu llai o risg o lifogydd.

Mae'r data terfynol ar gyfer canran stoc dai'r cyngor sydd wedi cyflawni sgôr EPC (Ynni) o C neu uwch wedi cynyddu o 46 i 53% yn ystod 2021-2022.

Mae gennym bedwar llinyn mesur o fewn y flaenoriaeth hon sy'n cefnogi Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol 2021 - 2030 y Cyngor. Sef:

- Cynyddodd cyfanswm y tunelledd carbon a ollyngir ac a amsugnwyd gan y Cyngor (fel y disgwyliwyd yn dilyn y gostyngiad yn ystod cyfyngiadau 2020 - 2021) o 1,719 i 2,045 tunnell yn ystod 2021 - 2022.
- Cynyddodd cyfanswm y tunelledd carbon a ollyngir ac a amsugnwyd drwy deithiau busnes (eto fel y disgwyliwyd) o 126 i 163 tunnell yn ystod 2021 - 2022.
- Cynyddodd cyfanswm y tunelledd carbon a ollyngir ac a amsugnwyd drwy gadwyni cyflenwi o 22,206 i 31,409 yn ystod 2021 - 2022 (gyda dros hanner y cynnydd o fewn Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol, mae hyn yn debygol o fod o ganlyniad i'r pandemig, mae'r gwaith adeiladu hefyd wedi dechrau cynyddu, ond maent yn is na lefelau 2019 - 2020 ar hyn o bryd.
- Mae canran y tir y mae'r Cyngor yn berchen arno ac yn ei weithredu sydd yn y categorïau uchaf yn ôl cyfoeth rhywogaethau wedi cynyddu o 38% i 41% yn ystod 2021 - 2022.

Nid oes gennym wybodaeth ar hyn o bryd am gyfanswm effaith economaidd twristiaeth (£ miliwn) ar gyfer 2021 - 2022, bydd y data hwn yn cael ei gyhoeddi ym mis Hydref fel arfer.

Bwrdd Rhaglen y Cynllun Corfforaethol: Y wybodaeth ddiweddaraf ar y Prosiect

Yn profi rhwystrau: Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol

Yn ei gyfarfod ym mis Chwefror, cyflwynwyd y wybodaeth ddiweddaraf ar flwyddyn 1 y Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol i'r Cyngor. Er bod hyder o ran cyflawni yn ystod y flwyddyn yn cael ei adrodd fel profi rhwystrau, mae'r cynnydd hyd yma wedi bod yn flaengar ac yn drawiadol. Mae'r dadansoddiad cyntaf erioed o gynlluniau gweithredu'r hinsawdd cynghorau lleol yn dangos mai Sir Ddinbych yw'r unig awdurdod yn y rhanbarth i sgorio'n uwch na chyfartaledd cenedlaethol Cymru (47% o'i gymharu â chyfartaledd o 31%), gan ddod yn ail i Gyngor Caerdydd (a sgoriodd 70%). Yn ystod y cyfarfod hwn, cefnogodd y Cyngor y cynnig i gael Aelod Cabinet Arweiniol ar gyfer Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol.

Rhwng mis Rhagfyr 2020 a mis Mehefin 2021, cynhaliodd Archwilio Cymru adolygiad o allu'r Cyngor i gyflawni eu huchelgeisiau amgylcheddol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ym mis Ionawr. Daeth i'r casgliad bod y Cyngor yn gwneud cynnydd rhagorol o ran sefydlu ei uchelgeisiau amgylcheddol, a'i fod wedi gweithredu'n gyflym i wneud newidiadau i'w fframweithiau cynllunio strategol a dynodi adnoddau sylweddol. Mae'r Cyngor wedi cyfathrebu'n dda â dinasyddion, i lywio, newid a dylanwadu ar ymddygiadau; ond byddai mapio budd-ddeiliaid mwy cynhwysfawr yn cryfhau'r ymgysylltiad ymhellach. Mae gwaith da wedi cael ei gwblhau i hyfforddi cynghorwyr a staff, ac er bod y ddealltwriaeth yn datblygu'n dda, mae angen rhagor o fanylion ar beth mae bod yn 'ecolegol gadarnhaol' yn ei olygu i'r Cyngor, a sut mae'r uchelgeisiau'n dylanwadu ar waith dyddiol staff. Yn olaf, mae'r Cyngor wedi rhoi mesurau sylfaenol ar waith gan ddefnyddio fframwaith perfformiad sefydledig, a bydd adroddiadau dros y flwyddyn nesaf yn helpu i sefydlu'r uchelgeisiau amgylcheddol a datblygu'r mesurau.

Yn ei gyfarfod ym mis Chwefror, , cymeradwyodd y Cabinet y Cynllun penderfyniadau dirprwyedig newydd ar gyfer caffael tir (rhydd-ddaliadol a lesddaliadol) at ddibenion dal a storio carbon a gwelliannau ecolegol. Bydd hyn yn cynyddu nifer yr hectarau o dir sy'n eiddo ac yn cael ei weithredu gan y Cyngor yn y categorïau uchaf yn ôl cyfoeth rhywogaethau a'r swm o garbon a gaiff ei ddal a'i storio. Fodd bynnag, yn ei gyfarfod ym

mis Mawrth, gofynnodd y Pwyllgor Craffu Cymunedau i'r penderfyniad gael ei ailystyried gan y Cabinet yn y eu cyfarfod nesaf yn dilyn yr etholiad, gan wneud argymhellion ar gyfer cyflymu'r broses o wneud penderfyniadau mewn perthynas â phrynu tir; ymgynghori ag undebau amaethyddol eto gan fod cyfyngiadau Covid-19 bellach wedi llacio; ymgynghori ag aelodau lleol ynghylch pryniannau posibl; adolygu'r lefelau staffio o fewn Gwasanaethau Cefn Gwlad a sicrhau capasiti digonol i ddarparu; a chynnig eglurhad mewn perthynas â graddio tir.

Wedi Cau: Asedau Byw

Mae ein dealltwriaeth o 'asedau byw' Sir Ddinbych bellach yn llawer cliriach. Mae gwaith arolygu ac archwilio wedi cael ei gwblhau mewn sawl lleoliad ar draws y sir i ddatblygu cronfa ddata sy'n cynnwys gwybodaeth ar rywogaethau, cyflyrau, lleoliadau, gofynion rheoli, ac ati. Mae'r prosiect bellach wedi cau, fodd bynnag, bydd gweithgarwch i gynnal, gwella, diogelu a gwarchod asedau byw Sir Ddinbych ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yn parhau fel busnes arferol o fewn Gwasanaethau Cefn Gwlad.

Wedi Cau: Gwella bioamrywiaeth

Mae yna bellach oddeutu 100 o safleoedd prosiect dolydd blodau gwyllt, gan gynnwys ymylon priffyrdd, ymylon llwybrau troed, llwybrau beiciau a glaswelltiroedd amwynder. Mae'r safleoedd hyn, ynghyd â'r 11 o warchodfeydd natur ar ochr y ffordd, yn gyfystyr â 35 o gaeau pêl-droed a reolir fel dolydd blodau gwyllt brodorol, yn rhoi hwb i les pryfaid brodorol yn Sir Ddinbych. Mae'r prosiect hwn bellach wedi cau, ond mae rhagor o weithgarwch ar y gweill drwy'r Cynllun Gwasanaeth ar gyfer Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad.

Ar gais y Pwyllgor Craffu Partneriaethau, cyflwynwyd adroddiad yn eu cyfarfod ym mis Chwefror ynghylch polisi'r Cyngor mewn perthynas â cynnal a chadw ymylon ffyrdd a pherthi a gwasgaru plaladdwyr. Y prif egwyddor sy'n sail i'r polisi yw bod yn rhaid i ymylon ffordd gael eu rheoli er mwyn sicrhau diogelwch defnyddwyr ffyrdd. Fodd bynnag, cydnabyddir mwy a mwy bod ymylon ffyrdd yn gynefinoedd pwysig ar gyfer bioamrywiaeth – er lles gwenyn a phryfaid peillio eraill, blodau gwyllt a bywyd gwyllt eraill, ac fel coridorau bywyd gwyllt hanfodol sy'n cysylltu cynefinoedd. Nod polisi'r Cyngor felly yw mynd i'r afael â'r canlyniadau dymunol hyn mewn modd realistig ac economaidd. Gellir dod o hyd i'r polisi ar wefan y Cyngor.

Wedi Cau: Plannu Coed

Gan ddefnyddio cyllid gan Lywodraeth Cymru a dan weinyddiaeth Cyfoeth Naturiol Cymru, ers 2017, mae'r Cyngor wedi cefnogi'r prosiect o blannu 18,000 o goed yng Nglan Morfa yn y Rhyl a safleoedd sydd ar gael yn ac o amgylch Dinbych. Mae cwblhau'r prosiect PLANT wedi arwain at greu 80 erw ychwanegol o fan agored gwyrdd o ansawdd uchel sydd wedi'u lleoli'n strategol ger rhai o'r wardiau mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae buddion ychwanegol y prosiect hwn yn cynnwys mynediad newydd at lwybrau ar draws safle Glan Morfa, ynghyd â meinciau a seddi. Mae'r safle wedi cael ei ddifetha yn y gorffennol gan feiciau modur a thipio anghyfreithlon. Fel rhan o'r prosiect, gwnaethpwyd gwelliannau drwy osod giatiau mynediad a ffensys ffin. Mae nifer y tresbaswyr ar y safle wedi gostwng yn sylweddol a bydd Gwasanaeth Cefn Gwlad yn parhau i weithio mewn partneriaeth gyda Heddlu Gogledd Cymru i sicrhau bod y safle'n parhau i fod yn ddiogel ac yn cyflawni ei swyddogaeth fel man agored diogel, deniadol a gwyrdd. Mae ymgysylltu â'r gymuned wedi bod yn rhan bwysig o'r prosiect, roedd y gwaith ymgysylltu'n cynnwys digwyddiad 'Y Rhyl Gwyllt', digwyddiadau plannu coed mewn ysgolion, sesiynau gwirfoddoli ymarferol drwy ein rhaglen wirfoddol 'Ar Grwydr', a sesiynau rheolaidd dan y rhaglen 'Natur er Budd Iechyd'. Yn y dyfodol, bydd Gwasanaethau Cefn Gwlad yn parhau i gynnal y stoc goed a safle Glan Morfa, a sicrhau cynaliadwyedd i'r dyfodol, gan ymgysylltu â sefydliadau a grwpiau lleol, yn ogystal ag ysgolion a gwirfoddolwyr.

Yn ogystal â'r prosiect uchod, mae bron i 5,000 o goed wedi cael eu plannu ar draws Sir Ddinbych drwy'r Prosiect Creu Coetir a fydd yn helpu'r Cyngor i gyflawni ei nod di-garbon net. Erbyn diwedd mis Mawrth 2022, bydd gwirfoddolwyr a staff y Cyngor wedi plannu 800 o goed yn Llanrhydd, 2,500 ym Maes Gwilym, 1,500 yng Nghae Ddol, a 150 ym Maes Esgob. Mae ysgolion wedi bod ynghlwm â'r gwaith plannu yn Rhuthun a'r Rhyl.

Drwy gyllid Llywodraeth Cymru, prosiect ENRaW Partneriaethau Natur Lleol Cymru, a'r grant Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, mae safle newydd ar fferm Green Gates yng nghyffiniau Llanelwy wedi cael ei ddatblygu ar gyfer planhigfa coed lleol diweddar. Mae'r safle newydd yn anelu at gynhyrchu 5,000 o goed a 5,000 o flodau gwyllt brodorol y flwyddyn, gyda'r gobaith o'i ymestyn ymhellach. Wrth i'r gwaith yn y blanhigfa goed gynyddu, mae'r Cyngor yn awyddus i gynnwys pobl leol fel gwirfoddolwyr. Byddai gwaith gwirfoddol yn cynnwys potio a chynnal a chadw'r planhigion, arolygu'r caeau cyfagos wrth

iddynt ddatblygu, a helpu â'r gwaith plannu o bosibl. Os hoffech chi gymryd rhan, cysylltwch â ni ar biodiversity@denbighshire.gov.uk.

Ar y trywydd iawn: Coridor Byd Natur

Mae'r cyllid ar gyfer y prosiect hwn ar fin dod i ben ac mae'r ffocws wedi bod ar sicrhau bod y cyllidebau'n cael eu gwario'n llawn. Mae hyn wedi cael ei gyflawni, gan eithrio ambell i faes na lwyddwyd i'w cyflawni yn sgil Covid-19 a rhesymau eraill. Mae hyn wedi cael ei drafod gyda Llywodraeth Cymru ac maent yn hapus gyda chynnydd y prosiect, ac mae cyllidebau wedi cael eu diwygio lle bynnag y bo modd i sicrhau ein bod yn gallu ei ddefnyddio lle bo angen. Mae sawl agwedd o'r prosiect wedi cael eu cwblhau neu bron â chael eu cwblhau, gan gynnwys plannu coed, y prosiect Systemau Draenio Cynaliadwy a gwelliannau i dir ysgol. Mae sesiynau gwirfoddol ac ymgysylltiad â'r cyhoedd yn parhau'n wythnosol, ac rydym wedi ymgysylltu â nifer o ysgolion drwy blannu coed ar dir yr ysgol. Bydd cyflogau staff yn parhau tan fis Gorffennaf i gwblhau'r prosiect, ac mae'r calendr yn llawn tan hynny gydag ymgysylltiadau ag ysgolion, gwaith cynnal a chadw a gwella safleoedd, sesiynau gwirfoddol, a sesiynau lles a cherdded.

Ar y trywydd iawn: Rheoli Rhostir

Mae'r prosiect hadu hydro 5 hectar o Foel y Faen ym mis Hydref 2021 wedi profi'n llwyddiannus gyda hadau gwair ucheldir yn blodeuo mewn rhai ardaloedd. Gobeithir wrth i ni symud i'r gwanwyn y bydd effaith y gwaith hadu'n dod yn fwy amlwg. Bydd gwaith torri grug yn cael ei gwblhau ar Fynydd Llantysilio a Rhostir Llandegla yn ystod mis Mawrth 2022, a gaiff ei ariannu gan Gronfa Gwytnwch Ecosystem Bioamrywiaeth Naturiol Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae'r broses asesu risg tannau gwyllt yn cael ei datblygu a bydd yn cynhyrchu mapiau thematig gan ddefnyddio meddalwedd MapInfo (GIS), a fydd yn galluogi i newidiadau mewn risg tannau gwyllt ar rostir gael eu monitro dros amser. Mae'r prosiect yn parhau a'r dyddiad cwblhau disgwyliedig yw Hydref 2023.

Wedi Cau: Gwaith Amddiffyn Arfordir Dwyrain y Rhyl

Cwblhawyd y prosiect Gwaith Amddiffyn Arfordir Dwyrain y Rhyl o flaen yr amserlen ac o fewn y gyllideb ym mis Chwefror 2022. Bydd lleoli 128,000 tunnell o greigiau amddiffyn o

flaen yr amddiffynfeydd môr presennol a'r 600 metr ychwanegol o wal amddiffyniad môr a phromenâd yn lleihau'r risg o lifogydd i 1,650 eiddo.

Cynhaliwyd arddangosfa gyhoeddus ar gyfer Cynllun Amddiffyn Arfordirol Canol y Rhyl yn Neuadd Dref y Rhyl rhwng 12 Ionawr a 9 Chwefror. Disgwylir y gallai'r amddiffynfeydd presennol fethu o fewn y 10 - 15 mlynedd nesaf, a fyddai'n rhoi 550 eiddo preswyl a 45 eiddo amhreswyl mewn perygl. Os bydd y Cyngor yn llwyddo i sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer y cynllun, disgwyliwn i'r gwaith adeiladu ddechrau yn ystod hydref/gaeaf 2022, gan gymryd oddeutu dwy flynedd/dwy flynedd a hanner i'w gwblhau. Am ragor o wybodaeth mewn perthynas â'r cynllun, ymwelwch â'n gwefan.

Mae cais cynllunio pellach yn cael ei ddatblygu ar gyfer Cynllun Amddiffyn Arfordir Canol Prestatyn, gan gynnwys ffurfio argloddiau llifogydd, rampiau, strwythurau gollyngfa a chreigiau amddiffyn, yn ogystal â gwelliannau i gynefinoedd a thirwedd, a gweithio ar y cwlfertau presennol. Mae ymgynghoriadau'n cael eu cynnal ar hyn o bryd a disgwylir y bydd y penderfyniad wedi'i wneud ym mis Gorffennaf. Am ragor o wybodaeth, ymwelwch â'n gwefan.

Gan weithio mewn partneriaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru, mae'r Cyngor hefyd wedi bod yn archwilio risg llifogydd o gyrsiau dŵr mewndirol a pherchenogaeth tir glannau afon. Cyflwynwyd adroddiad yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau ym mis Mawrth, a oedd yn argymell dulliau posibl ar gyfer cryfhau sianeli cyfathrebu a datblygu perthnasoedd rhwng bob parti a sefydliad sy'n gyfrifol am reoli perygl llifogydd. Cytunwyd y dylai gweithgor Perygl Llifogydd, sy'n cynnwys awdurdodau rheoli perygl llifogydd a chynrychiolwyr perchnogion tir, barhau i gyfarfod yn flynyddol ac adrodd ar gynnydd i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau, y dylid ail-lansio'r Strategaeth Leol Rheoli Risg Llifogydd, gan gynnwys dolenni i Gyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru, ac y dylid egluro cyfrifoldebau awdurdodau risg llifogydd a thirfeddianwyr torlannol; y dylai gwybodaeth am gyfrifoldebau tirfeddianwyr torlannol gael ei rhannu ag eiddo ger Ffos y Rhyl a Gwter Prestatyn, ac yn olaf, y dylai'r adroddiad gael ei rannu gyda Chynghorau Tref, Dinas a Chymuned.

Yn wynebu risg: Tai Cyngor sy'n Defnyddio Ynni'n Effeithlon

Er bod hyder o ran cyflawni wedi cael ei effeithio gan Covid-19, mae nifer o gontractau gwaith bellach wedi cael eu hail-sefydlu ers y pandemig, gyda rhagor o brosiectau ar y

gweill yn ystod 2022 - 2023. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â gwaith allanol, gan gynnwys mesurau insiwleiddio a gwresogi sy'n haws i'w cyflawni i'r stoc dai ar y funud. Rydym yn dal i aros am wybodaeth bellach gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Safon Ansawdd Tai Cymru newydd, sydd wedi cael ei oedi yn sgil y pandemig. Rydym hefyd wedi cael gwybod y bydd ymgynghoriad yn dechrau yn yr haf, a disgwylir dogfen ddrafft erbyn diwedd y flwyddyn. Rydym yn credu y bydd y polisi newydd yn cael effaith sylweddol ar dargedau ar lefel genedlaethol, ac mae'n bosibl y bydd yn dylanwadu ar raglenni gwaith i'r dyfodol a phenderfyniadau rheoli asedau allweddol ar gyfer ein stoc dai.

Llinynnau Mesur Blynyddol neu Ddwyflynyddol

Data 2020 i 2022

Llinyn Mesur	**2020 - 2021**	**2021 - 2022**	**Statws**
Cyfanswm y tunelli o garbon wedi'i allyru oherwydd staff yn teithio i'r gwaith - **wedi'i feincnodi'n lleol**	1,719	2,045	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Cyfanswm y tunelli o garbon wedi'i allyru oherwydd teithiau busnes - **wedi'i feincnodi'n lleol**	126	163	Rhagorol
Cyfanswm y tunelli o garbon wedi'i allyru oherwydd cadwyni cyflenwi - **wedi'i feincnodi'n lleol**	22,206	31,409	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Y ganran o dir y mae'r Cyngor yn berchen arno ac yn ei weithredu sydd yn y categorïau uchaf yn ôl cyfoeth rhywogaethau - **wedi'i feincnodi'n lleol**	38.1	41.0	Derbyniol
STEAM - Cyfanswm Effaith Economaidd Twristiaeth (£ miliwn) - **wedi'i feincnodi'n lleol**	213.00	Aros am ddata	Blaenoriaeth ar gyfer gwella

Llinyn Mesur	2020 - 2021	2021 - 2022	Statws
Canran stoc dai presennol ac wedi'i gaffael gan y cyngor (gwaelodlin 1 Ebrill 2017) yn cyflawni graddfa EPC (Ynni) C neu well - **wedi'i feincnodi'n lleol**	46	53	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Nifer y coed a blannwyd yn flynyddol i gynyddu'r gorchudd o goed yn y Rhyl a Dinbych - **wedi'i feincnodi'n lleol**	4400	3,500	Rhagorol
Nifer yr eiddo gyda llai o risg o lifogydd **- wedi'i feincnodi'n lleol**	Dim data	1,650	Rhagorol

Arolwg Preswylwyr 2018 i 2022

Llinyn Mesur	2018 - 2019	2021 - 2022	Statws
Pa mor fodlon yw pobl gyda'u mannau agored lleol? – Cefn Gwlad – **wedi'i feincnodi'n lleol**	87	85	Rhagorol
Pa mor fodlon yw pobl gyda'u mannau agored lleol? Traethau – **wedi'i feincnodi'n lleol**	70	69	Da
Pa mor fodlon yw pobl gyda'u mannau agored lleol? Parciau – **wedi'i feincnodi'n lleol**	64	59	Derbyniol

Llinynnau Mesur Chwarterol neu Ddeuflynyddol

Nid yw ein llinyn mesur ar ganran y tai cyngor newydd sy'n cael sgôr EPC (Ynni) A ar gyfer 2021-2022 yn berthnasol gan na chwblhawyd unrhyw waith adeiladu yn y cyfnod hwn. Fodd bynnag, disgwylir y bydd 40 o dai newydd yn cyflawni sgôr EPC (Ynni) A yn 2022-2023.

Llesiant a Chydraddoldeb

Mae a wnelo'r flaenoriaeth hon â'r pum ffordd o weithio ac mae'n cefnogi Nodau Lles Cymru'n uniongyrchol yng nghyswllt **cadernid, ffyniant, iechyd, cydraddoldeb, cydlyniant, cyfrifoldeb byd-eang a diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu.** Isod ceir mwy o uchafbwyntiau o'r gwaith a gyflawnwyd yn y flwyddyn aeth heibio yng nghyswllt y Nodau Llesiant a'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy; bu'r rhain yn fuddiol hefyd i bobl â nodweddion a ddiogelir a phobl dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

Prosiect Morlyn Llanw

Roedd rhybudd o gynnig a gyflwynwyd i'r Cyngor yn ei gyfarfod ym mis Chwefror yn cydnabod cynigion ar gyfer prosiect morlyn llanw oddi ar arfordir Sir Ddinbych. Roedd Cynghorwyr yn cefnogi datblygiad y prosiect ynni oddi ar arfordir Sir Ddinbych mewn egwyddor, ac yn cytuno i sefydlu grŵp aelodau a swyddogion i gynrychioli Sir Ddinbych, a monitro a gwerthuso'r cynnydd. Gyda'r potensial ar gyfer dros 5000 o swyddi adeiladu, yn ogystal â'r buddion economaidd, mae gan y prosiect y potensial i sicrhau buddion sylweddol i'r rheiny **dan anfantais economaidd-gymdeithasol** a rhoi hwb i economi'r rhanbarth.

Eitemau na ellir eu hailgylchu o fewn Gwasanaethau Arlwyo Ysgolion

Yn dilyn argymhelliad yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad ym mis Ionawr, penderfynodd y Cabinet yn ei gyfarfod ym mis Mawrth y dylid ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Lleol Cymru i geisio cefnogaeth i roi pwysau ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu'r mesurau a amlinellir isod:

1. Gweithio gydag awdurdodau lleol ar draws Cymru mewn ymgais i leihau neu ddileu'r arfer o ddefnyddio plastigion untro a nwyddau na ellir eu hailgylchu yn y broses o gyflenwi, paratoi a gweini prydau ysgol.

2. Darparu adnoddau ariannol digonol i bob awdurdod lleol i'w galluogi i wireddu'r amcanion uchod a hwyluso mesurau lleihau carbon o fewn Gwasanaethau Arlwyo Ysgolion, gan sicrhau darpariaeth gwasanaeth prydau ysgol cynaliadwy.

Mae'r gweithgarwch hwn yn dangos ymrwymiad y Cyngor i **atal** niwed i'r Amgylchedd. Dim ond drwy **gydweithio** ac **integreiddio** gydag uchelgeisiau eraill y bydd yn bosibl i ni gyflawni'r uchelgais allweddol a **hirdymor** hwn, sydd wedi'i fynegi'n glir i ni drwy **gynnwys** pobl ifanc.

Coed Llawrydd Heintiedig

Rhwng mis Ionawr a mis Mawrth, fe wnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru ddechrau torri coed llawrydd heintiedig ym Moel Famau yn Sir Ddinbych i helpu i arafu lledaeniad *Phytophthora ramorum,* a adwaenir yn aml fel clefyd y llarwydd. Roedd bron i 26 hectar ohonynt, neu maint 30 o gaeau pêl-droed. Gan ei fod yn lleoliad poblogaidd, rheolwyd y gwaith torri'n ofalus er mwyn sicrhau cyn lleied o amhariad â phosibl ac i gadw pobl yn ddiogel. Bydd y 4,500 tunnell o goed a dorrwyd yn cael eu defnyddio ar gyfer adeiladu tai, ffensio a thanwydd coed, a bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n ail-blannu'r coedwigoedd gyda choed amgen ar gyfer cynhyrchu pren. Bydd cymysgedd o rywogaethau llydanddail yn cael eu plannu er mwyn helpu bywyd gwyllt yn yr ardaloedd o amgylch y maes parcio, ffyrdd a llwybrau.

Roedd hwn yn waith sylweddol ond hanfodol, a oedd yn cynnwys **cydweithio** gyda Chyfoeth Naturiol Cymru i **atal** lledaeniad yr haint hwn. Fe wnaethom hefyd rannu'r wybodaeth ddiweddaraf gyda'r cyhoedd ar bob cam. Byddwn yn cefnogi ail-blannu'r coed ar y safle er budd **hirdymor** yr amgylchedd. Mae rhagor o wybodaeth ar iechyd coed yng Nghymru ar gael ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Awyr Dywyll

Ar hyn o bryd, dim ond 2% o boblogaeth y DU sydd ag awyr dywyll, ond Cymru sydd â'r canran uchaf o ardaloedd awyr dywyll gwarchodedig yn y byd. Mae 95% ar gyfartaledd o'r tri pharc cenedlaethol a'r pum Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) yng Nghymru'n dod o dan y ddau gategori uchaf o awyr dywyll, gan gynnwys Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Yn ystod yr Wythnos Awyr Dywyll gyntaf yng Nghymru ym mis Chwefror, cynhaliodd AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy weithgareddau a digwyddiadau i ddathlu ein hardaloedd awyr dywyll gwarchodedig, a helpu ein cymunedau i ddysgu, darganfod a chael eu hysbrydoli gan yr awyr dywyll.

Bydd **cynnwys** pobl a chodi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd ein hawyr dywyll yn helpu i **atal** niwed a'u diogelu er lles **hirdymor** cenedlaethau'r dyfodol, yn ogystal â chael effaith gadarnhaol ar fioamrywiaeth (y mae 60% ohono'n dibynnu ar dywyllwch i oroesi), a rhoi hwb i'r economi lleol yn ystod y tymor tawelach. Bydd hefyd yn lleihau llygredd golau ac allyriadau CO2.

Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy

Lansiwyd ymgynghoriad ym mis Mawrth er mwyn i aelodau'r cyhoedd gael dweud eu dweud am y cynllun rheoli drafft ar gyfer Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Mae Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn cwmpasu oddeutu 390 cilomedr sgwâr, yn ymestyn o'r bryniau arfordirol ger Prestatyn i'r gogledd, a thua'r de mor bell â Thraphont Ddŵr Pontcysyllte a Mynyddoedd y Berwyn. Mae'n cynnwys tir yn Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam ac yn cael ei reoli gan dri chyngor sir, gyda Chyngor Sir Ddinbych yn awdurdod arweiniol ar gyfer y cyd-bwyllgor AHNE.

Wedi'i ddatblygu drwy **gydweithio** ac **integreiddio** â phartneriaid, mae'r cynllun rheoli drafft hwn yn ceisio **atal** niwed i'r amgylchedd naturiol a chynnal ei harddwch er budd **hirdymor** cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r ymgynghoriad hwn bellach yn ceisio **cynnwys** budd-ddeiliaid yn ehangach yn ein cynlluniau. Mae mynediad gwell at gefn gwlad er lles hamdden, iechyd a lles hefyd yn elfen bwysig o'r cynllun, ac yn cefnogi **Anableddau** ac **Oedran** yn ogystal â'r rheiny **dan anfantais economaidd-gymdeithasol.**

Stormydd Mis Chwefror

Cafwyd dwy storm sylweddol yn Sir Ddinbych ym mis Chwefror, Eunice a Franklin, ac fe wnaeth y Cyngor gyfathrebu'n rheolaidd â'r cyhoedd ynglŷn â hyn yn ogystal â gwneud rhai newidiadau i wasanaethau er budd diogelwch. Roedd hyn yn cynnwys cau llyfrgelloedd, Siop Un Alwad Neuadd y Sir; ac ysgolion, gan symud bob disgybl i ddysgu o bell. Yn ogystal â hynny, yn dilyn cau'r safle compostio am gyfnod dros dro, ni fu'r Cyngor yn gweithredu ei wasanaeth ailgylchu gwastraff yr ardd. Dechreuom ein Protocol Argyfwng Tywydd Garw i ddarparu llety brys i'r rhai sy'n cysgu ar y stryd. Fe wnaethom fonitro'r sefyllfa fesul awr ac roedd gennym dimau wrth gefn i ymdrin ag unrhyw broblemau a achoswyd gan y storm a cheisio cadw ein ffyrdd yn glir o unrhyw wrthrychau. Yr effaith

fwyaf a ddisgwyliwyd yn Sir Ddinbych oedd y gwynt, felly galwom ar bobl i gadw draw o bromenadau arfordirol yn ystod y storm er eu diogelwch eu hunain. Fe wnaethom hefyd gau ardaloedd allweddol megis y Maes Parcio Canolog yn y Rhyl, Canolfan Nova, Prestatyn a'n cyfleustodau cyhoeddus arfordirol. Roedd nifer o rybuddion llifogydd ar waith yn Sir Ddinbych hefyd, ac roedd criwiau'n bresennol mewn llefydd lle roedd dŵr wyneb a llifogydd ar ffyrdd er mwyn cynghori gyrwyr i fod yn ymwybodol a gyrru'n ofalus. Achosodd Storm Franklin rywfaint o ddifrod i do SC2, a bu'n rhaid i Hamdden Sir Ddinbych gau'r cyfleuster er mwyn ymgymryd â gwaith atgyweirio.

Drwy **gydweithio** ac **integreiddio** gyda'n partneriaid, gwasanaethau brys a Chyfoeth Naturiol Cymru i gasglu gymaint o wybodaeth â phosibl ac olrhain y stormydd a'u heffeithiau, roedd modd i ni gymryd camau **ataliol** i gadw trigolion yn ddiogel. Drwy roi'r Protocol Argyfwng Tywydd Garw ar waith, fe wnaethom hefyd sicrhau buddion i'r rheiny **dan anfantais economaidd-gymdeithasol.**

Cynllun Llysgenhadon

Mae cynllun sy'n darparu hyfforddiant a gwybodaeth i bobl yng Ngogledd Cymru ynghylch twristiaeth yng Ngogledd Cymru'n boblogaidd iawn, cofrestrodd dros 2,000 o bobl ac mae dros 1,350 o'r rhain bellach yn Llysgenhadon, gan gynnwys Llysgenhadon Twristiaeth Sir Ddinbych. Sir Ddinbych oedd y cyntaf i lansio cynllun ar-lein o'i fath yng Nghymru. Mae'r cynllun yn Sir Ddinbych yn cynnig 12 o fodiwlau hyfforddiant ar-lein ar amrywiaeth o themâu gan gynnwys cerdded, seiclo, trefi, hanes, celfyddydau, arfordir, y Gymraeg a thwristiaeth bwyd. Mae yna 3 lefel o wobrau – efydd, arian ac aur, yn dibynnu ar faint o fodiwlau a gaiff eu cwblhau. Bydd y cynllun yn cyfoethogi gwybodaeth a dealltwriaeth pobl o'r ardal, yn ogystal â rhoi cyfle iddnyt fynd i ddigwyddiadau ac ymweld â rhai o'n safleoedd allweddol ledled y Sir. Mae'n rhad ac am ddim ac yn agored i bawb. Am ragor o wybodaeth am y cynllun ac i gofrestru, ymwelwch âr y we Llysgennad Cymru.

Mae **cydweithio** gyda phartneriaid, eu **hintegreiddio** nhw gyda busnesau lleol, a **chynnwys** pobl mewn cynllun o'r fath yn dangos yr atyniadau arbennig sydd gennym yma yn Sir Ddinbych, a bydd yn gwella ein twristiaeth yn yr **hirdymor,** ac yn **atal** yr economi rhag bod yn segur. Mae'r cynllun hefyd yn ceisio gwella mynediad pobl at ein hasedau hanesyddol a naturiol, a fydd, ynghyd ag economi ffyniannus a rhagor o gyfleoedd gwaith lleol, yn sicrhau buddion i'r rheiny **dan anfantais economaidd-gymdeithasol.**

Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Wastraff ac Ailgylchu

O fis Ebrill, bydd y prif safleoedd yn Ninbych, Rhuthun a'r Rhyl yn cael eu rheoli gan fenter gymdeithasol o'r enw Bryson Recycling, fel rhan o gyd-gontract gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Bydd y contract newydd yn cynyddu cyfraddau ailgylchu, cyflwyno rhagor o weithgareddau ailddefnyddio a gweithredu dull economi gylchol leol ar gyfer ailgylchu. Byddwn hefyd yn ymestyn oriau agor, gwella mynediad, derbyn ystod ehangach o eitemau yn safleoedd Rhuthun a Dinbych, ac yn cynnig compost am ddim i ddefnyddwyr y safle, mynediad at ddau barc ailgylchu a gwastraff yn Abergele a Mochdre ar gyfer trigolion Sir Ddinbych, siop ail-ddefnyddio elusennol yn safle'r Rhyl, a rhagor o gefnogaeth i brosiectau ailddefnyddio o fewn ein cymunedau.

Fel rhan o'r newidiadau, bydd ffi fechan yn cael ei chodi ar drigolion sy'n dewis dod â gwastraff nad yw o'r cartref i'r parciau, megis gwastraff DIY ac adeiladu. Ystyrir y math hwn o wastraff fel gwastraff diwydiannol, nid gwastraff y cartref, a dim ond costau casglu, ailgylchu a gwaredu gwastraff y cartref mae Treth y Cyngor yn ei gynnwys.

Bydd **integreiddio** a **chydweithio** gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i benodi un gweithredwr yn ein galluogi i ddarparu gwerth **hirdymor** i'n trigolion i annog ailgylchu cyfrifol, gan **atal** niwed i'r amgylchedd. Bydd yn cefnogi'r nodweddion a ddiogelir, **Odran** ac **Anabledd,** gan fod Bryson yn addo rhoi £1 i Hosbis Sant Cyndeyrn am bob tunnell o wastraff a gaiff ei ailgylchu.

Llwybr Rhostirol Newydd

Ar ddechrau 2022, bu contractwyr sy'n gweithio i Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy'n brysur yn atgyweirio rhan allweddol o Lwybr Cenedlaethol Clawdd Offa sy'n croesi Rhostir Rhiwabon, yn dilyn sicrhau cyllid drwy Gyfoeth Naturiol Cymru. Mae rhannau bach o'r Llwybr wedi eu huwchraddio bob blwyddyn ers 2016, ond gyda'r cyllid ychwanegol hwn mae dros 850 metr o'r llwybr wedi eu hailwynebu i gwblhau'r 1.4cilomedr o lwybr ar draws y rhostir. Roedd yn rhaid gosod 250 tunnell o fflagiau cerrig a gafodd eu hawyrgludo i'r rhostir er mwyn atal difrod i gynefinoedd bregus, yn lle'r slipers a oedd ar y Llwybr Cenedlaethol hwn gynt. Mae'n darparu arwyneb mwy cynaliadwy a fydd yn diogelu priddoedd bregus y rhostiroedd, sy'n bwysig ar gyfer amsugno a storio carbon.

Mae **cydweithio** gyda Chyfoeth Naturiol Cymru ac **integreiddio** ein huchelgais ar gyfer y Llwybr Cenedlaethol a'r rhostir wedi helpu i ddarparu'r garreg filltir hon ar gyfer y llwybr mewn modd sensitif, a fydd yn sicrhau buddion **hirdymor** i genedlaethau'r dyfodol, gan **atal** niwed i gynefinoedd bregus y rhostir. Bydd y gwelliannau hyn i fynediad hefyd yn sicrhau buddion i'r nodweddion a ddiogelir, **Oedran** ac **Anabledd**, yn ogystal â'r rheiny **dan anfantais economaidd-gymdeithasol,** a chaniatáu ar gyfer rhagor o gyfranogiad yn ein hamgylchedd naturiol.

Pobl Ifanc: Man lle bydd pobl iau am fyw a gweithio ynddo, a bod ganddynt y sgiliau i wneud hynny

Llinynnau mesur: Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Prosiectau: Da

Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Yr Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â'r Llinynnau Mesur

Mae dwy eitem ddata newydd i adrodd arnynt yn ein fframwaith ar gyfer y cyfnod hwn. Rydym wedi ail-gyflwyno ein llinyn mesur mewn perthynas â llwyddiant y Prosiect Bwrsariaeth Cyflogaeth, gan ein bod bellach yn gallu darparu data ar gyfer hyn. Yn ystod 2021 - 2022, mae 16% o gynnydd wedi bod yng nghyflogau'r rheiny sydd wedi cofrestru ar y cynllun, sy'n gyson gyda'r cynnydd o 17% a gofnodwyd y flwyddyn gynt. Ers dechrau'r prosiect yn 2018, mae cynnydd cyfartalog o 20% wedi bod yng nghyflogau'r rheiny a gofrestrwyd.

Mae'r ail linyn mesur yn ymwneud â'r cyfrif hawlwyr 18 - 24. Yn unol â thueddiadau cenedlaethol, mae data ar gyfer Ionawr - Mawrth yn dangos bod y gostyngiad a welwyd yn flaenorol mewn perthynas â chyfrif hawlwyr Sir Ddinbych yn parhau i arafu wrth iddo ddychwelyd i'r lefelau cyn y pandemig (6.5%), ac mae bellach yn 6.4% (i lawr o 6.9% ym mis Rhagfyr). Rydym yn parhau i fod y tu ôl i'r gyfartaledd Cymru, sef 4.8%. Mae'n werth nodi fod Sir Ddinbych 2% y tu ôl i gyfartaledd Cymru cyn y pandemig, ond mae bellach 1.6% y tu ôl i gyfartaledd Cymru. Nid yw cyfrif hawlwyr y DU wedi dychwelyd i'r lefelau cyn y pandemig (sydd yn hanesyddol wedi bod yn llai na Chymru), sy'n parhau i fod ychydig yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru, ar 5.0%.

Nid oes unrhyw ddata wedi'i gyhoeddi mewn perthynas â chyraeddiadau a phresenoldeb ysgolion yn sgil effaith y pandemig. Fodd bynnag, drwy drafodaethau â chydweithwyr mewn awdurdodau lleol eraill, rydym yn gwybod bod perfformiad Sir Ddinbych o ran presenoldeb yn gyson gyda phresenoldeb ysgolion Cymru gyfan, gyda lefelau uchel o Covid-19 a salwch yn cael effaith ar absenoldeb ar draws y flwyddyn yn anffodus.

Gallwn hefyd rannu rhywfaint o ddata cadarnhaol mewn perthynas â'n prosiect Cefnogi Rhieni yn Sir Ddinbych a ddaeth i ben ym mis Medi, ond sy'n parhau fel busnes arferol o fewn Gwasanaethau Addysg a Phlant. Ers dechrau'r prosiect yn 2018, mae 130 o

ymarferwyr a 48 o leoliadau yn Sir Ddinbych wedi elwa o gyfleoedd hyfforddiant a gynigir drwy'r Dull Solihull. Cyn ac ar ôl y cyfyngiadau Covid-19, derbyniodd 139 o rieni hyfforddiant wyneb yn wyneb, ond yn fwy arwyddocaol, mae 2,362 wedi cofrestru ar-lein.

Bwrdd Rhaglen y Cynllun Corfforaethol: Y wybodaeth ddiweddaraf ar y Prosiect

Yn profi rhwystrau: Moderneiddio Addysg

Gan ymgynghori gyda'r ysgol a budd-deiliaid, mae cynnydd da wedi'i wneud ar datblygu cynlluniau ar gyfer Ysgol Plas Brondyffryn yn Ninbych, sy'n darparu ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 19 oed sydd â Chyflwr Sbectrwm Awtistiaeth. Y cynnig yw dod â phedwar safle ysgol ynghyd mewn un adeilad newydd sbon, a fydd yn cael ei adeiladu ar y cae chwarae ger Canolfan Hamdden Dinbych. Mae'r cynnig amlinellol cychwynnol wedi cael ei gwblhau, a bydd yn cael ei ddatblygu ymhellach ar gyfer ymgynghoriad ehangach. Mae opsiynau'n parhau i gael eu harchwilio ar gyfer Ysgol Pendref, ac mae'r opsiynau a ddatblygwyd ar gyfer cynllun Ysgol Bryn Collen / Ysgol Gwernant gan benseiri allanol yn cael eu hasesu. Mae trafodaethau cychwynnol hefyd yn mynd rhagddynt gydag Ysgol Uwchradd Dinbych mewn perthynas â buddsoddiad ar y safle.

Yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Ionawr, codwyd Rhybudd o Gynnig yn ymwneud â chyflwr Ysgol Uwchradd Prestatyn, a chytunwyd y byddai'r Bwrdd Moderneiddio Addysg yn adolygu arolygon cyflwr pob ysgol i weld a ydynt yn codi amheuon am drefn flaenoriaethol bresennol ysgolion o fewn y Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu (neu'r Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif gynt). Byddwn yn adrodd ar ganlyniad yr adolygiad hwn i'r Cabinet, ynghyd ag unrhyw argymhellion i'r Bwrdd o ganlyniad.

Codwyd Rhybudd o Gynnig arall yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Chwefror, mewn perthynas â chyllid ar gyfer pwll hydrotherapi yn Ysgol Tir Morfa. Cytunwyd eto y byddai opsiynau'n cael eu hystyried drwy'r Bwrdd Moderneiddio Addysg ac y byddai argymhellion yn cael eu gweithredu fel sy'n briodol.

Yn profi rhwystrau: Lleoliadau Gofal Plant

Er bod dau amod cynllunio wedi oedi'r prosiect hwn, dechreuwyd ar y gwaith o adeiladu estyniad Canolfan y Dderwen ym mis Chwefror, a disgwylir y bydd yn cael ei gwblhau yn

yr hydref, 2022. Mae hyn yn cynrychioli buddsoddiad o £1 miliwn, a bydd yn creu tair ystafell gofal plant newydd, gan gynyddu'r capasiti cyffredinol a chefnogi darpariaeth cyfrwng Saesneg a Chymraeg. Ariennir y prosiect gan Raglen Grantiau Cyfalaf Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru, ac mae'n rhan o fuddsoddiad cyffredinol o fwy na £3 miliwn i wella cyfleusterau gofal plant yn Sir Ddinbych.

Yn anffodus, mae'r prosiectau gofal plant yn Ysgolion Twm o'r Nant a Dewi Sant wedi gweld cynnydd yn eu costau disgwyliedig, ac felly wedi cael eu hoedi nes y bydd modd sicrhau cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

Wedi Cau: Canolfan Iaith Gymraeg

Mae'r adeilad bellach wedi cael ei gwblhau ac yn cael ei ddefnyddio, mae cyfrifon terfynol yr adeilad wedi cael ei setlo a'r taliadau cadw wedi cael eu rhyddhau. Mae'r prosiect bellach wedi cau.

Yn profi rhwystrau: Prosiect Maetheg Ysgolion

Gyda'r cyfyngiadau Covid-19 yn cael eu llacio, mae'n dod yn haws yn raddol i drefnu sesiynau hyfforddiant. Mae ysgolion Blwyddyn 1 yn dechrau ailgydio, ac er gwaethaf tri gohiriad yn sgil cynnydd mewn achosion Covid-19 mewn ysgolion, mae 6 o hyfforddeion o'n cyfran blwyddyn 2 bellach wedi derbyn hyfforddiant Dewch i Goginio atodol. Mae pum ysgol wedi cael eu recriwtio ar gyfer Blwyddyn 3 o'r prosiect, ac mae dwy wedi cwblhau eu hyfforddiant Lefel 2 ac yn aros am ddyddiad ar gyfer eu diwrnod atodol. Mae bob un o'r hyfforddeion hefyd wedi cofrestru ar gyfer eu cwrs diogelwch bwyd ar-lein. Gobeithir erbyn yr adroddiad nesaf y bydd rhai o'r gwersi Dewch i Goginio wedi cael eu rhaeadru i ddisgyblion. Ar draws tair blynedd y prosiect, mae 21 ysgol wedi ymgysylltu â'r rhaglen, ac mae 25 aelod o staff wedi cael eu hyfforddi.

Wedi Cau: Y Grant Hyfforddi Gweithwyr

Cytunwyd yng nghyfarfod diwethaf Bwrdd Rhaglen y Cynllun Corfforaethol y byddai'r prosiect bwrsariaeth yn cau, a chydnabuwyd na fyddai'r gwariant llawn yn cael ei gyflawni. Fodd bynnag, mae'r prosiect wedi llwyddo i gefnogi 20 unigolyn (gydag un cais dal yn mynd trwy'r broses), ac fel y nodwyd isod, mae wedi arwain at gynnydd o 24% yng nghyflogau cyffredinol ymgeiswyr.

Ar y trywydd iawn: Dechrau Gwaith

Mae'r prosiect wedi sicrhau cytundeb gan Fwrdd Rhaglen y Cynllun Corfforaethol a'r Bwrdd Cyllideb i bontio bylchau cyllido tan fis Rhagfyr 2022, gan edrych ar gyfleoedd a ddarperir drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i'r dyfodol. Mae 110 o leoliadau wedi'u nodi a'u hysbysebu gan y Tîm Dechrau Gwaith hyd yma, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau 30 o leoliadau mewnol pellach a gyda busnesau lleol rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr. Rydym wedi gweld gostyngiad yn nifer y bobl sy'n dangos diddordeb yn y rhain, ond rydym yn adolygu ein prosesau cyfathrebu er mwyn helpu i fynd i'r afael â hyn.

Wedi Cau: Sir Ddinbych yn Gweithio: Barod am Waith

Yn anffodus, bu'n rhaid canslo'r Digwyddiadau Gyrfaoedd a oedd wedi'u trefnu ar gyfer mis Ebrill gan nad oedd 70% o ysgolion yn gallu mynychu mwyach yn sgil pwysau staffio. Y casgliad oedd na fyddai'n ymarferol trefnu ffeiriau gyrfaoedd ystyrlon i fyfyrwyr tra roedd cyfraddau Covid-19 yn parhau i fod yn uchel. Cynigwyd opsiwn amgen drwy wahodd bob ysgol i fynychu'r digwyddiad Cystadlaethau Olympaidd ym maes Sgiliau yng Ngholeg y Rhyl, a drefnwyd gan Grŵp Llandrillo Menai. Roedd y digwyddiad yn cynnig llwyfan amgen i fyfyrwyr ymgysylltu gydag adrannau a chyflogwyr o golegau amrywiol i helpu i lywio opsiynau gyrfaol i'r dyfodol. Yn anffodus, dim ond tair ysgol oedd yn bresennol, ond roedd yr adborth yn gadarnhaol.

Bydd y prosiect yn symud ymlaen at y cam cau gan y bydd y cyllid yn dod i ben. Bydd y gwersi a ddysgwyd o'r prosiect yn llywio'r anghenion a amlinellir yng Nghynllun Buddsoddi'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Ar y trywydd iawn: Gwirfoddoli

Rydym yn gobeithio recriwtio cynrychiolwyr gwasanaeth i'r Rhwydwaith Gwirfoddolwyr Mewnol yn y meysydd lle mae bylchau wedi'u nodi. Bydd gwaith yn cael ei gwblhau ochr yn ochr ag AD i hyrwyddo'r buddion o wasanaethau'n ymgysylltu â gwirfoddolwyr a byddant yn cael eu hannog i hyrwyddo eu cyfleoedd. Rydym yn gobeithio adolygu a diweddaru'r cyfleoedd yn barod ar gyfer yr Wythnos Wirfoddoli (1 - 7 Mehefin), a byddwn hefyd yn cynnal ymgyrch cyfryngau cymdeithasol. Yn ystod yr un wythnos, bydd y Cyngor yn gobeithio bod yn bresennol yn sesiwn alw heibio gwirfoddol Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych yn Llangollen i hyrwyddo ein cyfleoedd.

Llinynnau Mesur Blynyddol neu Ddwyflynyddol

Data 2020 i 2022

Llinyn Mesur	**2020 - 2021**	**2021 - 2022**	**Statws**
Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd - **wedi'i feincnodi yn genedlaethol**	Dim data oherwydd Covid-19	Dim data oherwydd Covid-19	Rhagorol (Yn seiliedig ar 2019 a 2020)
Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd - **wedi'i feincnodi yn genedlaethol**	Dim data oherwydd Covid-19	Dim data oherwydd Covid-19	Blaenoriaeth ar gyfer gwella (Yn seiliedig ar 2019 a 2020)
Canran y plant 4-5 oed sy'n bwysau iach neu dan bwysau (adroddwyd blwyddyn yn hwyrach - **wedi'i feincnodi yn genedlaethol**	71.8	Aros am ddata	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Cyfartaledd Sgôr Pwyntiau Awdurdod Lleol - CA4 Dangosydd Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru - **wedi'i feincnodi yn genedlaethol**	Dim data oherwydd Covid-19	Dim data oherwydd Covid-19	Rhagorol (Yn seiliedig ar 2019 a 2020)
Canran y plant yn cyflawni 5 TGAU A*-C (Lefel 2, Cyfnod Allweddol 4), gan gynnwys Cymraeg (iaith 1af) neu Saesneg, Mathemateg a Llenyddiaeth Saesneg, erbyn diwedd yr ysgol uwchradd, yn erbyn y canran wnaeth gyflawni'r safon disgwyliedig ar ddiwedd yr ysgol gynradd (Lefel 4,	Dim data oherwydd Covid-19	Dim data oherwydd Covid-19	Derbyniol (Yn seiliedig ar 2019 a 2020)

Llinyn Mesur	2020 - 2021	2021 - 2022	Statws
Cyfnod Allweddol 2) – **wedi'i feincnodi yn genedlaethol**			
Y nifer o ysgolion yn darparu addysg drwy addasrwydd a chategorïau cyflwr C ac D - **wedi'i feincnodi yn lleol**	27	27	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Canran y disgyblion yn defnyddio Agweddau Disgyblion atynt eu Hunain a'r Ysgol - PASS sy'n ymateb yn gadarnhaol yn erbyn teimladau disgyblion am yr ysgol - **wedi'i feincnodi yn lleol.**	87.2	Dim data Dim arolwg	Da
Y cynnydd canrannol yng nghyflogai pobl ifanc sydd wedi cofrestru â'r Prosiect Bwrsariaeth Cyflogaeth - **wedi'i feincnodi yn lleol**	17	16	Rhagorol

Residents Survey 2018 to 2022

Llinyn Mesur	2018 - 2019	2021 - 2022	Statws
Canran y preswylwyr sy'n fodlon bod yna gyfleoedd gwaith i bobl ifanc ar ddechrau eu gyrfa - **wedi'i feincnodi yn lleol**	19	19	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Canran y preswylwyr sy'n fodlon bod yna gyfleoedd gwaith i bobl ifanc ddatblygu eu sgilau - **wedi'i feincnodi yn lleol**	28	26	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Canran y preswylwyr sy'n fodlon bod yna gyfleoedd hamdden sy'n apelio at bobl ifanc - **wedi'i feincnodi yn lleol**	50	29	Blaenoriaeth ar gyfer gwella

Llinynnau Mesur Chwarterol neu Ddeuflynyddol

Llinyn Mesur	Chwarter 4 2020 - 2021	Chwarter 1 2021 - 2022	Chwarter 2 2021 - 2022	Chwarter 3 2021 - 2022	Chwarter 4 2021 - 2022	Statws
Canran o'r boblogaeth 18 i 24 oed sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol**	12.4	10	7.5	6.9	6.4	Blaenoriaeth ar gyfer gwella

Llesiant a Chydraddoldeb

Mae a wnelo'r flaenoriaeth hon â'r pum ffordd o weithio ac mae'n cefnogi Nodau Lles Cymru'n uniongyrchol yng nghyswllt **ffyniant, iechyd, cydraddoldeb, cydlyniant, cyfrifoldeb byd-eang a diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu.** Isod ceir mwy o uchafbwyntiau o'r gwaith a gyflawnwyd yn y flwyddyn aeth heibio yng nghyswllt y Nodau Llesiant a'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy; bu'r rhain yn fuddiol hefyd i bobl â nodweddion a ddiogelir a phobl dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

Cadw ein hysgolion yn ddiogel

Pan ddychwelodd ysgolion ar gyfer tymor y gwanwyn, atgoffodd y Cyngor y disgyblion a staff am bwysigrwydd profion llif unffordd rheolaidd er mwyn helpu i atal lledaeniad Covid-19, ac i beidio â mynychu'r ysgol os ydynt yn profi unrhyw symptomau. Gofynnwyd i staff wisgo gorchudd wyneb mewn ardaloedd dan do lle nad oedd modd cadw pellter cymdeithasol gyda dysgwyr uwchradd, a gofynnwyd iddynt hefyd wisgo gorchuddion wyneb mewn dosbarthiadau. Anogwyd staff a disgyblion i arfer hylendid da, gan gynnwys golchi dwylo a diheintio'n rheolaidd. Cynghorwyd rhieni a gofalwyr hefyd i fod yn

ymwybodol o amhariad i gludiant i'r ysgol ar fyr rybudd, ac i wneud cynlluniau wrth gefn lle bo hynny'n bosibl. Lle bo modd, gweithiodd y Cyngor i wneud trefniadau amgen a rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf â'r rheiny a effeithiwyd.

Rhoddodd lledaeniad cyflym yr amrywiolyn Omicron bwysau sylweddol ar ysgolion, ac yn anffodus, bu'n rhaid i ysgolion wneud penderfyniadau i gau dosbarthiadau neu grwpiau blwyddyn yn sgil yr effaith ar lefelau staffio. Mae'r Cyngor yn ddiolchgar i bob aelod o'n staff ysgolion am eu hymrwymiad parhaus a'u gwaith caled, ac i rieni a disgyblion am helpu i reoli'r feirws. Mae **cydweithio** gydag ysgolion yn parhau i fod mor bwysig ag erioed, yn ogystal ag **integreiddio** ein dyhead cyffredin i gadw pawb yn ddiogel ac **atal** unrhyw niwed, yn arbennig y rhai mwyaf diamddiffyn (rydym yn gwybod bod Covid-19 yn gallu cael effaith niweidiol iawn ar bobl ag **Anableddau** ac o gefndiroedd Du ac Asiaidd. Mae'r rheiny **dan anfantais economaidd-gymdeithasol** hefyd yn fwy tebygol o brofi'n bositif.).

Cefnogi'r Economi

Atgoffwyd preswylwyr, os ydynt yn cael trafferth â dod o hyd i waith, y gallant ymgeisio am gefnogaeth am ddim drwy Dîm Sir Ddinbych yn Gweithio'r Cyngor. Mae'r gwasanaeth yn anelu at gefnogi unigolion drwy ddarparu mynediad at rwydwaith o wasanaethau a allai helpu gyda chyfleoedd gyrfaol. Mae dros 300 o gyfranogwyr eisoes wedi sicrhau swydd drwy'r cynllun, ac mae 100 eisoes wedi cwblhau lleoliad o'u dewis. Am ragor o wybodaeth, ymwelwch â'n tudalennau we Sir Ddinbych yn Gweithio.

Anogwyd busnesau a effeithiwyd gan y pandemig i ymgeisio am gyllid ychwanegol a oedd ar gael drwy Gronfa Busnes mewn Argyfwng Llywodraeth Cymru, a oedd yn cael ei gweinyddu gan y Cyngor. Roedd y cyllid ar gael ar gyfer busnesau masnach, lletygarwch, hamdden a thwristiaeth, a'u cadwyni cyflenwi, a effeithiwyd gan y symudiad i lefel rhybudd 2. Roedd y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau i'r gronfa ym mis Chwefror. Mae cefnogaeth hefyd ar gael gan y Cyngor drwy gynllun estynedig Llywodraeth Cymru, sy'n cynnig rhyddhad ardrethi o 50% ar gyfer meddianwyr eiddo cymwys a gaiff eu defnyddio'n llwyr neu'n rhannol fel busnesau masnach, lletygarwch a hamdden. Am ragor o wybodaeth, ymwelwch â'n tudalennau Ardrethi Busnes .

Bydd **cydweithio** gyda Llywodraeth Cymru ac **integreiddio** ein huchelgais cyffredin i gefnogi busnesau a helpu unigolion **dan anfantais economaidd-gymdeithasol** yn **atal** yr

economi lleol rhag bod yn segur a'i helpu i dyfu. Drwy **gynnwys** busnesau bychain ac unigolion drwy ein gwaith, rydym yn gobeithio cefnogi eu sefydlogrwydd a'u ffyniant **hirdymor,** a gwaredu'r rhwystrau i'w llwyddiant.

Gaeaf Llawn Lles

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn darparu ystod o weithgareddau dwyieithog seiliedig ar chwaraeon, diwylliant a chwarae am ddim fel rhan o Raglen Gaeaf Llawn Lles Llywodraeth Cymru. Cynhaliwyd digwyddiadau ar draws y sir ar gyfer ystod o oedrannau, gan greu digon o lefydd diogel ar gyfer chwarae'n rhydd a gweithgarwch corfforol er mwyn annog plant a phobl ifanc i ddod at ei gilydd i gael hwyl, a gwella eu lles cymdeithasol, emosiynol a chorfforol. Lansiodd y Cyngor ei raglen Gaeaf Llawn Lles drwy ei lyfrgelloedd gan annog plant a phobl ifanc i enwebu'r llyfrau a oedd wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w teimladau. Gweithiodd llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru gyda'r Asiantaeth Ddarllen ar yr ymgyrch hwn, er mwyn dathlu darllen tan ddiwedd mis Mawrth gyda rhaglen o weithgareddau a digwyddiadau a ddarparwyd ar-lein ac mewn llyfrgelloedd.

Bydd y gwaith hwn, a ddarparwyd **ar y cyd, gan integreiddio** gyda sefydliadau eraill a **chynnwys** plant a phobl ifanc, yn **atal** arwahanrwydd cymdeithasol ac amddifadedd sgiliau, a chefnogi lles yn **hirdymor.** Mae'n sicrhau buddion uniongyrchol i'r nodwedd a ddiogelir **oedran,** a'r rheiny **dan anfantais economaidd-gymdeithasol.**

Trechu Tlodi Mislif

Mae Cyngor Sir Ddinbych, trwy Grant Urddas Mislif Llywodraeth Cymru, wedi sicrhau gwasanaeth tanysgrifio i bobl ifanc yn Sir Ddinbych lle gall tlodi misglwyf fod yn rhwystr i'w haddysg. Hyd yma, mae 220 o danysgrifiadau addysg wedi cael eu darparu, ond bydd y cynllun yn cael ei ymestyn i 520 o danysgrifiadau cymunedol ar gyfer y rheiny ar incwm isel o fis Mawrth. Bydd y gwasanaeth am ddim, a gaiff ei gynnal ar y cyd â'r fenter gymdeithasol Hey Girls, yn cael ei gynnig tan fis Mawrth 2023 gan ddarparu un ai cyflenwad untro o gynnyrch misglwyf y gellir eu hail-ddefnyddio neu bydd cynnyrch untro ecogyfeillgar yn cael eu hanfon yn uniongyrchol i gartref y tanysgrifiwr bob mis. Mae hyn yn ychwanegol i'r cynnyrch untro 'Mewn Argyfwng' sydd ar gael mewn ysgolion, llyfrgelloedd, Siopau Un Alwad, canolfannau hamdden, canolfannau ieuenctid, swyddfeydd Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych, Banciau Bwyd, a sefydliadau eraill sydd wedi

cofrestru i dderbyn cynnyrch, a ddarperir gan TOTM -cwmni ecogyfeillgar. Gallwch gofrestru drwy ymweld â'n gwefan neu drwy gysylltu â DCCHG@sirddinbych.gov.uk.

Bydd y dull **cydweithredol** ac **integredig** hwn yn ceisio **atal** rhwystrau i addysg, annog cyfranogiad, a chefnogi iechyd da yn yr **hirdymor.** Mae'n sicrhau buddion uniongyrchol i'r nodweddion a ddiogelir, **oedran, rhyw** a'r rheiny **dan anfantais economaidd-gymdeithasol**.

Amddiffyn Diogelwch

Gwnaethpwyd penderfyniad i gau Ysgol Brynhyfryd ddydd Gwener, 18 Mawrth, yn dilyn diffyg trydanol yn ardal Rhuthun a gafodd effaith ar yr ysgol a'r ganolfan hamdden gyfagos. Galwyd contractwr i ymchwilio i achos y diffyg, mewn partneriaeth â Scottish Power, gan gwblhau gwiriadau diogelwch ychwanegol am resymau iechyd a diogelwch.

Roedd hyn yn anffodus ond yn hanfodol er mwyn sicrhau diogelwch disgyblion, staff a thrigolion ar y safle. Gan **gydweithio** mewn modd **integredig** gyda Scottish Power a'r ysgol, roedd modd i ni sicrhau bod yr ysgol yn gallu ailagor cyn gynted â phosibl, gan **atal** digwyddiadau neu amhariad pellach. Er i hyn gael effaith negyddol tymor byr, mae wedi sicrhau buddion uniongyrchol i'r nodwedd a ddiogelir, **Oedran** yn yr **hirdymor**.

Iechyd Corfforaethol: Mae'r Cyngor yn effeithlon, wedi'i reoli'n dda ac yn amgylcheddol gynaliadwy

Llinynnau mesur: Derbyniol

Llywodraethu: Da

Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Yr Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â'r Llinynnau Mesur

Gyda'r adroddiad hwn, mae 47% o'n mesurau Cynllun Corfforaethol yn feysydd i'w gwella, i fyny o 43% yn yr adroddiad diwethaf. Mae dau o'n prosiectau corfforaethol yn rhai 'dan fygythiad' ar hyn o bryd (Prosiect Archifau ar y Cyd Sir Ddinbych a Sir y Fflint), ac mae 100% yn cael eu diweddaru'n rheolaidd gan reolwyr prosiect. Mae statws y Prosiect Archifau'n adlewyrchu'r ffaith nad yw cyfran uchel o'r cyllid wedi'i sicrhau eto, ac mae problem rhyngwyneb wedi codi gydag ailddatblygiad Theatr Clwyd, a fydd yn oedi mynediad am o leiaf blwyddyn. Yn y cyfamser, mae'r prosiect yn ystyried cyfleoedd i ddatblygu'r gwasanaeth cydweithredol cyn adeiladu, er mwyn datblygu'r gwasanaeth a gwella gwytnwch.

Mae 64% o'n Risgiau Corfforaethol yn anghyson gyda'n parodrwydd i dderbyn risg ar hyn o bryd, ond mae uwch reolwyr a'r Cabinet yn mynd i'r afael â'r rhain, ac yn cyfiawnhau eu cynnwys yn ein Cofrestr Risgiau Gorfforaethol fel y risgiau mwyaf difrifol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu. Nid ydym wedi derbyn unrhyw argymhellion ffurfiol ar gyfer gwelliant gan reoleiddwyr allanol (Estyn, Arolygiaeth Gofal Cymru ac Archwilio Cymru). Mae archwilio mewnol wedi llunio un adroddiad dilynol sicrwydd isel pellach, yn ymwneud â Darpariaeth Llety ar gyfer y Digartref (gweler Tai uchod). Cyflwynwyd adroddiad er gwybodaeth i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn eu cyfarfod ym mis Mawrth.

Er bod ein llinyn mesur ar y gyfradd gymedr fesul awr i ferched wedi dangos bod merched yn cael mwy o gyflog na dynion yn ystod 2019 - 2020 a 2020 - 2021, mae'r gwahaniaeth mewn tâl bellach wedi newid yn ôl i ffafrio dynion o 6.7% yn 2021 - 2022. Merched sydd â 79% o'r swyddi cyflogau isaf y mae'r Cyngor yn eu cynnig (i lawr 0.6% ar y flwyddyn gynt).

Rydym wedi gweld gostyngiad yn ein llinyn mesur ar gyfer penodiadau cyfartal. Mae'r llinyn mesur hwn yn gymhleth ac yn ystyried y nodweddion a ddiogelir yr ydym eisoes â data ar eu cyfer (yn seiliedig ar yr hyn mae pobl wedi'i ddatgan). Rydym yn ystyried y

nodweddion a ddiogelir, Hil, Anabledd, Rhywioldeb ac Ailbennu Rhywedd yn benodol. Yn seiliedig ar y data a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer 2020 - 2021, rydym wedi gweld gostyngiad mewn penodiadau o 15% i 4%. Mae hyn yn cymharu ag 11% wrth edrych ar y rheiny a gafodd eu penodi nad oes ganddynt y nodweddion hyn.

Mae presenoldeb aelodau mewn cyfarfodydd (lle roedd disgwyl iddynt fynychu) wedi gostwng rhywfaint i 84% ar gyfer 2021 - 2022, i lawr o 89% yn y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn parhau i fod yn uwch na'r cyfnod cyn y pandemig pan oedd y presenoldeb yn 79%.

Un o ymrwymiadau pwysicaf y cyngor am y ddegawd nesaf yw lleihau effaith y carbon y mae ein hasedau'n ei gynhyrchu. Mae ein mesur asedau allweddol, sy'n dilyn ein cynnydd tuag at ddod yn awdurdod allbwn di-garbon net erbyn 2030, yn gofyn am ostyngiad o 1,559 tunnell o leiaf bob blwyddyn (gan gynnwys amsugno). Gyda'r pandemig, gostyngodd y cyngor ei gyfanswm carbon net 3,753 tunnell. Roeddem yn disgwyl i hyn gynyddu yn ystod 2021 i 2022 wrth i gyfyngiadau lleihau; ac y mae yn wir wedi gwneud hynny, gan gynyddu 1,379 o dunelli. Fodd bynnag, mae hyn dal yn ostyngiad o 17% i'n llinell sylfaen ar gyfer 2019 i 2020 ac ystyrir ei fod yn gynnydd da.

Mae llinyn mesur ar amrywiant y gyllideb (h.y. yr hyn sydd gennym o'i gymharu â'n gwariant) wedi gostwng o 2,731 mil ym mis Rhagfyr 2021 i -2,399 mil ym mis Mawrth 2022. Mae cronfeydd wrth gefn y Cyngor yn parhau yn £7.135 miliwn.

Mae canran y straeon newyddion negyddol am y Cyngor (fel cyfran o bob stori newyddion am y Cyngor) wedi cynyddu o 1% rhwng mis Ionawr a mis Mawrth, i 9%. Mae hyn yn cynrychioli 19 o straeon negyddol allan o gyfanswm o 216. Mae canran y cwynion a gadarnhawyd neu a gadarnhawyd yn rhannol dros y chwarter diwethaf wedi cynyddu o 52% i 60%. Mae hyn yn cynrychioli 38 allan o 63 o gwynion wedi'u cadarnhau neu wedi'u cadarnhau'n rhannol. Mae'r nifer hwn ychydig yn uwch (57%) ar gyfer yr un cyfnod y flwyddyn gynt, ac mae'r gyfradd wedi'u cadarnhau'n gyson gyda'n cyfartaledd blynyddol ar gyfer 2021 - 2022 (60%).

Ym mis Mawrth 2022, roedd absenoldeb salwch yn 9.57 diwrnod, i fyny o 9.03 yn y cyfnod diwethaf. Mae hyn yn cymharu â 6.47 diwrnod ym mis Mawrth 2021. Ym mis Mawrth 2022, roedd canran y staff sydd wedi cael o leiaf 3 cyfarfod un i un yn y 12 mis diwethaf yn 43%.

Erbyn diwedd Mawrth, roedd 36% o wariant y Cyngor rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022 gyda chyflenwyr lleol (£62,126,180). Roedd 88% o gontractau (dros £25,000 o dan £1,000) yn cynnwys manteision cymunedol. Cynhaliwyd un gweithgaredd caffael cydweithredol (Cerdd Cydweithredol Cyngor Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam) yn ystod y cyfnod, a chollwyd un cyfle caffael cydweithredol o ganlyniad i'r amseriad (Rhaglen Ailwynebu Ffyrdd Cam II rhwng Sir Ddinbych a Sir y Fflint). Mae 16 o gaffaeliadau cydweithredol posibl ar y gorwel a bydd y rhain yn datblygu dros y misoedd i ddod.

Mae ein llinyn mesur olaf yn ystyried ymdrechion y Cyngor i gefnogi preswylwyr mewn i waith drwy leoliadau rydym ni'n eu cynnig yn y Cyngor. Yn ystod mis Ionawr - Mawrth, fe wnaethom ni gefnogi 9 o leoliadau ychwanegol llwyddiannus, gan ddod â'r cyfanswm i 143. Mae hyn yn gynnydd sylweddol ar ein perfformiad yn y flwyddyn flaenorol, ac mae llacio'r cyfyngiadau Covid-19 wedi helpu hynny.

Hunanasesiad Iechyd Corfforaethol: Meysydd Llywodraethu

Mae ein saith maes llywodraethu allweddol yn ein hunan-asesiad wedi'u hamlinellu isod ac yn ceisio rhoi darlun o ba mor dda mae'r Cyngor yn perfformio, sut rydym yn gwybod hynny (gan gyfeirio at dystiolaeth lle bo modd), a sut gallwn wella.

Cynllunio Corfforaethol

Gweler isod gamau gwella sydd wedi'u nodi i gefnogi Iechyd Corfforaethol yn y maes llywodraethu hwn.

Uwch Dîm Arweinyddiaeth

Cynhaliwyd cyfarfod arbennig o'r Cyngor ym mis Mawrth lle roedd y Prif Weithredwr yn ceisio cymeradwyaeth i fwrw ymlaen ag adolygiad o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, a fydd yn cael ei gynnal mewn dau gam. I ddechrau, mae'r Prif Weithredwr yn dymuno mynd i'r afael â phroblemau mewn perthynas â chapasiti ar lefel y Tîm Gweithredol Corfforaethol drwy gyflwyno Cyfarwyddwr Llywodraethu a Busnes, gan gynyddu o ddau gyfarwyddwr i dri. Bydd y swydd hon, yn ogystal â swydd y cyfarwyddwr sy'n wag ar hyn o bryd (Cyfarwyddwr yr Economi a'r Amgylchedd) yn cael eu penodi gan y Cyngor yn dilyn yr etholiad. Yn dilyn y penodiadau hyn, bydd yr adolygiad yn ystyried y strwythur arwain ar lefel Pennaeth Gwasanaeth. Yn y cyfamser, mae trefniadau dros dro ar waith lle mae'r pedwar rheolwr canol yn cyflenwi rolau'r penaethiaid gwasanaeth sydd wedi dod yn wag

yn ddiweddar yn sgil ymddeoliad (Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio, a Phennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol).

Cytuno a gweithredu dull cyngor cyfan ar gyfer Ffyrdd Newydd o Weithio

Mae'r Prosiect Ffyrdd Newydd o Weithio bellach yn cael ei arwain gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau yn dilyn ymddeoliad y Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio. Mae'r tîm prosiect yn parhau i gyfarfod yn fisol a chaiff cofnodion eu cyhoeddi ar wefan fewnol y Cyngor. Cyflwynwyd datganiad sefyllfa ym mis Mawrth yn dilyn symud i 'lefel rhybudd 0' a gwaredu'r mwyafrif o gyfyngiadau. Yn dilyn adolygiad o ardaloedd swyddfa o'r pethau sydd eu hangen (yn arbennig gan fod rhai desgiau, cadeiriau ac offer TG wedi cael eu symud) ac asesiadau risg, mae'r Cyngor wedi bod yn rheoli proses o ddychwelyd i'r swyddfa'n raddol, gyda'r opsiwn o un diwrnod yr wythnos i ddechrau, gan gynyddu i ddau ddiwrnod ym mis Mai. Mae'n rhaid i'r rheiny sy'n dymuno mynychu'r swyddfa'n amlach drafod hyn gyda'u rheolwr. Bydd rheolau'r gweithle'n parhau ar waith, gan gynnwys system awyru digonol, trefniadau glanhau digonol, a hylendid dwylo da. Bydd y trefniadau'n parhau i gael eu hadolygu, a chroesawir unrhyw adborth ar eu gweithrediad.

Datblygiad arall yw bod llawr gwaelod adeilad swyddfeydd Caledfryn yn Ninbych yn cael ei rannu gyda staff y GIG, yn dilyn cais i sefydlu canolfan alwadau. Mae'r datblygiad hwn ar gyfer oddeutu 30 aelod o staff, 7 niwrnod yr wythnos. Mae wedi arwain at ail-leoli rhai timau yn Sir Ddinbych o fewn yr adeilad, ond mae digon o le i ddarparu ar gyfer y newidiadau hyn.

Datblygu Cynllun Corfforaethol newydd erbyn mis Hydref 2022.

Yn y cyfnod hwn, mae'r Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad wedi bod yn gweithio i ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol nesaf, gan gynnal Cam 2 Sgwrs y Sir rhwng 28 Ionawr a Mawrth 11. Cadarnhaodd yr ymatebion a dderbyniwyd y themâu yr ymgynghorwyd arnynt, sef:

- **Tai:** Darparu tai o ansawdd uchel digonol a fforddiadwy, gan fynd i'r afael â'r ddarpariaeth fforddiadwy i bobl ifanc yn yr ardal.

- **Yr Economi:** Cefnogi'r adferiad yn dilyn y pandemig, gan gynnwys nodi a manteisio ar gyfleoedd i uwchsgilio trigolion a'u galluogi i gael mynediad at gyflogaeth ac incwm da.
- **Pobl Ifanc:** Cefnogi ysgolion i ddarparu addysg o safon ragorol, drwy ddarparu cefnogaeth a gofal er mwyn helpu dysgwyr i gynnal eu hiechyd meddwl a'u lles.
- **Clymu Cymunedau:** Cynnal seilwaith ffyrdd o safon uchel a chysylltiadau cludiant a band eang da.
- **Yr Amgylchedd a'r Hinsawdd:** Diogelu ein hasedau naturiol ac amddiffyn cymunedau yn erbyn newid hinsawdd
- **Mynd i'r afael ag Amddifadedd:** Mynd i'r afael ag amddifadedd a'r heriau cysylltiedig y mae rhai o'n cymunedau yn eu hwynebu.
- **Cyngor sy'n cael ei gynnal yn dda ac sy'n uchel ei berfformiad:** Bod yn gyngor teg, tryloyw, sy'n perfformio'n dda, yn cynnig gwerth am arian, ac yn ymateb i'w gwsmeriaid.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, fodd bynnag, nodwyd un thema ychwanegol fel bwlch a bydd yn cael ei gynnwys yn y cynnig drafft i'r dyfodol:

- **Heneiddio'n Dda:** Mae rhwydweithiau cymunedol cryf yn galluogi pobl i fyw'n ddiogel, yn hapus ac yn annibynnol, gan dderbyn cefnogaeth dda lle bo angen.

Bydd gweithdai staff yn cael eu cynnal ddiwedd Ebrill a Mai i gael mewnbwn proffesiynol manylach ynghylch ein 'haddewidion' a'r camau gweithredu posibl i'w cymryd dan bob un o'r themâu a gynigir yn y Cynllun Corfforaethol nesaf. Bydd y ddogfen ddrafft yn cael ei chyflwyno i'w hystyried gan y Cyngor newydd yn ystod gweithdy wedi'i drefnu ar gyfer mis Gorffennaf.

Caewyd yr ymgynghoriad ar gynnwys Asesiad Lles Conwy a Sir Ddinbych ym mis Mawrth hefyd. Mae'r adborth ar yr asesiad wedi bod yn gadarnhaol, gydag ond rhywfaint o ddiwygiadau neu ychwanegiadau i'w gwneud. Mae'r fersiwn derfynol yn cael ei diweddaru ar-lein.

Ymateb i ofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Gan gyflwyno'r adroddiad hwn (yn ogystal â thri adroddiad diweddaru chwarterol) a'r Crynodeb Gweithredol cysylltiedig, mae'r Cyngor wedi bodloni'r gofynion statudol mewn perthynas â'r Hunanasesiad o berfformiad yn erbyn ei swyddogaethau. Bydd trefniadau ar gyfer Asesiad Panel yn cael ei drafod gyda'r Cyngor newydd yn dilyn yr etholiadau.

Roedd y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i newid Cyfansoddiad y Cyngor, yn ogystal â chyflwyno Canllawiau i'r Cyfansoddiad, er mwyn helpu aelodau'r cyhoedd i ddeall ei ddarpariaethau. Adolygwyd y newidiadau a'r Canllawiau gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ym mis Mawrth. Yn yr un cyfarfod, cytunodd aelodau ar y broses ar gyfer penodi aelodau lleyg a'r pwyllgor (gan gynnwys cadeirydd) o fis Mai, sydd eto'n ofynnol dan y Ddeddf. Mae'r gyfraith hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi Cynllun Deisebau ar waith. Bydd yn destun adroddiad i'r Cyngor ym mis Mai.

Cam Gweithredu Her Gwasanaeth: Sicrhau y gofynnir cwestiwn ym mhob Her Perfformiad Gwasanaeth ynglŷn ag ymrwymiad i wasanaeth i gwsmeriaid.

Nid yw'r cam gweithredu hwn wedi datblygu fel y bwriadwyd yn y cyfnod hwn gan y bydd angen ystyried y broses o ailstrwythuro'r uwch reolwyr. Fodd bynnag, mae papur yn crynhoi'r gwersi a ddysgwyd a'r cynigion ar gyfer Rhaglen Her Gwasanaeth 2021 - 2023 wedi'i baratoi. Teimlir bod fformat yr heriau dros yr haf diwethaf wedi gweithio'n dda o ganlyniad i'r amserlen gywasgedig a llai o waith papur. Mae angen ystyried, fodd bynnag, sut caiff data lefel gwasanaeth ei adolygu, gan ei fod yn rhan bwysig o'n Fframwaith Rheoli Perfformiad. Yn dilyn adolygiad diweddar gan Archwilio Cymru o Reoli Perfformiad (gweler isod), bydd cynigion hefyd yn cynnwys argymhelliad ar gyfer cyhoeddi data perfformiad lefel gwasanaeth.

Datblygiadau eraill yn y cyfnod diwethaf

Llywodraethu a Gwneud Penderfyniadau

Yn berthnasol i'r bennod hon, cwblhawyd Adroddiad Archwilio Mewnol ar Lywodraethu a Gwneud Penderfyniadau ym mis Chwefror, a gyflwynwyd o fewn y Diweddariad Archwilio Mewnol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ym mis Mawrth. Rhoddodd yr adolygiad sgôr sicrwydd canolig a chanfuwyd bod y trefniadau llywodraethu presennol yn

gweithio'n dda, gyda lefelau ymgysylltu da rhwng swyddogion ac aelodau. Fodd bynnag, efallai ei fod yn gyfle i ddysgu o'r pandemig Covid-19 i gydbwyso proses gynt ar gyfer gwneud penderfyniadau gyda chynnal tryloywder ac atebolrwydd. Teimlwyd y gallai rolau a chyfrifoldebau fod yn gliriach hefyd (mater a fydd yn derbyn sylw yng Nghanllawiau newydd Cyfansoddiad y Cyngor o bosibl); a bod diffyg ymwybyddiaeth mewn perthynas â phroses ddirprwyo penderfyniadau'r Prif Swyddog, a diffyg tystiolaeth o lwybr archwilio clir i benderfyniadau cyffredinol a ddirprwyir, sy'n gwneud y broses graffu'n anodd. Codwyd pryderon hefyd am y capasiti o fewn swyddogaethau craffu a democrataidd, ond aethpwyd i'r afael â'r rhain yn dilyn y trefniadau i recriwtio staff cymorth ychwanegol.

Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Darparwyd diweddariad ar gynnydd y Cyngor yn erbyn camau gwella a nodwyd o fewn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2020 - 2021 i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ym mis Ionawr. Nodwyd bod y Cyngor, ar y cyfan, yn gwneud cynnydd da ar yr holl gamau.

Hyfforddiant Aelodau ac Etholiadau Llywodraeth Leol

Mae'r Cyngor wedi gwneud paratoadau sylweddol ar gyfer etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai, ac mae trefniadau ar waith i gyflwyno a hyfforddi cynghorwyr. Mae hyn yn cynnwys trosglwyddiadau a chyflwyniadau TG, cod ymddygiad, cynnal cyfarfodydd hybrid effeithiol, cydraddoldeb ac amrywiaeth, gwybodaeth ar sut mae'r Cyngor yn gweithio, a hyfforddiant a gweithdrefnau pwyllgorau penodol.

Cynllunio Ariannol

Gweler isod gamau gwella sydd wedi'u nodi i gefnogi lechyd Corfforaethol yn y maes llywodraethu hwn.

Cyllideb a Threth y Cyngor

Roedd adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet a'r Cyngor ym mis Ionawr yn amlinellu goblygiadau'r Setliad Llywodraeth Leol a'r cynigion ar gyfer llunio fersiwn derfynol y gyllideb ar gyfer 2022 - 2023. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r Cyngor bennu cyllideb gytbwys y gellir ei chyflawni cyn dechrau pob blwyddyn ariannol a gosod y lefel o Dreth y Cyngor o ganlyniad i ganiatáu i filiau gael eu hanfon at breswylwyr. Mae cynigion terfynol i

gydbwyso cyllideb 2022/23 wedi eu dangos yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Roedd cyfanswm y prif feysydd twf a phwysau yn £17.628 miliwn. Byddai angen setliad drafft o tua 11% er mwyn ariannu'r pwysau hyn i gyd. Mae'r setliad net +9.2% yn cynhyrchu £15.005miliwn o refeniw ychwanegol gan adael bwlch cyllido o £2.623miliwn. Mae'r eitemau canlynol wedi eu cynnwys yn y cynigion er mwyn pontio'r bwlch hwnnw:

- Mae Cyllidebau Incwm wedi bod yn destun chwyddiant yn unol â'r polisi Ffioedd a Thaliadau a gytunwyd sy'n cynyddu incwm allanol o £0.120m.
- Mae arbedion effeithlonrwydd gweithredol gwerth £0.634 miliwn wedi'u nodi sydd o fewn cyfrifoldeb dirprwyedig y Pennaeth Gwasanaeth mewn ymgynghoriad ag Aelodau Arweiniol. Ni ofynnwyd am unrhyw arbedion gan y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol nac Ysgolion.
- Bydd Treth y Cyngor yn cynyddu o 2.95% a fydd, ynghyd â mân newidiadau i sylfaen y Dreth Gyngor, yn creu refeniw ychwanegol o £1.869miliwn. Mae hyn yn cymharu â chynnydd y llynedd o 3.8% a 4.3% y flwyddyn cyn hynny.

Mae'r gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2022 - 2023 bellach wedi'i chymeradwyo. Bydd y cynnydd mewn cyllid yn golygu y bydd nifer o gyfrifoldebau newydd y bydd rhaid i'r Cyngor ei ariannu, gan gynnwys cynnydd cyflog, sicrhau Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol a lliniaru ar gyfer diwedd Cronfa Galedi Covid-19.

Adroddiadau Diweddariadau Cyllid

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid y wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa ariannol y Cyngor ar gyfer 2021 - 2022 i'r Cabinet ym mis Ionawr a mis Chwefror. Cyllideb refeniw net y Cyngor oedd £216.818 miliwn. Roedd gorwariant disgwyliedig o £1.553 miliwn ym mis Chwefror 2022 (i lawr o £1.641 miliwn yn y mis blaenorol). Roedd cyllideb 2021/22 yn gofyn am ddod o hyd i, a chytuno ar, arbedion gwasanaeth ac arbedion effeithlonrwydd o £2.666 miliwn. Tybir bod y cynyddiadau ffioedd a chostau a'r arbedion corfforaethol eisoes wedi'u cyflawni a dirprwywyd arbedion yr ysgolion i'r cyrff llywodraethu i'w monitro a'u cyflawni.

Cynllun Cyfalaf 2021 - 2022

Cyflwynwyd adroddiad i gyfarfod y Cyngor ym mis Chwefror i ddiweddaru aelodau ar elfen 2021 - 2022 o'r Cynllun Cyfalaf, gan atodi argymhellion y Grŵp Buddsoddi Strategol mewn

perthynas â chynigion cyfalaf i'w cynnwys yn y Cynllun Cyfalaf. Mae'r Cynllun Cyfalaf Amcangyfrifedig bellach yn £41.16 miliwn. Mae'r prosiectau sylweddol yn cynnwys:

- Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu (Rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif gynt) - Ysgol Llanfair; Ysgol Stryd Rhos ac Ysgol Pen Barras; Crist y Gair, y Rhyl.
- Ailddatblygu Marchnad y Frenhines, y Rhyl
- Ail-fodelu Gwasanaethau Gwastraff Newydd
- Gwaith Amddiffyn Arfordir Dwyrain y Rhyl

Am ran o'i gyllid mae'r Cynllun Cyfalaf yn dibynnu ar dderbyniadau cyfalaf a gynhyrchir drwy werthu asedau'r Cyngor. Mae'r tabl isod yn dangos y derbyniadau gros hynny a gyflawnwyd yn 2021 - 2022. Yn ogystal â hynny, mae nifer o warediadau posibl hefyd yn cael eu datblygu.

Eiddo (2021 - 2022)	**£0**
Castell Bodelwyddan	500
Tir yng Ngallt Melyd	544
Ffarm Geufron, Corwen	470
Tir ar Stryd Rhos, Rhuthun	70
Cyfanswm	**1,584**

Mae'r Grŵp Buddsoddi Strategol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r tri phwyllgor craffu, wedi cyfarfod i ystyried cynigion cyfalaf dyraniad bloc a dderbyniwyd i'w cynnwys yng Nghynllun Cyfalaf 2022 - 2023 a baratowyd gan bob gwasanaeth. Roedd y Cabinet yn cefnogi ac yn cytuno ag argymhellion y Grŵp Buddsoddi Strategol i'w cynnwys yng Nghynllun Cyfalaf 2022 - 2023 yn ei gyfarfod ym mis Chwefror. .

Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2022-2023 a Dangosyddion Darbodus 2022 - 2025

Roedd adroddiad a gyflwynwyd i gyfarfod y Cyngor ym mis Chwefror yn amlinellu sut fydd y Cyngor yn rheoli ei fuddsoddiadau a'i fenthyciadau dros y flwyddyn nesaf yn ogystal â'r polisïau o fewn y swyddogaeth Rheoli Trysorlys. Mae Cod Ymarfer Rheoli Trysorlysoedd y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo'r Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Dangosyddion Darbodus yn flynyddol. Bwriad yr Adroddiad Strategaeth Cyfalaf yw rhoi trosolwg lefel uchel, byr a chynhwysfawr i'r holl aelodau etholedig o sut mae gwariant cyfalaf, ariannu cyfalaf a gweithgaredd rheoli trysorlys yn cyfrannu at ddarpariaeth gwasanaethau'r Cyngor.

Cynllunio ar gyfer Datganiad Cyfrifon 2021 - 2022

Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i baratoi datganiad cyfrifon sy'n cydymffurfio â safonau cyfrifo a gymeradwyir. Roedd adroddiad a gyflwynwyd i gyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ym mis Ionawr yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar gynllunio ac amseru Datganiad Cyfrifon 2021 - 2022. Y llynedd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau yn nodi, oherwydd effaith parhaus Covid, y byddai terfynau amser statudol ar gyfer cwblhau cyfrifon drafft ac a archwiliwyd yn cael eu hymestyn. Cymerodd y Cyngor y penderfyniad cynnar i gyhoeddi rhybudd i nodi na fyddwn yn anelu at y dyddiad cau cynnar statudol ond y byddai'n cyflawni'r dyddiadau cau diwygiedig. Cymerwyd y penderfyniad hwn mewn ymgynghoriad gydag Archwilio Cymru gan ddefnyddio'r asesiad o'u gallu i gwblhau'r gwaith archwilio gofynnol. Roedd cydnabyddiaeth y byddai hon yn flwyddyn heriol ar gyfer pawb sy'n gysylltiedig i sicrhau bod yr holl wybodaeth ar gael yn brydlon.

I ddechrau, yn wahanol i'r arfer, mae'r oedi'n golygu nad oedd gennym amser i gywiro camddatganiadau - bydd y cywiriadau hyn yn cael eu gwneud ar gyfer cyfrifon y flwyddyn nesaf. Yn ail, mewn blwyddyn arferol, byddai ffocws ac egni'r tîm Cyfalaf a Thechnegol ym mis Medi'n troi at gynllunio cyfalaf, gosod cyllidebau, mynd i'r afael ag argymhellion Archwilio Mewnol, a chynllunio ar gyfer prosesau cau cyfrifon y flwyddyn nesaf. Mae'r gweithgareddau hyn wedi'u hoedi am 3 mis ychwanegol a byddant yn cael effaith ar y ddarpariaeth gwasanaeth i'r dyfodol.

Gosod Rhent Tai a Chyllidebau Refeniw Tai

Yn ei gyfarfod ym mis Ionawr, cymeradwyodd y Cabinet Gyllideb y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2022 a 2023 a'r Cynllun Busnes Stoc Dai. Mae'n ofyniad statudol i osod cyllidebau a

lefelau rhent cyn dechrau'r flwyddyn ariannol. Mae'n rhaid i'r gyllideb fod yn gyson gyda'r rhagdybiaethau o fewn Cynllun Busnes y Stoc Dai, a luniwyd er mwyn cynnal Safon Ansawdd Tai Cymru drwy gydol y cynllun busnes 30 mlynedd. Cyfrifwyd y gyllideb er mwyn sicrhau ein bod yn gallu darparu ein gwasanaethau refeniw; y rhaglen buddsoddi cyfalaf i gynnal safon ansawdd ein cartrefi a datblygu ein rhaglen adeiladu o'r newydd. Rydym yn rhagweld costau ychwanegol sylweddol yn y blynyddoedd i ddod oherwydd safonau datgarboneiddio newydd tebygol ar gyfer ein stoc bresennol.

Mae'r Cabinet hefyd wedi cymeradwyo'r cynnig i gynyddu rhent anheddau'r Cyngor yn unol â Pholisi Llywodraeth Cymru (LlC) ar gyfer Rhent Tai Cymdeithasol i rent wythnosol cyfartalog o £97.27, sy'n gynnydd o £2.92 a ddaw i rym ar 4 Ebrill, 2022. Fel rhan o bolisi rhent Llywodraeth Cymru, bydd gofyn i'r Cyngor sicrhau bod unrhyw gynnydd i rent yn ystyried fforddiadwyedd tenantiaid, gwerth am arian, ac asesiad o effeithlonrwydd cost. Er bod 2021 wedi bod yn flwyddyn anodd yn ariannol i aelwydydd - a bydd hyn yn parhau yn 2022 - rydym yn fodlon ynghylch fforddiadwyedd ein rhent wythnosol.

Rheoli Perfformiad

Gweler isod gamau gwella sydd wedi'u nodi i gefnogi lechyd Corfforaethol yn y maes llywodraethu hwn.

Gweithredu proses flynyddol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd ar berfformiad y Cyngor.

Mae'r gwersi a ddysgwyd ym mlwyddyn gyntaf yr Arolwg Budd-ddeiliaid (2021) wedi cael eu gwerthuso ac mae tîm y prosiect yn ystyried opsiynau ar gyfer ymgysylltu blynyddol parhaus gyda budd-ddeiliaid. Mae'n debygol y bydd arolygon yn y dyfodol yn canolbwyntio ar gwestiynau statudol dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, ac yn ymwneud â pherfformiad ein hamcanion corfforaethol a'n trefniadau llywodraethu. Bydd yn cael ei hyrwyddo drwy ymgyrch cyfathrebu wedi'i dargedu.

Darparu eglurhad i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ar rôl y Tîm Rheoli Prosiect.

Cyflwynwyd adroddiad i'r Tîm Gweithredol Corfforaethol ym mis Mawrth i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar gynnydd gydag adolygiad o'r Swyddfa Rhaglenni Corfforaethol. Roedd hyn yn cynnwys:

- Cynnydd ar ad-drefnu Verto (ein system rheoli prosiectau) a disgwylir i'r gwaith datblygu barnau tan ddiwedd Mehefin 2022.
- Datblygu Canllawiau Swyddfa Rhaglenni Corfforaethol sy'n disgrifio rolau a chyfrifoldebau'r tîm a pha gefnogaeth gallant ei chynnig. Bydd drafft yn cael ei gyflwyno i'r Tîm Gweithredol Corfforaethol ddiwedd mis Mai.
- Mae dau rôl swyddogion cefnogi prosiectau bellach o fewn y tîm i ymateb i angen sefydliadol.

Datblygiadau eraill yn y cyfnod diwethaf

Sefydlu Cynllun Cydraddoldeb Strategol Dros Dro

Rydym wedi sicrhau bod yr adroddiad hwn yn nodi'r camau gweithredu sy'n weddill tuag at ddarparu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol dros dro (sy'n berthnasol i'r cyfnod rhwng Hydref 2021 a Hydref 2022). Bydd camau gweithredu sydd eisoes wedi'u cymryd wedi'u nodi yn yr adroddiadau diweddaru chwarterol blaenorol sydd ynghlwm â'r ddogfen hon (wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan) ac yn cynrychioli'r gyfres sy'n ffurfio ein Hunanasesiad perfformiad.

Adroddiad Cwynion Blynyddol

Cyflwynwyd yr Adroddiad Cwynion Blynyddol cyntaf, sy'n ofynnol dan Ddeddf Llywodraeth Lleol ac Etholiadau (Cymru), i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ym mis Mawrth. Yn fras, teimlwyd bod prosesau cwynion y Cyngor yn gadarn, a bod y gyfradd ymateb i gwynion cam 1 a cham 2 yn ystod 2021 a 2022 yn rhagorol ar y cyfan, gydag ond dau gwyn cam 2 yn ymestyn y tu hwnt i'r amser ymateb targed (allan o 25). Mae nifer y cwynion hefyd wedi gostwng o 262 yn y flwyddyn flaenorol i 237. Ynghlwm â'r adroddiad hwn mae llythyr gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, sy'n datgelu bod 32 o gwynion yn ymwneud â Chyngor Sir Ddinbych wedi cael eu cyfeirio atynt, ac wedi'u rhannu'n gyfartal dros nifer o feysydd, ond Gwasanaethau Cymdeithasol Plant oedd â'r nifer uchaf o gwynion (chwech), Delio â Chwynion yn ail (pump) a'r Amgylchedd ac Iechyd yr Amgylchedd yn drydydd (pedwar). Nodwyd mai anaml iawn mae'r Ombwdsmon yn ymyrryd i herio cwynion y gwnaethpwyd penderfyniad yn eu cylch gan y Cyngor, a ddylai roi sicrwydd pellach mewn perthynas â'n prosesau. Fodd bynnag, o'i gymharu ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, ac fel cyfran o breswylwyr, Cyngor Sir Ddinbych oedd y Cyngor â'r trydydd nifer uchaf o gwynion i'r Ombwdsmon.

Adeiladau'r Frenhines

Cyflwynwyd adroddiad dilynol Archwilio Mewnol ar brosiect Adeiladau'r Frenhines, rhan allweddol o raglen ehangach y Cyngor i adfywio'r Rhyl, i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod y mis Ionawr. Roedd yr adroddiad gwreiddiol, a dderbyniwyd flwyddyn cyn hyn, wedi rhoi sgôr sicrwydd isel i'r prosiect. Fodd bynnag, nododd yr adroddiad dilynol bod cynnydd wedi'i wneud, gydag wyth o'r deuddeg o gamau a nodwyd wedi'u gweithredu'n llawn, ac felly rhoddwyd sgôr sicrwydd canolig. Bydd angen adroddiad dilynol pellach ym mis Gorffennaf i sefydlu'r cynnydd yn erbyn y camau gweithredu heb eu cyflawni a gafodd eu hoedi gan fod y system rheoli prosiectau'n mynd drwy broses dendro a'r adolygiad cyfredol o'r broses rheoli prosiectau a nodwyd uchod.

Rhannwyd y wybodaeth ddiweddaraf ar brosiect Adeilad y Frenhines â'r Cabinet yn ei gyfarfod ym mis Chwefror, lle trafodwyd costau cynyddol annisgwyl. Roedd angen cyllid ychwanegol i ddarparu cam cyntaf y prosiect yn sgil ffactorau gan gynnwys cynnydd o 25% mewn costau adeiladu, o ganlyniad i argaeledd deunyddiau a llafur yn fyd-eang. Mae lefel llawr gwaelod y datblygiad newydd hefyd angen codi 740mm i ddiogelu yn erbyn llifogydd. Mae rhaglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru wedi ariannu'r prosiect hyd yma'n rhannol.

Gan fod disgwyl i'r gwaith adeiladu ddechrau ym mis Ebrill, a gan nad oedd y contract wedi cael ei osod erbyn cyfarfod diwethaf y Cabinet ym mis Mawrth, cytunodd y Cabinet bod angen cymeradwyo dirprwyo awdurdod i ddyfarnu contract i'r Prif Weithredwr er mwyn sicrhau bod y terfyn amser tynn ar gyfer darparu'r prosiect yn cael ei gyflawni. Mae'n rhaid i bob un o'r allbynnau gael eu darparu ac mae'n rhaid i'r cyllid gael ei nodi erbyn diwedd mis Chwefror 2023 neu gallai'r cyllid grant gael ei dynnu'n ôl gan y Cyngor. Cytunodd y Cabinet hefyd, er mwyn bod yn flaengar gydag amseroedd arwain hir ar gyfer rhai eitemau, y dylid gwarantu'r £500,000 o gostau adeiladu (gan gynnwys gwaith tir, dur, a physt arbenigol) i sicrhau bod y contractwr yn gallu dechrau'n brydlon a darparu'r allbynnau gofynnol erbyn y terfynau amser a nodwyd gan gyrff cyllido.

Cydymffurfiaeth Cynllunio

Roedd adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ym mis Mawrth yn archwilio effeithlonrwydd Pennod Cydymffurfiaeth Cynllunio'r Cyngor. Pwrpas y Siarter yw symleiddio'r broses o fynd i'r afael â honiadau o dorri rheolau cynllunio drwy helpu

achwynwyr, tramgwyddwyr a phartïon eraill sydd â diddordeb i ddeall sut mae'r swyddogaeth cydymffurfio â chynllunio'n gweithredu. Mae'r swyddogion ac aelodau'n ystyried bod y Siarter yn offeryn effeithiol ar gyfer cynghori budd-ddeiliaid ar sut mae'r Cyngor yn ymchwilio i ac yn mynd i'r afael â honiadau o dorri rheolau cynllunio. Fodd bynnag, mae rhai mân ddiwygiadau wedi'u gwneud i wella'r broses ymhellach a helpu i reoli disgwyliadau'n well. Mewn ymateb i'r adborth gan aelodau etholedig, bydd gwybodaeth bellach hefyd wedi'i chynnwys am sut caiff budd-ddeiliaid eu diweddaru ar gynnydd achosion. Ynghyd â recriwtio swyddog cydymffurfiaeth arall yn ddiweddar, fe ddylai perfformiad yn y maes hwn barhau i wella.

Archwilio Cymru

Cyflwynodd Archwilio Cymru eu Crynodeb Archwilio Blynyddol ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych yn y cyfarfod Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ym mis Mawrth. Cadarnhaodd:

- Barn ddiamwys, wir a theg ar ddatganiadau ariannol y Cyngor, heb unrhyw broblemau sylweddol gyda cheisiadau grant a ffurflenni.
- Bodlonodd y Cyngor ddyletswyddau Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i sicrhau gwelliant parhaus.
- Mae'r Cyngor mewn sefyllfa dda i sicrhau cynaliadwyedd ariannol dros y tymor canolig.
- Gan adfer yn dilyn effaith y pandemig, mae'r Cyngor wedi elwa o ymgysylltiad cadarnhaol rhanbarthol a lleol, ac wedi dangos arweiniad cryf o ran cynllunio a gwneud penderfyniadau.
- Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd rhagorol o ran sefydlu ei uchelgeisiau amgylcheddol drwy waith mapio budd-ddeiliaid mwy cynhwysfawr a fyddai'n cryfhau gwaith ymgysylltu ymhellach, a bydd adroddiadau dros y flwyddyn nesaf yn helpu gyda sefydlu uchelgeisiau amgylcheddol a datblygu mesurau.
- Wrth adolygu Lleoliadau Cartrefi Gofal Pobl Hŷn, mae prosesau cenedlaethol cymhleth sy'n arwain at ffocws sylweddol ar gostau, sy'n achosi rhaniad ymhlith partneriaid ac yn gallu cael effaith niweidiol ar ddefnyddwyr gwasanaeth. Mae gan cryfhau atebolrwydd a datblygu strategaeth ranbarthol a chynllun cyflawni y potensial i gyfeirio newid cadarnhaol a gwaith partneriaeth gwell, yn arbennig mewn perthynas â gofal cymhleth a mwy arbenigol. Mae Archwilio Cymru wedi adrodd yn

lleol i gynghorau, ac yn genedlaethol i Lywodraeth Cymru gan argymell y camau y dylid eu cymryd.

Darparu Gwelliant Cynaliadwy

Mae Archwilio Cymru wedi cyhoeddi adolygiad o drefniadau rheoli perfformiad y Cyngor, gan geisio sicrwydd eu bod yn gadarn ac yn debygol o gefnogi gwelliant cynaliadwy a pharhaus. Daeth i'r casgliad bod Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cyngor a'r trefniadau ar gyfer mesur ac adrodd perfformiad yn effeithiol, gyda rhai cyfleoedd i wella'r defnydd o'r feddalwedd rheoli perfformiad. Gallai'r Cyngor hefyd ystyried gwella adroddiadau perfformiad meysydd nad ydynt yn flaenoriaeth, sut caiff gwybodaeth ariannol a gwybodaeth mewn perthynas â pherfformiad eu hystyried ar y cyd, a bod sesiynau 1 i 1 staff yn cael eu cofnodi mewn modd cywir a phriodol.

Arolygiaeth Gofal Cymru

Cyflwynodd Arolygiaeth Gofal Cymru lythyr ym mis Tachwedd a oedd yn crynhoi canfyddiadau gwiriad sicrwydd (a gwblhawyd yn ystod mis Mehefin a mis Gorffennaf) o b'un a yw gwasanaethau cymdeithasol yn parhau i helpu a chefnogi oedolion a phlant, gan ganolbwyntio ar ddiogelwch a lles. Mae'r llythyr yn amlygu nifer o feysydd ymarfer cadarnhaol ar draws gwasanaethau cymdeithasol oedolion a phlant, yn ogystal â meysydd sy'n ymofyn gwelliant o fewn gwasanaethau plant. Mae camau cytunedig yn cael eu cymryd o fewn gwasanaethau perthnasol, a bydd cynnydd y rhain yn cael eu hadolygu drwy gyfarfodydd adolygu a gwerthuso perfformiad rhwng Arolygiaeth Gofal Cymru, penaethiaid gwasanaeth perthnasol a'r Cyfarwyddwr Cymunedau.

Cyflwynodd Arolygiaeth Gofal Cymru lythyr ym mis Chwefror yn dilyn adolygiad dilynol ar ddiogelwch a lles plant a theuluoedd. Roedd hyn yn cynnwys arferion adolygu, dadansoddi a gwneud penderfyniadau'r awdurdod lleol mewn perthynas â risg, a ph'un a oedd yr awdurdod lleol yn bodloni ei gyfrifoldebau statudol dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Eto, fe wnaeth yr adolygiad nodi rhai cryfderau a meysydd i'w gwella, a bydd camau cytunedig yn cael eu monitro drwy Gynllun Gwasanaeth a chyfarfodydd adolygu a gwerthuso perfformiad rheolaidd y gwasanaeth i'r dyfodol.

Rheoli Risg

Gweler isod gamau gwella sydd wedi'u nodi i gefnogi Iechyd Corfforaethol yn y maes llywodraethu hwn.

Deall Parodrwydd i Dderbyn Risg

Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi gweld nifer cynyddol o risgiau corfforaethol sydd y tu hwnt i'n parodrwydd i dderbyn risg. Mae hyn yn teimlo'n gyson gyda'r heriau byd-eang yr ydym wedi bod yn eu hwynebu ac yn parhau i'w hwynebu. Fe wnaeth ein hadolygiad ym mis Chwefror barhau sgyrsiau am y risgiau hynny, ac rydym wedi nodi gwaith sicrwydd (mewnol ac allanol) sydd ar y gweill neu eisoes wedi cael ei gwblhau i'n helpu i ddeall effeithlonrwydd ein rheolyddion. Er enghraifft, roedd ein hadolygiad yn ystyried Adolygiad diweddar Archwilio Cymru o Leoliadau Cartref Gofal Pobl Hŷn gan Gynghorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Cyflwynwyd adroddiad er gwybodaeth i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn eu cyfarfod ym mis Mawrth.

Fel y nodwyd eisoes, yn dilyn etholiadau mis Mai, bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu i gynghorwyr i sicrhau eu bod yn deall methodoleg rheoli risg y Cyngor.

Cam Gweithredu Her Gwasanaeth: Ystyried darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, yn arbennig o ran Cyd-bwyllgor Corfforedig ac unrhyw risgiau cysylltiol i'r Cyngor.

Yn ein hadolygiad o'r risg hwn ym mis Chwefror 2022, canfuwyd bod y risg hwn yn statig. Gosododd Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru ei gyllideb ym mis Ionawr 2022. Mae'n rhaid i'w swyddogaethau (cynllunio datblygu strategol; cynllunio cludiant rhanbarthol a datblygu economaidd rhanbarthol) fod yn weithredol o fis Mehefin 2022. Nid yw trefniadau craffu wedi eu cadarnhau eto. Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cynnig cyfleoedd i sefydlu dull strategol a rhanbarthol i'r swyddogaethau hyn i ddatblygu economi a chymunedau Sir Ddinbych. Fodd bynnag, mae risg nad oes digon o eglurder, amser ac ymgysylltiad i fanteisio ar y cyfleoedd hyn. I'r gwrthwyneb, mae risg y bydd y Cyngor yn gweithio'n galed ond ddim yn derbyn enillion cymesur ar fuddsoddiad.

Datblygiadau eraill yn y cyfnod diwethaf

Mesur ein rheolyddion

Rydym wedi nodi gwaith archwilio mewnol ac allanol perthnasol diweddar neu ar y gweill sy'n rhoi sicrwydd i berchnogion risg ynghylch effeithlonrwydd ein rheolyddion, ac yn ymestyn sgyrsiau am fesurau perfformiad y gellir eu defnyddio i gael gwell dealltwriaeth o lwyddiant. Mae unrhyw fesurau perthnasol bellach wedi'u nodi yn y gofrestr.

Cyfathrebu ein Risgiau

Wrth i ddigwyddiadau byd-eang ddod yn fwy arwyddocaol i'n Cyngor ac i'n cymunedau dros y ddwy flynedd ddiwethaf, felly hefyd nifer y risgiau gweithredol ar ein cofrestr risgiau corfforaethol. Dyma pam ein bod wedi datblygu ein cofrestr risgiau corfforaethol, sydd wedi cael ei gymeradwyo i'w ddefnyddio ar gyfer cysylltiadau mewnol. Bydd adroddiad diweddaru llawn yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad ym mis Mehefin.

Recriwtio a Chadw

Mae ein hadolygiad mis Chwefror wedi amlygu'r rheolyddion a gaiff eu gweithredu i reoli'r risg:

- Mae rhai gwasanaethau'n cymryd camau penodol. Mae Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol, er enghraifft, yn gweithio gyda Sir Ddinbych yn Gweithio, ac mae Gwasanaethau Cymorth Cymunedol yn gweithio gyda'r Tîm Cyfathrebu i ddarparu rhaglen recriwtio wedi'i thargedu.
- Mae grŵp newydd wedi cael ei sefydlu i ystyried problemau mewn gofal, a gaiff ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Corfforaethol y Cyngor ar gyfer Cymunedau.
- Cwblhaodd AD gynllun gweithlu gyda phob gwasanaeth ym mis Tachwedd, a oedd yn cynnwys trafodaeth ynghylch recriwtio a chadw. Mae'r Cynllun Gweithlu Corfforaethol dilynol wedi cael ei drafod ac mae recriwtio a chadw staff wedi cael ei nodi fel pryder corfforaethol gyda nifer o gamau gweithredu'n cael eu cytuno yn y cynllun cyflawni.
- Ynghyd â gwasanaethau, mae AD yn archwilio ystod o strategaethau gwahanol y gellid eu rhoi ar waith i gefnogi gweithgarwch recriwtio a helpu gyda chadw staff,

megis uwchsgilio ein gweithwyr; gweithio gyda phartneriaid; ail-lunio swyddi; a thaliadau atodol y farchnad.

Diweddariadau i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol (adolygiad Chwefror 2022)

Fe wnaeth ein hadolygiad ym mis Chwefror arwain at nifer o newidiadau i'r gofrestr risgiau gorfforaethol. Roedd y newidiadau mwyaf sylweddol yn cynnwys:

- Risg 14: Y risg o ddigwyddiad iechyd a diogelwch yn arwain at anaf difrifol neu golli bywyd. Cafodd y sgôr risg ei israddio ac mae bellach o fewn ein parodrwydd i dderbyn risg.
- Risg 16: Y risg bod effaith diwygio'r gyfundrefn les (Credyd Cynhwysol) yn fwy sylweddol na'r disgwyl i'r Cyngor. Cafodd y risg hon ei rheoli ac nid yw bellach yn risg.
- Risg 18: Y risg nad yw'r rhaglen na buddion y prosiect yn cael eu gwireddu'n llawn. Cynyddwyd y sgôr risg i adlewyrchu'r heriau economaidd rydym yn eu hwynebu ac nid yw o fewn ein parodrwydd i dderbyn risg mwyach.
- Cyflwynwyd dau risg newydd. Roedd y cyntaf yn ymwneud â chyllid i'r dyfodol i gefnogi'r dysgwyr mwyaf diamddiffyn a'r bobl ifanc sydd wedi ymddieithrio fwyaf; ac roedd yr ail yn ymwneud â lleoliadau ar gyfer Plant Sy'n Derbyn Gofal.

Cynllunio'r Gweithlu

Gweler isod gamau gwella sydd wedi'u nodi i gefnogi Iechyd Corfforaethol yn y maes llywodraethu hwn.

Drwy ategu at Ffyrdd Newydd o Weithio, byddwn yn adolygu anghenion hyfforddiant, datblygu ac iechyd meddwl ar gyfer staff.

Yn dilyn datblygu'r rhaglen gyflwyno, polisïau a chanllawiau, mae sesiynau hyfforddiant arbennig ar gyfer gweithwyr a rheolwyr yn cael eu datblygu i gefnogi'r ffyrdd newydd o weithio. Bydd y sesiynau hyn yn dechrau, yn amodol ar sicrhau cymeradwyaeth, o fis Gorffennaf 2022.

Rydym wedi gofyn i Staff y Cyngor ein cefnogi i recriwtio Hyrwyddwyr Iechyd Meddwl. Mae Partneriaid Busnes AD hefyd yn gweithio gyda gwasanaethau i gefnogi hyn. Bydd Arolwg Lles hefyd yn cael ei lansio ym mis Mehefin.

Gwella'r wybodaeth sydd gennym am ein gweithlu, gan gynnwys gwybodaeth gydraddoldeb, i gefnogi dadansoddiadau mwy manwl mewn Adroddiadau Dyletswydd Sector Cyhoeddus yn y dyfodol.

Mae adroddiad y Ddyletswydd Sector Cyhoeddus wedi'i gyhoeddi, ond er gwaethaf yr ymdrech barhaus i gasglu rhagor o wybodaeth am gydraddoldeb, mae gennym gyfran uchel o staff (tua 50%), sy'n dewis peidio â chwblhau'r wybodaeth gydraddoldeb. Nid yw nifer o'r rhain yn gweithio mewn swyddfa. Rydym bellach yn gweithio ar ffyrdd newydd, mwy hygyrch, o alluogi'r staff hyn i ddiweddaru eu gwybodaeth.

Gwella ein rhaglen cynllunio gweithlu ac ystyried sut orau i gynllunio ar gyfer swyddi sydd angen lefel benodol o'r Gymraeg uwch na Lefel 1.

Yn dilyn ein hymgynghoriadau gyda'n Uwch Dimau Arwain a'r Tîm Gweithredol Corfforaethol, mae ein cynllun ledled y Cyngor ar gyfer cynllunio'r gweithlu bellach ar waith.

Bydd y cynnig ar sut i gynllunio ar gyfer swyddi sy'n ymofyn Cymraeg lefel 1 neu uwch yn cael ei gyflwyno i'n Uwch Dîm Arweinyddiaeth rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2022.

Yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Ionawr, cododd y cynghorwyr gwestiynau brys mewn perthynas â phroblemau recriwtio a chadw staff a brofir yn y sector gofal. Cydnabuwyd bod hyn yn broblem cyn y pandemig, ac nad oedd yn unigryw i Sir Ddinbych. Rhoddwyd sicrwydd bod ystod o fesurau a mentrau wedi'u cytuno ac yn cael eu monitro gan Grŵp Recriwtio a Chadw Gofal Cymdeithasol Cyngor Sir Ddinbych, a gaiff ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol ar gyfer Cymunedau. Bydd hyn yn cynnwys ystyried cyfraddau talu ar gyfer bob rôl ar draws gofal cymdeithasol oedolion a phlant a hyrwyddo ein buddion. Mae adnodd AD arbennig ychwanegol wedi'i roi ar waith i gefnogi recriwtio a chadw staff gofal cymdeithasol. Rydym wedi cael mynediad at gyllid adfer Covid-19 ychwanegol i gefnogi recriwtio i ofal ar gyfer darparwyr gofal allanol a'n gwasanaethau mewnol. Mae Darparwyr hefyd yn ymgymryd â mentrau i wella prosesau recriwtio a chadw.

Mae'r Pwyllgor Craffu hefyd wedi archwilio absenoldebau staff, trosiant staff a chynlluniau'r gweithlu fel rhan o'i gyfarfod ym mis Mawrth. Mae cynnydd wedi bod mewn absenoldebau staff yn ystod 2021 - 2022, a'r prif resymau oedd problemau cyhyrol / ysgerbydol; iselder / gorbryder a straen personol; ac wrth gwrs, Covid-19. Mae trosiant staff yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru, fodd bynnag, mae rhai gwasanaethau lle mae problemau hysbys, yn arbennig o fewn Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol; Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad, ac, fel y nodwyd yn flaenorol, gofal cymdeithasol. Y graddfeydd sy'n profi'r mwyafrif o newidiadau ymhlith staff yw Graddfa 4 ac is, gyda phobl yn gadael am resymau personol, neu Raddfa 10 ac uwch, gyda phobl yn ail-werthuso ac yn ystyried ymddeoliad. Cydnabuwyd bod y Cyngor, yn yr un modd â sefydliadau sector cyhoeddus, yn wynebu problemau recriwtio a chadw mewn sawl maes am wahanol resymau. Canmolwyd y gweithlu am eu gwytnwch rhagorol dros y ddwy flynedd ddiwethaf, yn ymdrin â'r amgylchiadau gwaethaf posibl i unrhyw lywodraeth leol eu hwynebu o fewn cof. Mae gwasanaethau wedi parhau i ddarparu er gwaethaf popeth heb gael effaith sylweddol ar ddarpariaeth.

Cam Gweithredu Her Gwasanaeth: Ystyried y gofyniad am adnoddau staff cysylltiol â baich ychwanegol rheoli/cefnogi cyfarfodydd ar-lein a chynyddu'r nifer o gyfarfodydd Grŵp Tasg a Gorffen Aelodau ac ystyried pa gamau, os oes unrhyw gamau sydd angen eu cymryd.

Rydym wedi recriwtio i'r swydd Uwch-weinyddwr Pwyllgorau newydd er mwyn cefnogi gweithgarwch llywodraethu democrataidd. Roedd yn benodiad mewnol; felly, rydym ni bellach angen recriwtio i'r swydd wag honno, yn ogystal â Swyddog Craffu newydd.

Cam Gweithredu Her Gwasanaeth: Sefydlu'r sefyllfa ddiweddaraf a lefel o risg cysylltiedig â'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd / dangosyddion asesu risg sydd, neu wedi bod yn flaenoriaeth ar gyfer gwella / bod yn dderbyniol.

Mae gwaith i fynd i'r afael â'r mater o gydymffurfiaeth gyda gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac asesiadau risg (gan eithrio ar gyfer gweithwyr Gofal Cymdeithasol Cymru neu ASGC yn mynd rhagddo. Mae cydymffurfiaeth yn parhau i fod dros 90% ar draws CSDd.

Adolygu mesurau un i un ar gyfer Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol a Chynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad.

Mae ein hadroddiad diweddaru perfformiad blaenorol wedi nodi'r angen i adolygu ein mesurau un i un ar gyfer Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol, a Chynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad. O fis Ebrill 2022, byddwn ond yn mesur cyfarfodydd un i un a gaiff eu cwblhau gyda staff y mae disgwyl iddynt gynnal o leiaf tri chyfarfod o fewn cyfnod o 12 mis.

Datblygiadau eraill yn y cyfnod diwethaf

Astudiaeth Archwilio Cymru

Yn ystod mis Rhagfyr 2021 - Chwefror 2022, cynhaliodd Archwilio Cymru astudiaeth lleol o reoli asedau a chynllunio gweithlu Sir Ddinbych. Mae'r adroddiad drafft bellach yn cael ei ystyried. Mae disgwyl yr adroddiad terfynol yn ystod Mai - Gorffennaf 2022.

Gwella Busnes a Moderneiddio

Yn dilyn ymddeoliad y Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio, crëwyd a phenodwyd dwy swydd newydd dros dro i oruchwylio gwaith y gwasanaeth. Bydd y Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol yn goruchwylio Strategaeth a Pherfformiad, Prosiectau, Newid Hinsawdd, Datblygu Cymunedol ac Archwilio Mewnol; a bydd y Prif Swyddog Digidol yn goruchwylio Gwasanaethau TGCh a Digidol, Parhad Busnes Corfforaethol, Cofnodion Digidol ac Archifau.

Asedau

Gweler isod gamau gwella sydd wedi'u nodi i gefnogi Iechyd Corfforaethol yn y maes llywodraethu hwn.

Strategaeth Rheoli Asedau

Mae Strategaeth Rheoli Asedau pum mlynedd wedi cael ei drafftio a bydd yn cael ei chyflwyno i Grŵp Rheoli Asedau'r Cyngor ym mis Mehefin. Bydd yn cynnwys cylch gorchwyl newydd a fydd yn adlewyrchu'r bwriad i ailstrwythuro'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, ac unrhyw newidiadau i gyfrifoldebau Aelodau Arweiniol yn dilyn yr etholiad.

Polisïau Cynnal a Chadw Priffyrdd ar gyfer Ffyrdd Di-ddosbarth

Yn ei gyfarfod ym mis Ionawr, archwiliodd y Pwyllgor Craffu Cymunedau bolisi'r Cyngor ar gynnal ffyrdd di-ddosbarth ynghyd â'r meini prawf a'r fformiwla a ddefnyddir ar gyfer gwario'r arian ychwanegol a ddyrannwyd tuag at ffyrdd yn y sir. Mae cynnal ffyrdd yn Ddyletswydd Statudol dan y Ddeddf Briffyrdd, 1980, ond mae dehongliad rhwng awdurdodau priffyrdd mewn perthynas â'r safon ofynnol, wedi'i chyfyngu gan gyfyngiadau cyllidebol, adnoddau, y defnydd (a'r math o ddefnydd) mae'r rhwydwaith yn ei gael, a rhai ystyriaethau eraill. Am y rheswm hwn, mae bob awdurdod lleol yn nodi eu safonau gofynnol mewn Cod Ymarfer, a gafodd eu cadarnhau gan Sir Ddinbych mewn cyfarfod o'r Cabinet ym mis Ionawr 2020.

Nodwyd ei bod yn llawer anos gwerthuso cyflwr ffyrdd di-ddosbarth. Ers 2011, rydym wedi defnyddio system bwyntiau yn seiliedig ar ymddangosiad gweledol gyda sgoriau uchel yn golygu bod yr arwyneb yn wael yn weledol h.y. twll yn y ffordd ac angen trwsio / arwyneb newydd. Yn anffodus, oherwydd Covid, roedd rhaid atal y dull hwn am rai misoedd felly nid oes gwerthusiad diweddar ar gael. Mae'r tuedd diweddaraf wedi dangos bod y ffyrdd hyn yn dirywio (yn dilyn gwelliant rhwng 2011 a 2016), ac rydym yn disgwyl i'r ffigurau hyn ddangos bod y ffyrdd wedi dychwelyd i, neu'n waeth na, sefyllfa 2011.

Mesurau a gyflwynwyd i atal fandaliaeth mewn toiledau cyhoeddus

Mae'r Cyngor wedi cymryd camau yn dilyn achosion o fandaliaeth mewn nifer o gyfleustodau cyhoeddus yn y Rhyl, Prestatyn a Chorwen. Roedd y mwyafrif helaeth o fandaliaeth yn digwydd rhwng 6pm a 9pm, a gwnaethpwyd penderfyniad i newid yr amser cau o 9pm i 6pm. Bydd yr amser cau hwn yn parhau i gael ei adolygu, ond yn anffodus, mae angen gweithredu ar unwaith i geisio atal y problemau hyn, gan eu bod yn tanseilio cynaliadwyedd y gwasanaeth ac yn golygu bod y cyfleusterau hyn allan o ddefnydd am gyfnodau wrth i ni eu hatgyweirio.

Cam Gweithredu Her Gwasanaeth: Datblygu cynnig i wella darpariaeth TGCh, diogelwch ffibr, parhad busnes, darparu TGCh mewn ysgolion a Sir Ddinbych digidol

Mae'r cynnig wedi cael ei dderbyn gan y Tîm Gweithredol Corfforaethol a'r bwrdd cyllideb i ddechrau'r broses o ail-ddatblygu'r capasiti o fewn TGCh i ymdrin â'r problemau a godwyd. Mae 85% o ysgolion wedi cofrestru i gefnogi contractau gyda TGCh Sir Ddinbych,

ac mae'r 15% sy'n weddill wedi cael eu hysbysu. Mae rhaglen dreigl ar waith i sicrhau bod Diogelwch Perimedrau Digidol y Cyngor wedi cael ei ddiweddaru ac yn gweithredu ar y lefel uchaf bosibl. Mae'r dasg bellach wedi'i chwblhau.

Cam Gweithredu Her Gwasanaeth: Creu canolbwyntiau mewn ardaloedd ar draws Sir Ddinbych ble mae yna gysylltiad band eang gwael, i gynorthwyo a galluogi cynnal cyfarfodydd o bell

Rydym yn aros am gadarnhad gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru mewn perthynas â beth sy'n digwydd gyda'r prosiect Rhwydwaith Ffeibr Llawn Lleol, gan fod yr estyniad i'r prosiect wedi dod i ben yn swyddogol ym mis Medi 2021.

Mae chwech llwybrydd Prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus wedi cael eu gosod a'r cylchredau wedi cael eu hactifadu ar draws safleoedd yn Sir Ddinbych. Mae ffibr bellach wedi cael ei osod mewn 18 o safleoedd pellach ac maent yn barod i'r cylchedau gael eu hactifadu. Mae offer llwybryddion Sir Ddinbych wedi cael eu harchebu a bydd y rhain yn cael eu darparu. Bydd y broses o'u cyflwyno'n dechrau ym mis Ebrill, 2022. Mae 22 safle wedi cael eu gwaredu o gwmpas presennol y prosiect, ond mae trafodaethau'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd i sicrhau cyllid ar gyfer cyflwyno 'Cam 3'. Yn anffodus, nid oes unrhyw fanylion pellach wedi cael eu cyhoeddi hyd yma.

Cam Gweithredu Her Gwasanaeth: Gwaith i alluogi darpariaeth cyfieithu gyda meddalwedd Microsoft Teams

Rydym yn profi rhwystrau gyda'r gweithgarwch hwn ac mae gwaith yn mynd rhagddo'n genedlaethol i alluogi'r ddarpariaeth gyfieithu o fewn Microsoft Teams. Fodd bynnag, mae'r cam hwn yn ddibynnol ar ymyrraeth gan Microsoft.

Cam Gweithredu Her Gwasanaeth: Creu cynllun i gefnogi partneriaid a busnesau allanol i symud ymlaen gyda'r rhaglen newid hinsawdd a newid ecolegol

Cynigwyd yn wreiddiol i'r cynllun gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Ebrill 2022; fodd bynnag, nid oedd hyn yn bosibl yn sgil newidiadau staff. Y cynnig yw ei ddatblygu erbyn diwedd mis Hydref 2022, er mwyn datblygu mentrau newid ymddygiad ehangach o 2022 - 2023 ymlaen. Bydd hyn yn cael ei gefnogi gan y rolau 1.5 Cyfwerth â Llawn Amser arbennig newydd o fewn y tîm cyfathrebu corfforaethol i weithio ar y rhaglen hon.

Cam Gweithredu Her Gwasanaeth: Sicrhau bod gwersi a ddysgwyd yn cael eu nodi o brynu adeiladau blaenorol

Mae'r cam gweithredu hwn bellach wedi cau gan ei fod yn fusnes arferol. Byddwn yn gofyn am unrhyw adroddiadau asbestos yn ystod y cam caffael yn y dyfodol. Yn ogystal â hyn, byddwn yn ymdrechu i sicrhau y byddwn yn dal i dalu costau gwaredu asbestos os ydym yn dymchwel neu ail-fodelu eiddo.

Caffael

Gweler isod gamau gwella sydd wedi'u nodi i gefnogi Iechyd Corfforaethol yn y maes llywodraethu hwn.

Integreiddio gwella a diogelu bioamrywiaeth yn ein prosesau caffael a chymell drwy fuddion cymunedol sy'n gwella'r amgylchedd. Byddwn yn gweithio gyda busnesau a chyflenwyr yn Sir Ddinbych i annog llai o arfer carbon. Byddwn hefyd yn datblygu strategaeth gaffael newydd. Byddwn hefyd yn datblygu strategaeth gaffael newydd.

Mae'r Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol yn parhau i ddarparu cefnogaeth reoli dros dro i'r Tîm Caffael, yn absenoldeb y Rheolwr Caffael. Mae problemau capasiti'n parhau ac mae'r rhain yn dal i gael effaith ar gyflymder y cynnydd mewn perthynas â'r gweithredoedd hyn. Er gwaethaf yr heriau hyn, yn ystod y cyfnod, trefnwyd grŵp tasg a gorffen ar y cyd i ddatblygu strategaeth gaffael newydd. Bwriedir cyflwyno'r strategaeth newydd i'w mabwysiadu rhwng mis Mehefin a mis Medi 2022.

Cyflwynwyd papur, 'Datgarboneiddio mewn Caffael', i'r Bwrdd Newid Hinsawdd ym mis Chwefror a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn dilyn etholiadau mis Mai.

Gobeithir y bydd cam gweithredu newydd a fydd yn cael ei ddatblygu o fis Ebrill 2022 yn sicrhau cytundeb ar gyfer profiad mwy arbenigol o fewn y tîm i ddatblygu datgarboneiddio mewn caffael. Er enghraifft, mae arnom ni angen datblygu cronfa o gwestiynau arbennig yn ymwneud â charbon y gellid eu defnyddio fel rhan o'r broses werthuso tendrau. Bydd yn rhaid sgorio a phwysoli'r rhain yn briodol fel rhan o'r asesiad ansawdd o dendrau. Rydym yn parhau i aros am hyfforddiant a chanllawiau gan Lywodraeth Cymru. Mae cynnydd yn y maes hwn yn bendant o'n helpu i ddatblygu ein nodau i ddatgarboneiddio ein proses gaffael a'r gadwyn gyflenwi.

Rydym yn cydnabod bod angen i ni gael gweledigaeth gliriach o'r math o fuddion sydd â'r potensial i gyfrannu at welliannau ecolegol a lleihau carbon, e.e. mesurau effeithlonrwydd ynni y gellir eu derbyn fel rhai sy'n cyfrannu at allyriadau carbon Sir Ddinbych, yn ogystal â'r dangosyddion hynny a ddisgwylir gan Lywodraeth Cymru. Byddwn yn defnyddio tendr sydd ar y gweill ar hyn o bryd i beilota ffyrdd o annog a mesur lleihad carbon yn y contract, gan ddefnyddio templed Llywodraeth Cymru i gefnogi ein dull a'n cyfrifiadau.

Yn ystod y cyfnod, mae Brenig Construction wedi ymrwymo i ddarparu gostyngiad carbon drwy eu cadwyn gyflenwi. Roedd Creu Menter, menter gymdeithasol sy'n rhan o Gartrefi Conwy, yn gyfrifol am gynhyrchu'r coed ar gyfer datblygiadau Passivhaus y Cyngor yn Ninbych, gan greu un swydd llawn amser, ac maent bellach yn cynhyrchu pren mewn ffactri newydd yn y Rhyl. Wrth sefydlu'r berthynas hon, rydym wedi cysylltu Creu Menter gyda'n Tîm Cydnerthu Cymunedol i archwilio meysydd cydweithio posibl; a sicrhau rhagor o gyfraniad cymunedol yn y broses o reoli tirwedd, drwy gyflwyno'r Tîm Cydnerthu Cymunedol i Dinbych yn ei Blodau (un o'r sefydliadau sy'n derbyn Buddion Cymunedol Llwyn Eirin).

Adolygu Rheolau'r Weithdrefn Gontractau i sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau caffael newydd a'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol.

Nid ydym wedi datblygu'r adolygiad hwn eto yn sgil yr anawsterau rydym wedi'u hwynebu o ran recriwtio i'r swydd reoli.

Cam Gweithredu Her Gwasanaeth: Hyrwyddo cydymffurfiaeth â'r Polisi Caffael ar draws y Cyngor

Fel y nodwyd eisoes, mae gennym sleidiau hyfforddiant am reolau'r weithdrefn gontractau yn gyffredinol, a fydd yn cael ei gyflwyno gan ein partneriaid busnes caffael i adrannau cleientiaid yn y misoedd nesaf.

Sicrhau fod staff sydd ynghlwm rheoli contractau wedi'u hyfforddi'n briodol Bydd hyfforddiant yn cael ei gyflwyno ar draws y Cyngor i holl staff sydd ynghlwm rheoli contractau.

Dechreuodd Swyddog Rheoli Contractau newydd yn ei swydd yn ystod y cyfnod hwn, er mwyn bwrw ymlaen gyda chyflwyno'r Fframwaith Rheoli Contractau ar draws gwasanaethau. Mae deiliad y swydd yn gyfrifol am hwyluso a chydlynu ymarfer gorau

mewn perthynas â rheoli contractau ymhlith staff. Am gyfnod dros dro, cyn y gwnaethpwyd y penodiad, cwblhawyd y Fframwaith Rheoli Contractau a'r hyfforddiant cychwynnol gan y Cadeirydd ar gyfer y Fforwm Rheoli Contractau a'r Rheolwr Perfformiad a Chontractau.

Gweithred Archwilio Mewnol: Cynlluniau Gwaith i'r Dyfodol Caffael i gael eu llunio gan bob Gwasanaeth i gynnwys gweithgareddau a phrosiectau presennol neu sganio'r gorwel

Mae Partneriaid Busnes Caffael yn mynychu timau rheoli gwasanaeth ar gyfer Cynghorau Sir Ddinbych a Sir y Fflint. Maent wedi dechrau llunio rhestr o gontractau presennol ar Proactis a thendrau gweithredol ar gyfer bob gwasanaeth ym mhob sir, ac wedi dechrau gofyn i dimau rheoli am anghenion caffael eraill sydd o bosibl ar y gorwel. Mae'r rhain yn drafodaethau diddorol i nodi cyfleoedd ar gyfer caffaeliadau cydweithredol

Cam Gweithredu Her Gwasanaeth: Archwilio opsiynau hirdymor ar gyfer cynnal yr Hwb Buddion Cymunedol

Mae'r tendr ar gyfer Canolfan Asesu Plant Bwthyn y Ddol, sy'n cael ei adeiladu ar gyfer Cyngor Conwy a Sir Ddinbych, yn cynnwys buddion cymunedol addawol ac rydym yn gobeithio sicrhau arian o'r contract i gyfrannu cyllid ar gyfer yr Hwb. Mae trefniadau cwblhau'r contract wedi'u hoedi, ond mae cyfarfodydd prosiect ar y gweill ar gyfer Mai 2022 i gynnal momentwm.

Mae'r Gronfa Adnewyddu Cymunedol wedi sicrhau dau gontract cyfnod penodol, ac mae un o'r deiliaid swydd wedi bod yn y swydd ers mis Mawrth 2022 i ddarparu'r prosiect grymuso economaidd. Un o'r nodau yw alinio'r buddion cymunedol gyda'r angen cymunedol a sicrhau bod dyfodol i leoliadau gwaith; gyda disgwyl i sgiliau mewn sectorau dyfu. Bydd hyn yn cynnwys ymgysylltiad pellach gyda Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Rydym hefyd yn datblygu tystiolaeth i ddangos canlyniadau cadarnhaol yr Hwb.

Datblygiadau eraill yn y cyfnod diwethaf

Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig

Yn ei gyfarfod ym mis Ionawr, cytunodd y Cabinet i roi estyniad am gyfnod o ddeuddeng mis i'r contract gwasanaethau hamdden a ffurfiwyd rhwng Cyngor Sir Ddinbych a Hamdden Sir Ddinbych Cyf. Y rheswm dros ymestyn y contract oedd i adlewyrchu'r flwyddyn a gollwyd yn sgil Covid-19, a gafodd effaith sylweddol ar allu'r cwmni i ddarparu gwasanaethau, derbyn grantiau a datblygu dyfodol i fusnesau newydd.

Refeniw a Budd-daliadau

Yn yr un cyfarfod ym mis Ionawr, cytunodd y Cabinet i ddatblygu'r argymhelliad o ddod â'r gwasanaeth refeniw a budd-daliadau'n ôl i'r Cyngor drwy drosglwyddo'n effeithiol o Civica, heb unrhyw effaith niweidiol ar ddarpariaeth gwasanaeth na chostau ychwanegol, gan gyflawni arbedion. Roedd y penderfyniad yn hanfodol oherwydd roedd Civica, am resymau masnachol, yn dymuno ail-ffocysu eu cyfeiriad gwasanaeth a dod â threfniadau partneriaeth gydag awdurdodau lleol i ben cyn gynted â phosibl. Nodwyd bod y bartneriaeth wedi bod yn effeithiol fel arall, ond ei fod hefyd yn gyfle i ddarparu gwasanaeth mwy effeithiol.

Llinynnau Mesur Blynyddol neu Ddwyflynyddol

Data 2019 i 2021

Teitl	2019 - 2020	2020 - 2021	Statws
Canran y penodai newydd o geisiadau lle datgelwyd eu bod o grŵp hil neu grefyddol lleiafrifol, eu bod ag anabledd, yn hoyw neu ddeurywiol, neu eu bod wedi ailbennu rhywedd	15	4	Amherthnasol Cyfrif yn unig

Data 2020 i 2022

Teitl	2020 - 2021	2021 - 2022	Statws
Canran y gwahaniaeth yng nghymedr cyfradd tâl bob awr ar gyfer merched - **wedi'i feincnodi'n lleol**	-13.5	6.7	Derbyniol
Canran y cyflogau isaf a delir (chwarter isaf) sy'n ferched - **wedi'i feincnodi'n lleol**	79.9	79.3	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Presenoldeb aelodau (cyfredol ac a ddisgwylir), hyd yn hyn yn y flwyddyn - **wedi'i feincnodi'n lleol**	89	84	Da
Di-Garbon Net - Cyfanswm tunelledd carbon sy'n cael ei allyrru a'i amsugno gan y Cyngor (ac eithrio'r gadwyn gyflenwi) - **wedi'i feincnodi'n lleol**	10,277	11,656	Da

Arolwg Rhanddeiliaid 2018 i 2022

Teitl	2018 - 2019	2021 - 2022	Statws
Bodlonrwydd cyffredinol gyda'r Cyngor (%) - **wedi'i feincnodi'n lleol**	40	32	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Partneriaid sy'n cytuno fod y Cyngor yn gweithio'n dda gyda nhw (%) - **wedi'i feincnodi'n lleol**	Yn newydd yn 2021	62	Da
Cynghorwyr a gweithwyr y Cyngor sy'n cytuno fod perthynas weithio dda rhwng arweinwyr gwleidyddol a'r uwch dîm rheoli (%) - **wedi'i feincnodi'n lleol**	Yn newydd yn 2021	60	Derbyniol

Teitl	2018 - 2019	2021 - 2022	Statws
Budd-ddeiliaid sy'n cytuno fod y Cyngor yn rheoli ei berfformiad yn dda (%) - **wedi'i feincnodi'n lleol**	Yn newydd yn 2021	28	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Budd-ddeiliaid sy'n cytuno fod y Cyngor yn rheoli ei risgiau a heriau'n dda (%) - **wedi'i feincnodi'n lleol**	Yn newydd yn 2021	30	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Budd-ddeiliaid sy'n cytuno fod y Cyngor yn rheoli ei gyllid yn dda (%) - **wedi'i feincnodi'n lleol**	Yn newydd yn 2021	26	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Budd-ddeiliaid sy'n cytuno fod gan y Cyngor gynlluniau hirdymor yn eu lle (%) - **wedi'i feincnodi'n lleol**	Yn newydd yn 2021	31	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Budd-ddeiliaid sy'n cytuno fod y Cyngor yn trin ei weithlu'n dda (%) - **wedi'i feincnodi'n lleol**	Yn newydd yn 2021	35	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Budd-ddeiliaid sy'n cytuno fod y Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o'i asedau ac adnoddau (%) - **wedi'i feincnodi'n lleol**	Yn newydd yn 2021	20	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Budd-ddeiliaid sy'n cytuno fod y Cyngor yn prynu ei nwyddau a gwasanaethau mewn ffordd effeithlon a theg (%) - **wedi'i feincnodi'n lleol**	Yn newydd yn 2021	25	Blaenoriaeth ar gyfer gwella

Llinynnau Mesur Chwarterol neu Ddeuflynyddol

Teitl	Chwarter 4 2020 - 2021	Chwarter 1 2021 - 2022	Chwarter 2 2021 - 2022	Chwarter 3 2021 - 2022	Chwarter 4 2021 - 2022	Statws
Canran y Mesurau Cynllun	49	41	45	43	47	Derbyniol

Teitl	Chwarter 4 2020 - 2021	Chwarter 1 2021 - 2022	Chwarter 2 2021 - 2022	Chwarter 3 2021 - 2022	Chwarter 4 2021 - 2022	Statws
Corfforaethol sy'n dangos 'Blaenoriaeth ar gyfer Gwella' - **wedi'i feincnodi'n lleol**						
Nifer y prosiectau ar y gofrestr prosiect sydd 'dan fygythiad' - **wedi'i feincnodi'n lleol**	1	2	2	2	1	Da
Canran y prosiectau lle cafodd hyder o ran cyflawni ei ddiweddaru yn y tri mis diwethaf - **wedi'i feincnodi'n lleol**	94	96	90	84	100	Rhagorol
Canran y risgiau corfforaethol sy'n anghyson â datganiad parodrwydd i dderbyn risg y	55	Dim data Bob chwe mis	62	Dim data Bob chwe mis	64	Blaenoriaeth ar gyfer gwella

Teitl	Chwarter 4 2020 - 2021	Chwarter 1 2021 - 2022	Chwarter 2 2021 - 2022	Chwarter 3 2021 - 2022	Chwarter 4 2021 - 2022	Statws
Cyngor - **wedi'i feincnodi'n lleol**						
Nifer cronnus o'r adroddiadau negyddol gan reoleiddwyr allanol - **wedi'i feincnodi'n lleol**	0	0	0	0	0	Rhagorol
Nifer cronnus o adroddiadau sicrwydd isel Archwilio Mewnol, y flwyddyn ariannol hyd yn hyn - **wedi'i feincnodi'n lleol**	4	0	1	3	4	Derbyniol
Amrywiant Cyllideb Corfforaethol a Gwasanaeth (£k)	-718	708	2,445	2,731	-2,399	Amherthnasol Cyfrif yn unig
Cronfeydd wrth Gefn y Cyngor (£k)	7,135	7,135	7,135	7,135	7,135	Amherthnasol Cyfrif yn unig

Teitl	Chwarter 4 2020 - 2021	Chwarter 1 2021 - 2022	Chwarter 2 2021 - 2022	Chwarter 3 2021 - 2022	Chwarter 4 2021 - 2022	Statws
Straeon newyddion negyddol fel canran o'r holl straeon newyddion am y Cyngor - **wedi'i feincnodi'n lleol**	24	10	6	8	9	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Canran y cwynion allanol wedi'u cadarnhau neu eu cadarnhau'n rhannol dros y chwarter diwethaf - **wedi'i feincnodi'n lleol**	57	62	67	52	60	Derbyniol
Cyfartaledd treigl nifer y diwrnodau gwaith/sifftiau a gollwyd fesul gweithiwr awdurdod lleol cyfwerth â llawn amser oherwydd absenoldeb salwch	6.47	7.12	7.54	9.03	9.57	Blaenoriaeth ar gyfer gwella

Teitl	Chwarter 4 2020 - 2021	Chwarter 1 2021 - 2022	Chwarter 2 2021 - 2022	Chwarter 3 2021 - 2022	Chwarter 4 2021 - 2022	Statws
- **wedi'i feincnodi'n lleol**						
Canran y staff sydd wedi cael o leiaf 3 cyfarfod un i un yn y 12 mis diwethaf - **wedi'i feincnodi'n lleol**	45	44	42	36	43	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Canran y gwariant gyda chyflenwyr o fewn Sir Ddinbych - **wedi'i feincnodi'n lleol**	36	33	38	40	36	Da
Canran cronnus o gontractau Sir Ddinbych dros £25,000 ac o dan £1,000,000 sy'n cynnwys manteision cymunedol - **wedi'i feincnodi'n lleol**	Dim data Newydd i chwarter 1 2021 i 2022	75	88	88	88	Rhagorol
Nifer cronnus o leoliadau profiad	36	64	110	134	143	Amherthnasol

Teitl	Chwarter 4 2020 - 2021	Chwarter 1 2021 - 2022	Chwarter 2 2021 - 2022	Chwarter 3 2021 - 2022	Chwarter 4 2021 - 2022	Statws
gwaith a gynigir o fewn y Cyngor						Cyfrif yn unig

Camau Gwella

Isod mae camau gwella newydd sydd wedi cael eu nodi drwy'r adroddiad hwn:

- Sicrhau profiad arbenigol o fewn y Cyngor i ddatblygu datgarboneiddo mewn caffael.

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Ymgyrchoedd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

I gefnogi'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol Dros Dro, bydd y Cyngor yn hyrwyddo ymgyrchoedd i gefnogi pobl â nodweddion a ddiogelir neu sy'n byw dan anfantais economaidd-gymdeithasol yn rheolaidd. Ers mis Tachwedd (pan gaiff y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ei fabwysiadu), mae'r Cyngor wedi cefnogi:

- Diwrnod y Rhuban Gwyn (25 Tachwedd 2021) ar gyfer Rhoi Terfyn ar Drais yn Erbyn Merched.
- Diwrnod Hawliau Gofalwyr (hefyd ar 25 Tachwedd 2021), i helpu pobl i ddeall eu hawliau, a sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad at gefnogaeth sydd ar gael iddynt.
- Diwrnod Cofio'r Holocost (27 Ionawr, 2022) i dalu teyrnged i'r rhai a gafodd eu herlid a'u lladd yn ystod yr Holocost ac achosion eraill o hil-laddiad ar draws y byd.
- Mis Hanes LGBTQ+ (Chwefror), i nodi 50 mlynedd ers yr Orymdaith Pride gyntaf yn y Deyrnas Unedig ym 1972.
- Diwrnod Amser i Siarad (3 Chwefror), i gefnogi iechyd meddwl.

Ar 8 Mawrth, fe wnaeth y Cyngor hefyd ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Merched drwy gydnabod cyfraniad ac ymrwymiad merched sy'n gweithio ar draws y sefydliad. Mae nifer o enghreifftiau gwych o ferched sydd wedi datblygu yn eu gyrfaoedd o fewn y Cyngor, ac mae pedair o ferched yn ein Huwch Dîm Arweinyddiaeth. Mae hyn yn cyfleu neges glir fod gan ferched y sgiliau a'r gallu i gyflawni eu breuddwydion a'u nodau i sicrhau swyddi arwain uwch o fewn yr awdurdod. Mae hyn hefyd yn dangos y dull cynhwysol i gyflogaeth, a bod y Cyngor wedi gweithio'n galed i sicrhau cydraddoldeb rhywiol yn y gweithle. Mae digwyddiadau bywyd yn amharu ar yrfaoedd merched yn rhy hawdd ac mae'n bwysig i sefydliadau gael dealltwriaeth lawn o'u heffaith.

Gweithredu Anghenion Dysgu Ychwanegol

Ym mis Chwefror, cynhaliodd Archwilio Mewnol adolygiad o drefniadau'r Cyngor i weithredu gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a rheoliadau dilynol 2021, a ddaeth i rym ym mis Medi 2021. Rhoddodd yr

adroddiad hwn sgôr sicrwydd uchel, a chyflwynwyd y canfyddiadau o fewn y Diweddariad Archwilio Mewnol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ym mis Mawrth.

Yn gyffredinol, rhoddodd yr adroddiad sicrwydd bod y Cyngor yn gweithio'n effeithiol i weithredu'r canllawiau statudol. Yn sgil yr oedi o ran cyflwyno canllawiau clir yn genedlaethol, mae cydweithwyr Addysg a Gwasanaethau Plant wedi ymdrechu i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r ddeddf drwy ymgysylltu'n rheolaidd gydag Adran y Gyfraith a dogfennu'r rhesymeg a'r wybodaeth oedd ar gael ar adeg y penderfyniadau allweddol. Mae cynllun gweithredu wedi cael ei ddatblygu i fonitro perfformiad ar draws ffrydiau gwaith amrywiol, a gaiff ei fonitro'n rheolaidd. Mae adnoddau arbennig yn eu lle, ac mae arweinwyr arbennig ar gyfer bob ffrwd waith. Mae awdurdodau lleol yn gweithio'n rhanbarthol gyda'r nod o fabwysiadu dull cyson i weithrediad. Mae'r Arweinydd Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru hefyd wedi cefnogi'r Cyngor ac ysgolion gan ddarparu hunan-asesiadau i baratoi ar gyfer gweithredu, ynghyd â chyngor a thempledi. Mae hyfforddiant ac ymgysylltiad manwl wedi cael i gwblhau, ac mae ysgolion wedi bod yn cydweithio mewn clystyrau i baratoi ar gyfer y Ddeddf.

Fe wnaeth yr Archwiliad Mewnol amlygu rhai meysydd sy'n ymofyn datblygiad pellach, gan gynnwys Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol, mapio darpariaeth, a chyfnodau cadw data, ac ati. Trafodwyd y rhain gyda'r swyddogion perthnasol sy'n ymwybodol o'r gwaith pellach sydd angen ei gwblhau.

Safonau Ymddygiad

Yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Ionawr, cyflwynwyd Rhybudd o Gynnig i ofyn am adolygiad o bolisi a phroses achwyniad presennol y Cyngor i sicrhau bod cynghorwyr, swyddogion ac eraill yn cymryd cyfrifoldeb dros eu hymddygiad, gan gynnwys bwlio ac aflonyddu. Cytunwyd y byddai grŵp aelodau'n cael ei sefydlu i weithio gyda'r Swyddog Monitro a'r Pwyllgor Safonau i adolygu'r broses ddatrys bresennol a gwneud argymhellion mewn perthynas ag unrhyw newidiadau i'w mabwysiadu. Cydnabyddir bod y Cyngor yn sefydlu Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Strategol newydd, ac y byddai'n ddefnyddiol i'r grŵp gymryd i ystyriaeth y gorgyffwrdd rhwng cydraddoldeb a'r fframwaith moesegol. Cytunwyd y byddai'r Cyngor yn darparu hyfforddiant, cefnogaeth a chanllawiau i Gynghorau Tref a Chymuned o fewn cyd-destun y fframwaith moesegol a'r Adolygiad

Annibynnol o'r Fframwaith Safonau Moesegol ar gyfer Cymru, ond nid oedd ganddo rôl uniongyrchol yn mynd i'r afael ag anghydfod o fewn y cynghorau hynny.

Cefnogwr Pobl Ifanc

Ym mis Rhagfyr, cymeradwyodd y Cyngor y cynnig i greu rôl Cefnogwr Pobl Ifanc. Bydd y rôl hwn yn chwarae rhan bwysig yn gweithredu fel arweinydd strategol cryf i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth am faterion pobl ifanc; dadlau, cefnogi ac amddiffyn pryderon, materion ac anghenion pobl ifanc yn y sir. Yn ei gyfarfod ym mis Ionawr, ystyriodd y Cyngor y disgrifiad swydd a grëwyd ac ethol y Cynghorydd Cheryl Williams fel Cefnogwr Pobl Ifanc.

Cefnogwr Amrywiaeth

Ym mis Rhagfyr, derbyniwyd Rhybudd o Gynnig gan y Cyngor i greu rôl Cefnogwr Amrywiaeth. Yn y cyfarfod ym mis Chwefror, cytunodd y Cyngor i'r swydd ddisgrifiad, a oedd wedi cael ei argymell gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Bydd y rôl yn gweithredu fel cydwybod ac eiriolaeth y Cyngor ar gyfer materion yn ymwneud ag amrywiaeth, gan gynnwys annog y rheiny o gymunedau amrywiol i sefyll am etholiadau.

Diogelu Enwau Lleoedd Cymraeg

Mae dyletswydd gyfreithiol ar awdurdodau lleol yng Nghymru i roi sylw dyledus i'r iaith Gymraeg a'r dreftadaeth Gymreig o ran enwi lleoedd yng Nghymru. Fodd bynnag, nid oes dyletswydd arbennig i gael enwau Cymraeg llym. Fodd bynnag, yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau ym mis Ionawr, cadarnhawyd bod y Cyngor wedi mabwysiadu polisi ar enwi a rhifo strydoedd a oedd yn mynd y tu hwnt i'r ddyletswydd gyfreithiol, yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw stryd a enwir yn yr awdurdod fod yn Gymraeg. Ar y pryd, roeddem yn un o ddwy sir yng Nghymru i fabwysiadu polisi Cymraeg yn unig mewn perthynas â hyn. Cadarnhaodd y Pwyllgor Craffu eu bod yn fodlon bod y Cyngor yn defnyddio bob un o'i bwerau i ddiogelu'r Gymraeg ac enwau hanesyddol yn yr amgylchedd naturiol ac adeiledig, ond cyflwynwyd cais bod yr Aelod Cabinet Arweiniol yn gwaredu'r rhagddodiad / ôl-ddodiad 'Dreif' / 'Drive' o'r rhestr Enwau Strydoedd Newydd o fewn y polisi, gan nad yw'n air a ddefnyddir yn y Gymraeg, gan eithrio ar lafar o bryd i'w gilydd.

Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr

Mae Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr bellach wedi cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae'r prosiect yn profi rhwystr technegol ac yn ceisio esboniad gan Lywodraeth Cymru. Fe wnaeth y Bwrdd Prosiect gyfarfod ym mis Mawrth i drafod yr ymateb cychwynnol gan Lywodraeth Cymru, ac yn anffodus, nid oedd yn cynnig unrhyw gyngor ar y mater. Bydd y Cyngor yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru eto ac yn amlinellu'r camau yr ydym yn bwriadu eu cymryd. Mae risg, os na fydd y mater yn cael ei ddatrys, y bydd yn cael effaith ar ein terfyn amser ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol, gan fod angen i'r Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr gael ei gytuno cyn y gellir ei ddatblygu.

Asesiadau o Effaith ar Les a Phenderfyniadau

Asesiadau o effaith ar les yw offeryn sgrinio integredig y Cyngor i asesu'r effaith posibl y gallai cynnig ei gael ar les cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Sir Ddinbych, Cymru a'r byd . Mae'r asesiadau hyn o effaith ar les yn cynnwys ystyried effeithiau posibl, yn y tymor hirach, ar gydraddoldeb, y Gymraeg a'r amgylchedd. Diweddarwyd ein proses yn ddiweddar i gynnwys y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol newydd a fydd yn cael ei chynnwys yn nhempledi adrodd y Cyngor. Chynhaliwyd sesiynau hefyd gydag aelodau etholedig i godi ymwybyddiaeth am y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol newydd. Mae'r Cyngor hefyd wedi gwella'r asesiadau o effaith ar les a gyhoeddwyd ar ei wefannau, er mwyn sicrhau eu bod yn hygyrch ac ar gael i'w craffu gan y cyhoedd. Fodd bynnag, mae angen rhagor o waith i sicrhau bod swyddogion yn cwblhau'r Asesiadau o Effaith ar Les yn ddiwyd, a bod hyfforddiant hefyd yn cael ei ddarparu i'r Cyngor newydd ar brosesau craffu effeithiol. Mae'r Cydlynydd Craffu wedi adolygu agweddau Craffu'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol er mwyn llywio trafodion pwyllgorau.

Cam gweithredu arall a nodwyd yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol Dros Dro oedd adolygu'r asesiadau o effaith ar les mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau AD i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol. Bydd hyn yn cael ei gwblhau unwaith y bydd bob polisi'n cyrraedd y dyddiad adolygu.

Cymorth Cyflogadwyedd

Mae'r Cyngor wedi bod yn darparu cymorth cyflogadwyedd drwy fentoriaid arbenigol ar gyfer tenantiaid tai'r Cyngor, dinasyddion digartrefedd, cyn-filwyr a ffoaduriaid. Drwy'r meysydd hyn, rydym wedi gweld nifer fawr o atgyfeiriadau a gweithgarwch cymorth. Mae'r gwaith yn debygol o gael ei ymestyn, gan eithrio cefnogaeth cyn-filwyr lle mae'r galw wedi bod yn llai na'r disgwyl ac mae'r cyllid ymroddedig yn dod i ben. Mae cyflogadwyedd hefyd wedi cael ei sefydlu yn y Gwasanaeth Ieuenctid yn ddiweddar fel rhan o Brosiect y Gronfa Adfywio Cymunedol, Barod / Ready. Rydym yn archwilio cymorth cyflogadwyedd pellach y gellir ei gynnig drwy'r Gwasanaethau Plant.